



Cyfarfod

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 9FED CHWEFROR, 2023

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

NODER

BYDD Y CYFARFOD YN CAEL EI WEDDARLLEDU

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 2 Chwefror 2023)

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Meryl Roberts
Huw Rowlands

Jina Gwyrfai
Medwyn Hughes
Sedd Wag

Elfed Wyn ap Elwyn
Paul John Rowlinson

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Angela Russell
Rob Triggs

Richard Glyn Roberts
Sedd wag

Aelodau Lleyg (6)

Hywel Eifion Jones
Mrs Clare Hitchcock
Mr Elwyn Rhys Parry
Mrs Sharon Warnes
Carys Edwards
Sedd Wag

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR 5 - 9

Ystyried yr adroddiad, er gwybodaeth

5. DIWEDDARIAD AR ADRODDIADAU SYDD WEDI EU CYHOEDDI 10 - 29 YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU

I ystyried a derbyn yr adroddiad

6. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU 30 - 54 ARCHWILIO ALLANOL

I ystyried yr adroddiad a'r camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

7. ARBEDION 2023/24 55 - 76

I graffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet ystyried cymeradwyo'r Cynllun Arbedion yn ei gyfarfod ar Chwefror y 14eg

8. CYLLIDEB 2023/24 77 - 123

Ystyried yr adroddiad a chraffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymhell cyllideb 2023/24 i'r Cyngor llawn

9. STRATEGAETH GYFALAF 2023/24 (YN CYNNWYS 124 - 168 STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)

I dderbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyr cyflwyno i'r Cyngor llawn ei dderbyn.

10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022/23

169 - 175

I ystyried y cynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23

11. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

176 - 223

Debyn yr adroddiad, sylwebu ar y cynnwys a chefnogi'r gweithrediadau eisoes wedi'u cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol

Eitem 4

PWYLLGOR

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDDIAD

9 CHWEFROR 2023

TEITL

GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR

PWRPAS YR ADRODDIAD

CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU
BLAENOROL Y PWYLLGOR

AWDUR

DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID

GWEITHREDIAD

ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.
- 1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.
- 1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r weithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYLDU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

Cyfarfod 30 Mehefin 2022

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
CYFRIFON TERFYNOL 2021-2022 - ALLDRO REFENIW	<p>Derbyn yr adroddiad Nodi'r risgiau perthnasol Cefnogi penderfyniad y Cabinet (14 Mehefin 2022)</p> <p>Nodyn: Awgrym bod materion gorwariant a gwireddu arbedion ym maes bwrdeistrefol yn cael eu craffu. Cynnig cyfeirio'r awgrym at yr Uned Iaith a Chraffu fel bod modd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ei ystyried fel maes posib i'w graffu yn eu gweithdy blynyddol</p>	<p>Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi craffu 'Amlinelliad o Raglen Waith Adolygu Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu' yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y rhesymau am y gorwariant a pa gamau a gymerir i'w daclo. Nodwyd yn ystod y drafodaeth y bwriad i'r Pwyllgor graffu rhai elfennau o raglen waith y gwasanaethau gwastraff pan yn amserol.</p> <p>Dolen</p>

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2022/23	Derbyn yr adroddiad Cymeradwyo'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23 Nodyn: Archwiliad 'Diogelwch Seicolegol' – y Pwyllgor yn argymhell, fel rhan o'r trafodaethau gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, yr angen i fabwysiadu trefn o gynnal cyfweiliadau gadael	Yr archwiliad heb gychwyn eto, ond cyfweiliadau gadael yn derbyn sylw hefyd gan y Bwrdd Prosiect Cynllunio'r Gweithlu
ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL	Bod y Pwyllgor yn fodlon bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu Nodyn: Cais i adolygu'r allwedd i'r casgliadau ynghyd a gosod amserlen i'r adroddiadau hynny sydd 'ar waith.	Hyn yn derbyn sylw erbyn y tro nesaf bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno

Cyfarfod 13 Hydref 2022

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021	1. Derbyn yr adroddiad 2. Derbyn cynnydd ar y rhaglen waith 3. Cais am ddiweddariad pellach i Bwyllgor mis Chwefror 2023	Eitem ar raglen heddiw
RHAGLEN GYFALAF 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022	Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor	Dim camau pellach
CYLLIDEB REFENIW 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022	3. Bod adroddiad cynnydd o'r camau gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor wedi trafodaethau rhwng y Prif Weithredwr a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ynglŷn â gorwariant yr Adran (yr adroddiad i gynnwys ymateb i argymhellion a gyflwynwyd i'r Adran gan WRAP Cymru).	Y cyfarfodydd rhwng y Prif Weithredwr a'r penaethiaid wedi digwydd yn ystod hydref 2022. Adrodd i'r Cabinet yn y dyfodol agos.

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR	1. Derbyn yr adroddiad 2. Derbyn yr awgrym i ddileu eitem pan fydd y weithred wedi cwblhau	Dim camau pellach
PREMIWM AR DRETH CYNGOR AIL GARTREFI AC ANHEDDAU GWAG HIRDYMROR	<ul style="list-style-type: none"> • Derbyn bod y wybodaeth yn yr adroddiad a'r atodiadau yn cydymffurfio gyda'r canllawiau statudol a gofynion deddfwriaethol • Cynnig y sylwadau isod i'r Cabinet eu hystyried wrth benderfynu ar argymhelliad i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad terfynol ar y lefelau premiwm: <ol style="list-style-type: none"> 1. Bod angen cwblhau asesiad ieithyddol cynhwysfawr yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor 2. Bod angen ystyried effaith y premiwm ar allu 'brodorion' i wneud bywoliaeth 3. Bod angen gweld ystadegau sydd yn dangos effaith y premiwm ar adfer tai gwag 4. Bod angen tystiolaeth am lwyddiant y premiwm. Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma? 5. Bod angen ymgynghori pellach ar ddefnydd y premiwm. Beth yw'r cyfiawnhad o ddefnyddio premiwm ail gartref i gyllido digartrefedd? Derbyn bod yr egwyddor yn dderbyniol, ond beth yw'r dystiolaeth tu cefn i'r penderfyniad? 6. Bod angen cydblethu ystyriaethau'r premiwm gyda deddfwriaethau a mesurau Llywodraeth Cymru o reoli ail dai 	Sylwadau wedi eu cyflwyno i'r Cabinet ar 22 Tachwedd ac i'r Cyngor Llawn ar 1 Rhagfyr
ADRODDIAD RHEOLAETH TRYSORLYS HANNER BLWYDDYN 2022-23	Derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth	Dim camau pellach

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
<p>ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2021/22</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Derbyn bod trefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth yn effeithiol iawn • Bod yr adroddiad, i'r dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn y Cabinet <p>Awgrymiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys sylw ar yr effaith gadarnhaol mae cwynion yn cael ar berfformiad y Cyngor • Cynnwys crynodeb o'r prif feysydd / meysydd datblygol sydd yn derbyn cwynion • Categorioidio neu osod cyddestun ehangach ar gyfer yr adrannau hynny sydd yn derbyn y mwyafrif o gwynion, fel bod modd deall yr amgylchiadau • Y Cadeirydd i ail ymweld â chyfrifoldebau'r Pwyllgor - a oes angen rhoi trosolwg ar 'holl adrannau'r Cyngor' (gan gynnwys Gwasanaethau Gofal ac Addysg sydd â threfn statudol eu hunain)? 	<p>Byddwn yn ceisio gweithredu pan fydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor</p>
<p>DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2021 – HUNANASESIADAU</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Derbyn yr hunanasesiad drafft • Croesawu'r bwriad o gynnwys yr hunanasesiad yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor i'r dyfodol • Sicrhau, bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn gynharach yn y flwyddyn <p>Awgrym:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried cynnwys cyfeiriad at y gefnogaeth a'r hyfforddiant a roddir i Aelodau Etholedig 	<p>Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor yn ystyried amserlen posibl ar gyfer cyflwyno'r adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer 2022/23(i gynnwys yr hunanasesiad) a sicrhau mewnbwn amserol gan wahanol garfannau. Gallwn gadarnhau pan fydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.</p> <p>Yr awgrym wedi derbyn sylw o fewn yr adroddiad hunanasesiad terfynol a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 1/12/22.</p>

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU	<ul style="list-style-type: none"> • Derbyn diweddariad Chwarter 2 i raglen waith Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd • Derbyn ymateb Cyngor Gwynedd i argymhellion adroddiad Archwilio Cymru ‘Llamu Ymlaen’ sydd yn canolbwyntio ar ymateb y Cyngor i drefniadau gweithio i’r dyfodol 	Dim camau pellach

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.

Eitem 5

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	9fed o Chwefror 2023
TEITL YR EITEM	Adroddiadau Archwilio Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.
AWDUR	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu a cyflwynwyd copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 2 i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar y 17eg o Dachwedd 2022. Rydym yn disgwyl derbyn diweddariad Chwarter 3 yn ystod yr wythnosau nesaf.
- 1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y pwyllgor hwn ar y 30ain o Fehefin 2022. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar y 9fed o Chwefror 2023.
- 1.4. Yn y cyfamser mae copi o adroddiadau '**Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**' a '**Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio**' wedi eu cynnwys fel **Atodiadau 1 a 3**. Yn ogystal, mae dogfennau ymateb rheolwyr, sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiadau, wedi eu paratoi ac wedi eu cynnwys fel **Atodiadau 2 a 4**. Bydd y swyddogion perthnasol yn mynychu'r cyfarfod i osod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen.

Dafydd Gibbard
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

24 Heol y Gadeirlan / 24 Cathedral Road
Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: 3188A2022

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Annwyl Dafydd

Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Yr hyn a wnaethom

Gwnaethom gynnal asesiad o gynnydd y Cyngor wrth ymateb i ofynion allweddol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) rhwng Ebrill a Medi 2022. Casglwyd ein tystiolaeth drwy adolygu dogfennau a chynnal cyfweiliadau. Gwnaethom hefyd ddefnyddio canfyddiadau perthnasol o'n gwaith parhaus a diweddar arall yn y Cyngor. Roedd ein gwaith yn edrych ar y trefniadau yr oedd y Cyngor yn eu rhoi ar waith wrth ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Nid asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hyn oedd y gwaith.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar fframwaith ar gyfer cwblhau ei hunanasesiad o berfformiad a'i nod yw llunio adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022. Nid yw'r Cyngor wedi cadarnhau eto pryd y bydd yn cwblhau ei asesiad perfformiad panel allanol, ond nid yw'n credu y bydd yn digwydd yn 2022-23

- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau Cymru gwblhau hunanasesiad blynyddol o'i berfformiad. Mae dull hunanasesu Cyngor Gwynedd wedi'i strwythuro ar fframwaith o saith maes corfforaethol:
 - Cynllunio Corfforaethol

- Cynllunio ariannol
 - Cynllunio'r gweithlu (pobl)
 - Caffael
 - Asedau
 - Rheoli Risg
 - Rheoli perfformiad
- Mae'r Cyngor wedi cytuno ar fframwaith ar gyfer cwblhau ei hunanasesiad ac mae wrthi'n casglu tystiolaeth. Cynhaliodd y Cyngor sesiwn gweithdy gyda'i grŵp Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mehefin 2022 i gwblhau ei fframwaith hunanasesu. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol, y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Pennaeth Cyllid, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, y Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant, a Rheolwr Cefnogi Busnes y Cyngor.
 - Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau gweithio ar yr agwedd gwerth am arian ar ei broses hunanasesu drwy nodi gwybodaeth bresennol, sydd ar gael am ddarbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd. Mewn blynyddoedd i ddod, mae'r Cyngor yn bwriadu nodi gwybodaeth ehangach y mae angen ei chasglu er mwyn llywio ei hunanasesiad. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Cyllid wedi adolygu 'Pecyn Cymorth Gwerth am Arian' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) gyda'r bwriad o'i addasu i'w ddefnyddio yng Nghyngor Gwynedd.
 - Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd ei Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn arwain ar y gwaith hunanasesu, gyda mewnbwn gan aelodau'r Pwyllgor Craffu, Llywodraethu ac Archwilio, a'r Cabinet.
 - Nid yw'r Cyngor wedi trefnu unrhyw waith ymgynghori penodol o ran y flwyddyn gyntaf hon o'i hunanasesiad. Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd ei hunanasesiad o'i berfformiad yn 2021-22 yn defnyddio gwybodaeth o waith ymgynghori blaenorol.
 - Bwriad y Cyngor yw mynd â'r adroddiad hunanasesu terfynol ar gyfer 2021-22 i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn ddiweddarach yn 2022.
 - Mewn blynyddoedd i ddod, bwriad y Cyngor yw cynnwys yr hunanasesiad fel rhan o'r broses y mae'n ei dilyn i baratoi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Yn hanesyddol, mae'r adroddiad hwn fel arfer wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf bob blwyddyn. Wrth i'r Cyngor ddatblygu ei ddull o hunanasesu, mae hefyd yn bwriadu cyflwyno'r adroddiad hunanasesu i aelodau'r Fforwm Craffu, y Cabinet, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
 - Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad perfformiad panel allanol unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin yn olynol. Dywedodd y Cyngor nad yw wedi gwneud cynllun na phenderfyniad pendant eto ynglŷn â phryd y bydd asesiad y panel yn digwydd. Ond nid yw'n rhagweld y bydd yn digwydd yn ystod 2022-23.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu ei Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus, ac yn aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru cyn cwblhau'r strategaeth

- Ar adeg ein gwaith, roedd y Cyngor yn datblygu ei drefniadau i sicrhau bod cyfranogiad y cyhoedd yn parhau.
- Mae'r Cyngor yn awyddus i aros i gael rhagor o arweiniad gan Lywodraeth Cymru, sydd i fod i ddigwydd yn ystod hydref 2022, er mwyn sicrhau ei fod yn datblygu ei Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn briodol. Ond gan ragweld derbyn yr arweiniad terfynol hwn gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi creu gweithgor bach i ddechrau datblygu ei Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a fydd yn cwmpasu trefniadau mewnol ac ymgynghori ehangach.
- Mae'r Cyngor wrthi'n ffurfio'r Cynllun Deisebau, wedi iddyn nhw sefydlu gweithgor sy'n gyfrifol am gadw golwg cyffredinol ar drefniadau'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn bwriadu cyhoeddi ei Gynllun Deisebau cyn mis Mawrth 2023.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod â chwe aelod lleyg a deuddeg aelod etholedig ar ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nid yw wedi gallu recriwtio'r holl aelodau lleyg angenrheidiol ac mae ar hyn o bryd yn hysbysebu dwy swydd wag

- Ym mis Rhagfyr 2021 cymeradwyodd y Cyngor yr argymhelliad gan ei Bwyllgor Archwilio i fod â Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd o 12 aelod cyfetholedig a chwe aelod lleyg.
- Fe wnaeth panel cyfweld y Cyngor, ym mis Chwefror 2022, gyfweld â chwe ymgeisydd ac argymell pedwar i'w cymeradwyo. Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r pedwar argymhelliad ym mis Mawrth 2022. Mae'r Cyngor wedi ail-hysbysebu'r ddwy sedd wag ac yn gobeithio cadarnhau'r apwyntiadau sy'n weddill yn ystod hydref 2022 yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Cynhaliodd y Cyngor sesiwn hyfforddiant cychwynnol i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer ei aelodau ym mis Mehefin 2022. Seiliwyd y sesiwn hon ar raglen a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym y bydd hyfforddiant yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ogystal â chanllawiau CIPFA ar rôl y pwyllgorau archwilio.

Fe wnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBCyG) gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2022 ac un o nodau'r chwe chyngor cyfansoddol yw trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol y CBCyG i symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff

- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau ar 17 Mawrth 2021 i greu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig ledled Cymru. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBCyG) ar 1 Ebrill 2021. Daeth swyddogaethau cychwynnol y CBCyG i rym ar 30

Mehafin 2022. Mae Cyngor Gwynedd, fel Awdurdod lletya Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), yn arwain ar brosiect i ymateb i'r drefn newydd hon, 'Cydwethio Prif Gynghorau'.

- Y partneriaid sy'n rhan o'r CBCyG yw:
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint
 - Cyngor Gwynedd
 - Cyngor Sir Ynys Môn
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cytunodd y chwe chyngor cyfansoddol y dylai'r CBCyG barhau â'r cyfeiriad a sefydlwyd gan yr BUEGC. Ym mis Ionawr 2022, cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinetau/Byrddau Gweithredol pob un o'r chwe chyngor sy'n aelodau yn argymhell trosglwyddo swyddogaethau'r BUEGC i is-bwyllgor grymusol y CBCyG. Mae'r model arfaethedig yn gweld Is-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd yn adrodd i'r CBCyG. Cynigiwyd y newid hwn i gyflawni model llywodraethu symlach ac osgoi unrhyw ddyblygu rhwng y ddau gorff.
- Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn aros am ganllawiau a rheoliadau ynglŷn â chraffu, pwerau benthyg a statws TAW i ddatblygu gwaith y CBCyG ymhellach.

Mae'r Cyngor eisoes yn defnyddio Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar gyfer penderfyniadau corfforaethol a phrosiectau yn y sector gofal gan ei fod yn cynnig hyblygrwydd, a byddai unrhyw ddefnydd yn y dyfodol yn destun cyngor cyfreithiol arbenigol

- Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod eisoes yn defnyddio Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar gyfer penderfyniadau a phrosiectau corfforaethol ac ar gyfer gwaith yn y sector gofal. Mae'r Cyngor yn ei weld fel arf i ddefnyddio ble mae'n briodol i greu hyblygrwydd. Nododd y byddai unrhyw benderfyniad i ddefnyddio'r Pŵer yn destun cyngor cyfreithiol arbenigol.
- Mae'r Cyngor wedi creu nodyn briffio un dudalen a ddarperir i Benaethiaid Adran ar y Pŵer. Mae penaethiaid yn cael eu briffio ar y Pŵer fel rhan o baratoi prosiectau yn y dyfodol.

Yn gywir

Alan Hughes

Archwilydd Arweiniol

Ymateb y rheolwyr

Teitl yr adroddiad: Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Dyddiad cwblhau: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3188A2022

Tud. 15

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
	<ul style="list-style-type: none">Cadarnhau a gweithredu ei gynlluniau ar gyfer cwblhau asesiad perfformiad y panel allanol	Na	<p>Trafodaeth gychwynnol wedi ei chynnal hefo CLILC ynghylch yr amserlen posibl a thrafodaeth wedi ei chynnal yn y Grŵp Llywodraethu mewnol.</p> <p>Bwriad i gynnal trafodaeth bellach yn y Grŵp Llywodraethu wedi bod trwy'r broses hunan asesu ar gyfer 22/23 er mwyn cyflwyno argymhellion ac amserlen arfaethedig i'r Tîm Arweinyddiaeth</p>	Gorffennaf 2023	Dewi W. Jones

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			ar gyfer cwblhau'r asesiad gan banel.		
	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau'r broses o baratoi a mabwysiadu Strategaeth Cyfranogi 	ie	<p>Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Cyfranogiad ym mis Ionawr 2023 er mwyn sicrhau mewnbwn y cyhoedd.</p> <p>Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriad i'r Cabinet ar 14/02 gan ofyn iddynt argymhell y strategaeth i'r Cyngor Llawn. Mae bwriad cyflwyno'r Strategaeth i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 2il o Fawrth, 2023</p>	Mawrth 2023	Vera Jones/ Iwan Evans

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> Diweddariad ar y Cynllun Deisebau 	ie	Bu l'r Cyngor Llawn fabwysiadu Cynllun Deisebau yn ei gyfarfod ar y 1af o Ragfyr 2022. Rydym nawr wrthi'n mynd drwy'r camau ymarferol ar gyfer trefniadau gweinyddu cyn cyhoeddi ar y safle we. Mae'r Cynllun yn ymarferol weithredol	Rhagfyr 2022	Vera Jones
	<ul style="list-style-type: none"> Diweddariad ar recriwtio'r holl aelodau lleyg angenrheidiol 	ie	Y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo penodiad 5ed aelod lleyg ar 1 Rhagfyr 2022. Mae un sedd aelod lleyg yn parhau'n wag a byddwn yn anelu i lenwi hon yng nghyfarfod y Cyngor ar 2 Mawrth 2023	Mawrth 2023	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> Trefniadau darparu hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor 	le	Mae hon yn raglen syn parhau i esblygu. Yr aelodau wedi derbyn hyfforddiant gan yr Ombwdsmon yn Tachwedd 2022 ac ymgynghorwyr trysorlys yn Ionawr 2023. Mae cyfres o benawdau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd	Mai 2023	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid
	<ul style="list-style-type: none"> Ar lefel rhanbarthol Gogledd Cymru, cadarnhau'r trefniadau craffu, pwerau benthyg a statws TAW y Cyd-bwyllgor Corfforedig 	Na	Mae gwybodaeth wedi ei rannu yn rhanbarthol ynglŷn a'r trefniadau craffu statudol ar gyfer y CBC. Wrth baratoi ar gyfer trosglwyddo y Cynllun Twf a chwblhau Cyfansoddiad y CBC bydd y model craffu rhanbarthol yn cael ei adnabod a'i gytuno gyda'r Cynghorau.	Gorffennaf 2023	Iwan Evans, Swyddog Monitro.Cyngor Gwynedd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd
		le	Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y	Ebrill 2023	Dafydd L. Edwards,

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			<p>DU i gytuno ar fanylion newidiadau amrywiol i ddeddfwriaeth y DU i gefnogi'r 4 CBC drwy Orchymyn Adran 150, gan gynnwys mewn perthynas â statws trethiant y CJC. Mae Gorchymyn A150 drafft wedi'i baratoi a bwriedir ei osod gerbron Senedd San Steffan yn gynnar yn 2023. Yn amodol ar gytundeb, byddai'r newidiadau i ddeddfwriaeth y DU yn cael eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.</p>		<p>Swyddog Arweiniol Prosiect Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd</p>

Dafydd Gibbard
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: 3199A2022

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2022

Annwyl Dafydd

Cyngor Gwynedd – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer sut y bydd yn cyflawni sero net erbyn 2030 ac yn buddsoddi mewn cynlluniau lleihau carbon. Fodd bynnag her allweddol fydd blaenoriaethu ei gynlluniau yn seiliedig ar ddealltwriaeth o effaith lleihad mewn carbon, cost y cynlluniau ac adnabod y cyllid ar gyfer cyflawni.

Cyd-destun

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol barodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd yn edrych ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys pob cyngor. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei gyflawni. Nododd ein gwaith rwystrau cyffredin sylweddol rhag cynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd i gyflawni'r uchelgais ar y cyd. Canfuom er bod gyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, mae'n rhaid iddyn nhw bellach gynyddu eu gweithgareddau yn sylweddol, cynyddu cydweithio a gosod datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad canlynol am gamau gweithredu gan gyrff cyhoeddus:

- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb cyfunol drwy gydweithio'n effeithiol;
- egluro eich cyfeiriad strategol a chyflymu'r ffordd yr ydych yn gweithredu;
- mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- gwybod beth yw eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti; a
- gwella ansawdd a monitro data i gefnogi eich penderfyniadau.

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol yng nghynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yng nghydestun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am weithredu cyflymach ac arweinyddiaeth gadarnach ledled Cymru wrth leihau allyriadau carbon.

Yr hyn a wnaethom:

Gwnaethom gynnal asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Datgarboneiddio. Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy gyfweiliad, adolygu dogfennau ac ymatebion i Alwad am Dystiolaeth y Cyngor ar gyfer yr Adolygiad Llinell Sylfaen o Ddatgarboneiddio.

Yr hyn a ganfuom:

Mae gan y Cyngor hanes o fynegi ei uchelgeisiau ynghylch datgarboneiddio yn ei gynlluniau Rheoli Carbon blaenorol. Ym mis Mawrth 2019 datganodd y Cyngor Gwynedd argyfwng hinsawdd gan ymrwymo i 'gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac i weithio tuag at ddyfodol di-garbon'. Ei uchelgais presennol yw 'bod yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030'. Mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun) ym mis Mawrth 2022. Mae'r Cyngor hefyd wedi manteisio ar y cyfle i integreiddio ei ddull o weithredu o ran datgarboneiddio yn ei ddull o weithredu o ran ecoleg a bioamrywiaeth. Ceir tystiolaeth hefyd o'r ymrwymiad strategol i'r agenda hon drwy gael amcan llesiant penodol sy'n canolbwyntio ar 'fanteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir'. Mae 'ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd' yn un o'r wyth Blaenoriaeth Gwella yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Diwygiad 2021/22.

Er bod y Cynllun yn cynnwys amlinelliad lefel uchel o sut mae'n cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol gellid cryfhau'r cynllun trwy ddisgrifio'r modd y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi ystyried y pum ffordd o weithio i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen

rhoi tystiolaeth glir o gymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad sylfaenol o'i ôl-troed Carbon ac wedi nodi'r bwlch y mae angen ei gau er mwyn cyflawni allyriadau sero net ac wedi defnyddio hyn i helpu i lunio'r Cynllun. Ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfleoedd i wella ei ddata yn y maes hwn. Er bod y Cyngor wedi manteisio ar y cyfle i nodi effeithiau carbon a chost rhai o'i ymyriadau, mae cyfran uchel o'r ymyriadau yn y cynllun lle nad yw'r effaith garbon a'r gost ariannol a'r arbediad terfynol yn hysbys. Felly, bydd yn bwysig i'r Cyngor ddatblygu proses flaenoriaethu, sy'n seiliedig ar fethodoleg glir ar gyfer cyfrifo'r effeithiau hyn. Bydd hyn wedyn yn ei alluogi i ganolbwyntio ei adnoddau yn y meysydd hynny sy'n gallu darparu'r effaith fwyaf. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn disgwyl i'r fethodoleg hon gael ei chymeradwyo yn fuan.

Mae dulliau llywodraethu, monitro ac adrodd ar ddull gweithredu'r Cyngor o ran datgarboneiddio wedi'u hamlinellu'n glir yn y Cynllun. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu monitro'r gwaith o gyflawni ei Gynllun fel rhan o'i broses monitro perfformiad arferol. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd fel is-bwyllgor o'r Cabinet, sy'n darparu canllawiau strategol, ac yn cynnwys uwch arweinwyr, aelodau craffu a swyddogion. Mae'r Cyngor yn crynhoi ei allyriadau carbon yn y Cynllun ac mae ganddo rai cyfeiriadau yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22.

Nid yw'r Cynllun wedi'i ddatblygu ar sail ymgynghori eang a chyfranogiad dinasyddion. Bwriad y cyngor yw defnyddio dulliau ymgynghori megis Ardal Ni 2035 i gasglu adborth ar ei ddull o weithredu o ran datgarboneiddio a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio Cynllun wedi'i ddiweddarau ar gyfer ymgynghori yn gynnar yn 2023 y flwyddyn nesaf. Bydd cael dealltwriaeth glir o safbwyntiau dinasyddion a rhanddeiliaid ehangach a sut y gallant gefnogi'r Cyngor yn gam pwysig wrth lunio gweledigaeth gyffredin ar gyfer ei uchelgeisiau sero net.

Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid ac yn rhoi rhai enghreifftiau o le bydd angen partneriaid i gefnogi ei weithredoedd megis; y gwaith ar Gynllun Ynni Lleol a Hyb Hydrogen Glannau Dyfrdwy o dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru a'i bartneriaeth â chwmni Tusker i gynnig cynllun 'car gwyrdd' i staff. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo barhau i archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill os yw am wireddu ei weledigaeth o fod yn sero net erbyn 2030.

Dywedodd y Cyngor; 'hyd yma mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi bron i £8 miliwn ar brosiectau rheoli carbon gan arwain at arbediad o £4,063,000 a fydd yn parhau i gronni'. Mae'r Cyngor wedi:

- dynodi £3,000,000 wrth osod cyllideb eleni;
- wedi datgan yn glir y bydd yn fodlon defnyddio reserfau ar gyfer cynlluniau; ac
- mae cais am £2.8 miliwn o gyfalaf buddsoddi i arbed (ar gyfer paneli solar) o flaen Cabinet ar 22 Tachwedd.

Ond nid yw'r Cyngor wedi adnabod yr holl gynlluniau a cyllid sydd ei angen ar gyfer cyflawni ei Gynllun sero net erbyn 2030. Mae perygl sylweddol felly na fydd y Cyngor yn cyrraedd y targed allyriadau sero net erbyn 2030. Mae'r Cyngor wedi penodi Rheolwr Newid Hinsawdd er mwyn helpu i reoli ei ddull gweithredu, ac mae ganddo Gronfa Cynllun Hinsawdd fechan y bydd yn ei defnyddio i roi arian cyfatebol i brosiectau datgarboneiddio. Er bod y Cyngor yn ymwybodol o grantiau y gallai eu defnyddio i ariannu rhai o'i fentrau datgarboneiddio mae capasiti cyfyngedig ar hyn o bryd o fewn y tîm i wneud cais am y grantiau hyn a'u rheoli, heb effeithio ar gyflawniad y Cynllun. Os yw'r Cyngor am gyflawni ei uchelgeisiau bydd angen iddo ddiweddarau ei gynllun ariannol tymor canolig a'i strategaeth gyfalaf er mwyn cefnogi ei nod o gyflawni sero net.

Argymhellion

Arddangosyn 1 argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn

Argymhellion

A1 Dylai'r Cyngor sicrhau bod y camau lefel uchel yn ei gynllun datgarboneiddio:

- wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar feini prawf clir, gan gynnwys effaith carbon ac ariannol;
- yn cyd-fynd â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i Raglen Gyfalaf; ac
- wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau busnes.

A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu cyfres gadarn o fetrigau i fesur ac adrodd ar y cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio.

Yn gywir

Alan Hughes

Archwilydd Arweiniol

Ymateb y rheolwyr

Teitl yr adroddiad: Cyngor Gwynedd – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio

Dyddiad cwblhau: Rhagfyr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3199A2022

Tud. 25

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
A1	<p>Dylai'r Cyngor sicrhau bod y camau lefel uchel yn ei gynllun datgarboneiddio:</p> <p>a) wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar feini prawf clir, gan gynnwys effaith carbon ac ariannol;</p> <p>b) yn cyd-fynd â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i Raglen Gyfalaf; ac</p> <p>c) wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau busnes.</p>	le	<p>A) Mae rhai prosiectau wedi eu cynnwys yn ein Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) (CAHN) oherwydd bod gennym eisoes ddata sy'n dangos y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar leihau allyriadau carbon neu gynyddu lefelau amsugno carbon. Os nag oes data ar gael, mae prosiectau wedi eu cynnwys oherwydd bod</p>	Mehefin 2023	Bethan Richardson

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			<p>tystiolaeth ddigonol y bydd yn arwain at ganlyniad positif – ee. gosod pwyntiau gwefru mewn mannau cyhoeddus at ddefnydd trigolion Gwynedd. Er hynny, rydym yn mireinio ein prosesau mewnol o flaenoriaethu'r amserlen ar gyfer cychwyn a chyflawni prosiectau.</p> <p>B) Mae'r cyngor wedi neilltuo £3M fel cyllideb refeniw tymor canolig er mwyn ariannu prosiectau yn y CAHN. Yn ychwanegol at hyn mae cyllid cyfalaf o £456k yn cael ei wario yn 2022/23 ar osod pwyntiau gwefru cyhoeddus, ac £2.8M ar wedd 4 cynllun PV allan o reserfau'r Cyngor fydd yn arwain at arbediad</p>	Parhaus	

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			<p>refeniw. Mae amrywiol geisiadau grant am gyllid allanol hefyd wedi/am gael eu cyflwyno. Mae gwaith yn parhau i gostio rhai o'r prosiectau yn y CAHN felly byddwn yn adolygu ein cyllidebau yn flynyddol pan fydd y costau yn hysbys.</p> <p>C) Mae'r gwaith o adolygu strategaethau, polisiau a chynlluniau busnes y Cyngor ar y gweill, a bydd yn waith parhaus. Rydym yn trefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth a gwybodaeth am faterion hinsawdd i staff ac aelodau gyda'r bwriad y bydd yn dod yn ail natur i gynnwys ystyriaeth i faterion hinsawdd</p>	Mehefin 2023	

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			wrth greu cynlluniau busnes a chynllunio gwaith.		
A2	Dylai'r Cyngor ddatblygu cyfres gadarn o fetrigau i fesur ac adrodd ar y cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio.	Na	<p>Mae'r Cyngor yn casglu data am ei allyriadau carbon a lefelau amsugno carbon a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn flynyddol gan ddilyn templed adrodd sy'n cael ei defnyddio gan y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Rydym yn gallu defnyddio'r data er mwyn mesur effaith nifer o'n cynlluniau yn ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur – ee. defnydd ynni, allyriadau fflyd – ond mae'n anoddach profi'r cysylltiad</p>	Blynyddol parhaus	Bethan Richardson

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
Tud. 29			<p>gydag eraill – ee. annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr, meithrin a chynnal diddordeb trigolion ac ymwelwyr mewn materion ecolegol.</p> <p>Rydym yn aros am becyn canllawiau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fesur effaith carbon defnydd tir, ond mae gwaith ar y gweill yn fewnol hefyd i fesur effaith carbon gweithio o gartref, cymudo, sefydlu gwaelodlin i fesur bioamrywiaeth ayb.</p> <p>Byddwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol fydd yn mesur cynnydd y CAHN.</p>		

Eitem 6

CYFARFOD	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	9fed o Chwefror 2023
TEITL	ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL
PWRPAS	Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.
AWDUR	Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol

1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

2 Cyflwyniad

- 2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.
- 2.2 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y mater hwn yw i **fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu**, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella.

3 Ystyriaethau Perthnasol

- 3.1. Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr gronolegol o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2018 a Ionawr 2023 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella. Mae'r adroddiadau 'lleol/perthnasol i Gyngor Gwynedd' wedi eu rhestru yn gyntaf, yna'r adroddiadau cenedlaethol.
- 3.2 Rydym wedi nodi 'trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion' er mwyn dangos ymhle y mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi eu trafod, ac felly sut y cytunwyd ar unrhyw gynllun gweithredu.
- 3.3 Hefyd, fe nodir 'Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella' gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers i'r Pwyllgor drafod y mater hwn ddiwethaf fis ym mis Mehefin 2022.
- 3.4 Rydym wedyn yn nodi ein 'Casgliad' o'r cynnydd a wnaed - a oes camau digonol wedi eu cymryd i fodloni'r Pwyllgor bod y gwaith o wireddu'r argymhelliad 'wedi'i gwblhau', yntau a yw yn parhau 'ar waith'. Mae'r casgliadau yma wedi eu cytuno

gan Grŵp Llywodraethu'r Cyngor. Mater i'r Pwyllgor hwn yw barnu a yw'n cytuno â'r 'Casgliadau' a'i peidio. Mae allwedd i ystyr y casgliad ar gychwyn Atodiad 1.

- 3.5 Yn dilyn cais gan aelodau'r Pwyllgor yn ôl ym mis Mehefin 2022 rydym wedi adolygu'r allwedd i'r casgliadau ynghyd a gosod amserlen ar gyfer cwblhau'r adroddiadau hynny sydd 'ar waith'.
- 3.6 Mae'r adroddiadau yn Atodiad 1 i gyd yn rai a oedd a'u argymhellion 'heb ei gychwyn', 'wrthi'n cael ei gynllunio' neu 'ar waith' pan drafodwyd y mater ddiwethaf gan y Pwyllgor hwn fis Mehefin 2022, neu yn adroddiadau a gyhoeddwyd ers hynny.

4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

- 4.1 Mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

5 Camau nesaf ac amserlen

- 5.1 Mae'r gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o'r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda'r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd "wedi'i gwblhau" yn derbyn sylw'r Pwyllgor hwn eto. Bydd y rhai sydd "ar waith" yn dod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried eto ymhen tua 6 mis.

6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol.

Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol

Allwedd i'r casgliadau –

1. **Gwaith paratoadol** – cynnal trafodaethau er mwyn penderfynu sut i ymateb i'r argymhellion a chynllunio os/sut i'w gweithredu.
2. **Ar waith** – cytundeb neu gynllun gweithredu yn ei le er mwyn ymateb i'r argymhellion a gwaith wedi dechrau.
3. **Wedi ei gwblhau** – cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei wireddu ond gellir dadlau na wnaiff y gwaith o gyflawni'r argymhellion byth orffen am ei fod yn waith parhaus / neu: mae'r argymhellion wedi eu gwireddu.

RHAN 1 – Adroddiadau lleol neu ranbarthol sy'n asesu gwaith Cyngor Gwynedd

1. Cyngor Gwynedd - System Gwybodaeth Adnoddau Dynol

Adroddiad lleol i Wunedd gyhoeddwyd Tachwedd 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

- (i) Sefydlu rhaglen gwireddu buddion er mwyn gallu gwerthuso nodau'r prosiect datblygu yn briodol.
1. Adolygu opsiynau technoleg o fewn y prosiect:
 - (i) Gwella hygyrchedd er mwyn galluogi mwy o staff (er enghraifft y rhai sydd wedi'u lleoli'n anghysbell) i ymgysylltu â'r system.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r Bwrdd Prosiect yn cadw golwg ar fuddion y prosiect er mwyn asesu os yw'r datrysiad yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r rhaglen ar gyfer cyflwyno'r modiwlau TG wedi llithro yn sylweddol yn sgil diffyg argaeledd adnoddau datblygol y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. O ganlyniad, mae'r Bwrdd wedi blaenoriaethu gwaith yn ymwneud â'r meysydd Recriwtio a Phenodi a hefyd Absenoldebau Salwch. Disgwylir i'r rhain gael eu cyflwyno yn ddiweddarach yn 2023 ond mae hynny'n gwbl ddibynnol ar argaeledd yr adnoddau angenrheidiol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Oherwydd ardrawiad y pandemig, ni fu'n bosib cwblhau gwaith pellach o ran canfod lefelau sgiliau TG y gweithlu sydd wedi eu lleoli mewn mannau anghysbell. Mae'n fwriad atgyfodi'r

gwaith ond hyd yma nid oes amserlen pendant wedi ei lunio yn anffodus. Mae'r gwaith yma bellach yn dod o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Trawsnewid Digidol ac mae cydnabyddiaeth ei fod yn faes sydd angen sylw buan.

Casgliad

Ar waith.

Amserlen

Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn wedi ei gyflawni erbyn diwedd Mawrth, 2024.

2. Y defnydd o ddata gan Lywodraeth Leol: Cyngor Gwynedd

Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Mae angen i'r Awdurdod ddatblygu dull mwy unedig a chorfforaethol o ddefnyddio data. Felly, mae newid mewn diwylliant ac arweinyddiaeth gryfach mewn perthynas â data yn hanfodol yng Ngwynedd, a bydd yn cefnogi'r gwaith o greu amgylchedd sy'n trin data fel adnodd allweddol. Bydd hyn yn helpu i ymestyn manteision gwneud penderfyniadau dan arweiniad data i bob maes gwasanaeth, yn ogystal â helpu i wella tryloywder a democratiaeth.

Bydd diweddarau'r protocolau rhannu data a darparu sesiynau hyfforddi diweddarau, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, yn helpu i sicrhau y bydd rheolwyr y gwasanaeth yn gwybod yr hyn y gallant ei rannu ac ar ba adegau y gallant wneud hynny, ac, felly, yn helpu i osgoi unrhyw achos o ochel rhag risgiau diangen ac anghymesur mewn perthynas â rhannu data.

Dylai'r Awdurdod adeiladu ar y gwaith a wneir gan ei uned ymchwil a dadansoddeg er mwyn adolygu ystod ac ansawdd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan benderfynwyr, ynghyd â'r fformat ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth honno. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu safonau o ran adrodd ar ddata er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynir i'r uwch-swyddog a'r Aelodau Etholedig yn hygyrch, yn hawdd eu deall, ac yn cefnogi'r penderfynwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sydd mor effeithiol â phosibl.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion gwella eu trafod yn y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth, a'r mater wedi'i gynnwys yng Nghofrestr Risg y Cyngor (lefel Llywodraethu): "Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol". Ymhellach ac fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Digidol y Cyngor, mae Is Grwp Data wedi ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael a'r maes yma gyda cynrychiolaeth o pob

adran yn cyfrannu at raglen waith uchelgeisiol i wella'r defnydd o data. Mae'r Is Grŵp erbyn hyn wedi adnabod y meysydd blaenoriaeth ac yn datblygu cynllun gweithredu manwl.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cafodd Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-26 ei fabwysiadu gan y Cabinet fis Ionawr 2021. Mae hwn, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn gosod allan cyfeiriad y Cyngor ym maes gwybodaeth dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys y materion a nodwyd yn yr adroddiad. Yn ychwanegol, mae Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor yn datblygu Strategaeth Digidol newydd fydd hefyd yn sicrhau bod data a pwysigrwydd data yn ganolig i holl ddatblygiadau digidol y Cyngor.

Casgliad

Ar waith.

Amserlen

Bydd cynllun gweithredu manwl yn ffurfio rhan o Strategaeth Digidol y Cyngor 2023 – 2028 ond bydd cerrig milltir penodol mewn lle ar gyfer pob blwyddyn gyllidol o fewn y cyfnod hynny.

3. Adroddiad Arolygu: Gwasanaethau Gofal yn y Cartref Gwynedd

Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019.

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Hyfforddiant staff (Rheoliad 16 (2)(a)). Gwelsom fod amllder hyfforddiant y staff yn anghyson ac nid oedd cofnodion hyfforddiant y staff wedi'u diweddarau. Cafodd y syniad o ddarparu lefel gyson a chyfartal o hyfforddiant i'r staff hefyd ei argymhell yn yr arolygiad diwethaf. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na datblygiad y staff. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod o'r farn y gellid gwella'r ddarpariaeth hyfforddiant a chafodd hyn ei gydnabod gan y tîm rheoli.
2. Adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth (Rheoliad 23 (1), (2) a (3)). Gwelsom nad oedd y gwasanaeth wedi cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gwasanaeth ac nid oedd wedi ymgynghori'r â'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth na'u cynrychiolwyr. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth a ddarperir.

3. Mae angen adolygu cynlluniau cyflenwi gwasanaeth ac asesiadau risg mewn modd amserol.
4. Mae angen i'r gwasanaeth wella'r ffordd y mae'n dogfennu ac yn cofnodi trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol â theuluoedd/cynrychiolwyr a'r staff. Bydd hyn yn sicrhau y gellir dilyn llwybr archwilio clir.
5. Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol amserol a chyson ac arfarniad blynyddol, a chadw cofnod cyfredol o'r cyfarfodydd a gynhelir.
6. Mae angen diweddarau taflen wybodaeth y gwasanaeth ac mae angen iddi gynnwys manylion cyswllt cywir AGC.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r chwech argymhelliad a dderbyniwyd yn yr adroddiad. Mae'r argymhellion wedi eu trafod gan dîm rheoli'r Gwasanaeth, ac yn cael eu plethu i fewn i raglenni gwaith ehangach Trawsnewid Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol y Cyngor, a rhaglen waith Prosiect Gofal Cartref sydd yn edrych ar ail gomisiynu ac ail fodelu ein ffordd o ddarparu gwasanaeth i unigolion. Er nad ydym y tro hwn wedi uchafu'r argymhellion i'r gofrestr risg, rydym o'r farn fod yr argymhellion a'r pwyntiau datblygol hyn yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn darparu gofal o'r safon gorau posib, ac felly yn cynnal adolygiadau rheolaidd fel tîm rheoli'r Gwasanaeth i edrych ar gynnydd yn erbyn y gwaith.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Bwriad yr Adran oedd sicrhau gwelliannau ar draws y ddarpariaeth fewnol ac allanol yn rhan o raglen waith y Prosiect Gofal Cartref, ac mae'r Adran wedi ymateb i'r argymhellion drwy sefydlu datrysiadau tymor byr i wella'r gwasanaeth. Er fod y Prosiect Gofal Cartref yn symud yn ei flaen erbyn hyn, mae'n rhaid cydnabod y bu llithriad anorfod yn amserlen gwreiddiol y gwaith oherwydd yr angen i ymateb a chynnal gwasanaethau yn ystod y pandemig Covid-19.

Yn ogystal, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae newid wedi bod yn arweinyddiaeth y Gwasanaeth. Yn dilyn ymddeoliad un uwch reolwr, rydym wedi penodi unigolyn newydd i'r rôl, ac wedi penodi Pennaeth Cynorthwyol newydd o fewn yr adran, sydd â chyfrifoldeb dros y gwasanaethau Darparu.

Yn sgil hynny, fel Gwasanaeth, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar wella dwy flaenoriaeth gychwynnol, sef sicrhau cysondeb i amllder a chofnodion hyfforddiant staff, a llunio adroddiad rheolaidd ar ansawdd y gwasanaeth.

Mae gwaith wedi dechrau i adnabod pa staff sydd wedi derbyn pa hyfforddiant, a'n bwriad yw i ddatblygu dull electroneg o gofnodi'r wybodaeth yma yn fwy effeithiol. Mae ffrwd

gwaith penodol yn y rhaglen waith Prosiect Gofal Cartref ehangach hefyd sydd yn canolbwyntio ar hyfforddiant staff darparwyr mewnol ac allanol, fydd yn sicrhau fod yr holl staff wedi cael cynnig ac wedi derbyn yr un hyfforddiant.

Yn sgil y Prosiect Gofal Cartref, rydym wedi bod yn ymgysylltu gyda staff i'w diweddarau o'r datblygiadau, ac yn cyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cyfnod trosglwyddo yn rhan allweddol o'r Prosiect Gofal Cartref, a'n gobaith yw gallu ymgynghori gyda'r defnyddwyr a'u cynrychiolwyr yn y misoedd nesaf i gyfrannu tuag at ein hadroddiad ansawdd.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r pedwar pwynt datblygol sydd angen eu hystyried, a byddwn yn parhau i'w cynnwys ar raglen waith Trawsnewid y Gwasanaeth er mwyn gwireddu'r newidiadau hyn.

Casgliad:

Wedi ei gwblhau.

Amserlen

Mae'r materion hyn bellach yn derbyn sylw fel rhan o raglen waith arferol y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth dan sylw erbyn hyn hefyd wedi derbyn archwiliad mwy diweddar gan yr Arolygaeth Gofal, a bydd manylion hwnnw yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor hwn.

4. Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar waith awdurdodau'r gogledd yn y maes comisiynu cartrefi gofal gyhoeddwyd 16 Rhagfyr 2021 - [Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn | Audit Wales \(archwilio.cymru\)](#)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Fe wnaed y gwaith fel rhan o'n rhaglen statudol o waith archwilio lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad (neu argymhellion fel ddefnyddir yn yr adroddiad)

1. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau defnydd cyson o gytundebau cyn lleoli ledled y rhanbarth.

2. Gall y dull presennol o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal achosi tensiynau rhwng partneriaid ac arwain at werth gwael a phrofiad gwael i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydweithio i adolygu trefniadau lleol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddileu effeithiau andwyol y gellir eu hosgoi ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac ar ei gilydd.
3. Mae atebolrwydd yn un o gonglfeini prosesau penderfynu yn y sector cyhoeddus. Mae angen i drefniadau llywodraethu graffu ar benderfyniadau a dwyn penderfynwyr i gyfrif. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gryfhau eu trefniadau llywodraethu wrth weithio mewn partneriaeth i sicrhau atebolrwydd priodol a chraffu effeithiol.
4. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynd ati, trwy'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, i ddatblygu strategaeth comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal y cytunwyd arni yn rhanbarthol, ac wedyn, datblygu cynllun cyflawni cysylltiedig.
5. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau comisiynu ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Fe gyflwynwyd adroddiad i gabinet y Cyngor ym Mehefin 2022, a penderfynodd y cabinet i gymeradwyo ffioedd uwch na'r rhanbarth ar gyfer 2022/23 ar gyfer gwllâu dementia a nyrsio yn benodol, hyn er mwyn ymateb i'r farchnad a'r diffyg gwllâu dementia a nyrsio yng Ngwynedd. Er hyn, dydi ddim yn wir dweud ein bod wedi camu i ffwrdd o ffioedd safonol Gogledd Cymru yn gyfan gwbl. Rydym yn parhau i fod yn aelodau o'r grŵp ffioedd rhanbarthol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r grŵp rhanbarthol wedi argymhell ffioedd ar gyfer 2023/24, ac rydym ar ganol edrych ar ein opsiynau yng Ngwynedd ar gyfer 2023/24. Mae'n debyg bydd rhai o'n ffioedd yng Ngwynedd yn cyd fynd gydag argymhelliad y grŵp rhanbarthol, ond bydd angen cysidro yr argymhelliad ochr yn ochr ag ystyriaethau lleol, e.e. y diffyg gwllâu nyrsio yng Ngwynedd.

Yn unol a'r argymhelliad, mae gwaith yn parhau i drio cysoni cytundebau ar draws y rhanbarth. Mae oedi wedi bod oherwydd newidiadau staffio o fewn y tîm rhanbarthol, ond fe ddylai'r gytundeb safonol newydd fod mewn lle ar gyfer 2023/24.

Mae cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chartrefi gofal preifat yn parhau yn flaenoriaeth, ond mae'r diffyg gwllâu nyrsio a'r ffioedd uchel mae'r darparwyr nyrsio yn eu codi yn her. Mae Gwynedd yn ymateb i hyn drwy ddatblygu gwllâu nyrsio ar y cyd gyda BCUHB, yn unol a strategaeth Llywodraeth Cymru i '*Ailgydbwysio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru*'.

Casgliad

Ar waith.

Amserlen

Gellir dadlau bydd yr argymhellion wedi eu cwblhau yn llawn unwaith bydd y cytundeb rhanbarthol mewn lle, gan y bydd y gweddill yn waith parhaus.

6. Cyngor Gwynedd – Adolygiad o Reoli Perfformiad

Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd yn Chwefror 2022

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Awgrym 1

Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo ystod o fesurau defnyddiol ar gyfer yr holl adrannau a swyddogaethau. Mae angen iddo roi sylw arbennig i'r canlynol:

- sicrhau bod yr holl wasanaethau, yn nodi mesurau perfformiad priodol wedi'u saernio'n dda (SMART) sy'n adlewyrchu pwrpas y gwasanaeth;
- gwneud pwrpas y gwasanaeth a nodwyd mewn cyfarfodydd herio perfformiad yn gydnaws â'r pwrpas yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol yng Nghynllun y Cyngor;
- ymgorffori gwybodaeth uchelgais/safon gwasanaeth/darged a thueddiadau i roi darlun clir i'r Cyngor o uchelgais y Cyngor a'i gynnydd tuag at ei gyflawni; a
- sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon ystwyth i ymateb i heriau newydd a wynebir gan wasanaethau, fel y problemau gweithlu sylweddol presennol a wynebir gan rai gwasanaethau, drwy weithredu mesurau penodol.

Awgrym 2

Mae angen i'r Cyngor wella ei adroddiadau perfformiad er mwyn cynorthwyo eglurdeb drwy:

- ehangu'r defnydd o offer gweledol fel codau lliw i alluogi'r darllenydd i ganolbwyntio'n gyflym ar y materion allweddol drwy dynnu sylw at feysydd lle mae perfformiad ar y trywydd iawn neu'n peri pryder;
- sicrhau bod adroddiadau'n gytbwys ac yn rhoi darlun cyflawn, gonest a chytbwys o'r modd y mae'r Cyngor yn perfformio sy'n amlygu lle mae angen gwella er mwyn sicrhau canlyniadau diriaethol;
- sicrhau bod dangosfwrdd (neu atodiad mesurau) cyfredol yn cael ei gynhyrchu gan bob gwasanaeth a'i gyflwyno ym mhob cyfarfod rheoli perfformiad;
- cyhoeddi adroddiad perfformiad/cerdyn sgorio corfforaethol sy'n adrodd ar bob mesur allweddol mewn un ddogfen hygyrch.

Awgrym 3

Mae angen i'r Cyngor wella'r broses o integreiddio wybodaeth perfformiad ac ariannol drwy:

- ddefnyddio'r galw gwirioneddol am wasanaethau yn hytrach na demograffeg fel y sylfaen ar gyfer gosod cyllidebau sydd yn ymateb i alw;
- cyfleu patrwm y galw gwirioneddol o'i gymharu â thybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o'r pwysau adnoddau presennol ar wasanaethau;
- cyfuno gwybodaeth am berfformiad â gwybodaeth ariannol i gyflwyno darlun cyfannol ac unedig o sefyllfa adnoddau gwasanaethau;
- cyfuno gwybodaeth perfformiad ac ariannol i rhoi sicrwydd y gellir gwireddu cynlluniau arbedion a gyflwynir dros y tymor canolig;
- sicrhau ei hun bod cyllidebau sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar lefel sy'n ddigonol i roi adnoddau i'r galw presennol a wynebir gan wasanaethau; a
- phan fydd y Cyngor yn sicr bod y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau allweddol sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar y lefel gywir, datblygu offer fel cyllid dros dro i gydnabod ac ymdopi â chynnydd yn y galw mewn cyllidebau cyfnewidiol.

Awgrym 4

Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad drwy wneud y canlynol:

- cyfathrebu'n rheolaidd y newidiadau yn y fframwaith rheoli perfformiad gyda swyddogion ac aelodau'r Cyngor ;
- sicrhau bod swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael cymorth a hyfforddiant priodol fel y gallent gyflawni eu priod swyddogaethau'n effeithiol;
- adolygu'r trefniadau cefnogi ar gyfer y fframwaith rheoli perfformiad;
- sicrhau bod yr

holl adrannau'n ymgorffori'n effeithiol y defnydd o'r gofrestr risg yn y cylch rheoli perfformiad;

- ymgorffori dull "Un Gwynedd" a fydd yn agor sianeli deialog i alluogi dysgu corfforaethol a dileu yn gyflym achosion lle mae galw yn sgil methiant mewn un adran yn cynyddu'r galw am wasanaethau mewn un arall;
- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i ddeall gwir achos perfformiad gwael ac ymddygiad anfwriadol; a
- chyflwyno cerrig milltir a nodi perchnogion prosiectau i dracio cynnydd a sicrhau atebolrwydd am gyflawni prosiectau sy'n ymestyn dros sawl blwyddyn.

Awgrym 5

Mae angen i'r Cyngor ymgorffori ystyriaeth o egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nhrefniadau cynllunio adrannau, rheoli ac adolygu perfformiad ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion –

Adroddiad a'r argymhellion wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau herio perfformiad corfforaethol a gafodd ei arwain gan y Prif Weithredwr ar ddiwedd 2021/22. Cyflwynwyd yr argymhellion terfynol ar gyfer y drefn herio perfformiad newydd (sy'n ymgorffori mwyafrif yr argymhellion yn yr astudiaeth hon) yn ystod mis Chwefror 2022.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r drefn herio perfformiad newydd yn cael ei gweithredu ers y cylch cyntaf o gyfarfodydd herio perfformiad yn 2022/23. Yn ogystal, mae canllawiau ar y drefn newydd

wedi eu paratoi ar gyfer yr Adrannau, Aelodau Cabinet a'r Aelodau Craffu. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd gan ddarparu cyfle i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau ar gyfer cynrychiolwyr Adrannau ac i Aelodau Cabinet yn ystod mis Mai/Mehefin 2022. Camau pellach i'w hystyried gan y Grŵp Llywodraethu ar ddiwedd 2022/23.

Casgliad

Ar waith.

Amserlen

Rydym yn rhagweld y bydd y camau gweithredu er mwyn ateb i'r argymhellion wedi eu cwblhau erbyn Haf 2023.

Newydd ers Mehefin 2022

1. Adroddiad Llamu ymlaen.

Llamu Ymlaen – Cyngor Gwynedd

Adroddiad Archwilio Cymru. Mehefin 2022

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Argymhelliad 1

Mae angen i'r Cyngor wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, gan adeiladu ar y profiad o'r pandemig, wrth iddo:

- ddatblygu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer trefn a maint ei asedau tir ac adeiladau a'i weithlu yn y tymor byr, canolig a hir;
- datblygu strategaethau ar gyfer asedau a'r gweithlu; a
- datblygu cynlluniau cyflawni wedi'u costio

Data a Meincnodi

Argymhelliad 2

Datblygu'r defnydd o ddata a meincnodi i lywio prosesau cynllunio, pennu'r gyllideb a mesur llwyddiant tymor hwy ei fentrau ar gyfer asedau a'r gweithlu.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Adroddiad yn cynnwys ‘Ymateb y Rheolwyr’ wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd 2022 sy’n amlinellu sut y bwriedir ymateb i’r argymhellion.

Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a’r egwyddor datblygu cynaliadwy

Bydd yr egwyddor o ddatblygu’n gynaliadwy yn ganolog i’r holl ystyriaethau yng nghydestun diweddarau ac adolygu’r cynlluniau a’r strategaethau isod;

1. Adolygiad diweddaraf o’r Strategaeth Asedau
2. Cynllun Asedau Tir ac Eiddo i’w gynnwys fel blaenoriaeth gwella corfforaethol arfaethedig yn y Cynllun Cyngor Pum Mlynedd nesaf
3. Cynllun Ffordd Gwynedd 2022-2027 (sef Cynllun Datblygu’r Sefydliad corfforaethol) i’w fabwysiadu gan y Cabinet.
4. Cynllun Gweithio i’r Dyfodol y Cyngor i’w lunio yn dilyn cyfnod treialu gweithio hybrid (sydd yn dod i ben ddiwedd Rhagfyr 2022)

Data a Meincnodi

Mae’r Bwrdd Trawsnewid Digidol wedi’i sefydlu er mwyn arwain ar lunio Strategaeth Digidol y Cyngor am y pum mlynedd nesaf. Mae tri is-ffwrdd gwaith wedi’i sefydlu hyd yma sef;

- Data
- Gweinyddiaeth
- Cyswllt Cwsmer

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a’r egwyddor datblygu cynaliadwy

Fel rhan o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, byddwn yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo o’r newydd. Law yn llaw a hyn byddwn yn cadarnhau ein trefniadau gweithio hyblyg a gweithio hybrid wrth i’r Grŵp Swyddfeydd ddatblygu Cynllun Gweithio i’r Dyfodol dros y misoedd nesaf.

Data a Meincnodi

Mae’r Is-Grŵp Data yn cael ei arwain gan y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ac eisoes wedi sefydlu ei amcanion, sef;

- Sicrhau bod y Cyngor yn glir o’i anghenion gwybodaeth fel bod y data a gesglir yn bwrpasol i anghenion y Cyngor a’r trigolion yr ydym yn eu gwasanaethu
- Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio’r data sydd ganddo i; -
 - Gwerthuso a mesur effaith ymyraethau
 - Gwneud penderfyniadau da ar sail tystiolaeth
 - Gwella perfformiad gwasanaethau ar gyfer trigolion Gwynedd
 - Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau

- Cryfhau y cyswllt gyda'r byd ehangach er mwyn galluogi'r Cyngor i gyfrannu at ddatblygiadau cenedlaethol a rhanbarthol mewn ffordd effeithiol
- Sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn hyderus wrth ymdrin a data ac yn gallu ei gasglu, ei ddehongli a'i rannu mewn ffurf cyson a chywir. Hyn i gynnwys bod data yn cael ei weld fel adnodd sefydliadol yn hytrach na chofnod hanesyddol
- Arfogi'r Cyngor gyda'r gallu i ddal data mewn ffordd diogel a chynaliadwy. Hyn i gynnwys hwyluso'r gallu i wasanaethau a trigolion gael gwybodaeth ar alw

Casgliad

Ar waith

Amserlen

Yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad gwasanaethau oedolion yng Nghyngor Gwynedd.

Medi 2022

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Ceir nifer o gynigion ar gyfer gwella o fewn yr adroddiad o dan y penawdau canlynol:

Pobl – llais a dewis

Atal

Llesiant

Partneriaethau

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Bydd Archwilwyr Cymru yn cyflwyno eu hadroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar yr 16eg o Chwefror, a bydd rhaglen fanwl yn ymateb i'r argymhellion yn cael ei chyflwyno bryd hynny. O ganlyniad, bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fis Mehefin.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Gweler uchod.

Casgliad

Gwaith paratoadol

Amserlen

I'w gadarnhau yn dilyn y Pwyllgor Craffu Gofal ar 16 Chwefror, 2023.

RHAN 2 – adroddiadau cenedlaethol neu gyffredinol sy'n berthnasol i Lywodraeth Leol

1. Darparu Gwasanaeth Llywodraeth Lleol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cynghorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. At hynny, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.
2. Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:
 - nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;
 - gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
 - nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;
 - sicrhau bod eu polisiau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo, cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a
 - cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn gweithio ar greu Cynllun Adfywio newydd ar gyfer y sir. Mae'r sir wedi ei rhannu i 13 ardal a bydd cynllun ardal leol yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal. Fel rhan gychwynnol y cynllun rydym wedi ymgynghori gyda grwpiau cymunedol gweithredol a chynghorau cymuned a thref er mwyn canfod barn ar y themâu sy'n bwysig i gymunedau a sut gellir adeiladu ar fodel o gydweithio er mwyn gweithredu ar y blaenoriaethau hynny. Mae hyn yn blethiant o nifer o wahanol ymgynghoriadau

trawsadrannol sydd yn digwydd. Rydym hefyd yn ystod 2022 wedi agor yn ymgynghoriad allan i'r cyhoedd yn ehangach, gyda'r ymgynghoriad ar agor rhwng Mawrth a diwedd Mehefin 2022, a derbyniwyd dros 3,600 o holiaduron sydd wedi eu cofnodi a'u dadansoddi. Mae adroddiadau ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol wedi eu paratoi er mwyn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd. Yn ystod mis Medi a Hydref 2022, trefnwyd gweithdai gyda sefydliadau lleol ym mhob un o'r 13 ardal adfywio lleol. Pwrpas y gweithdai oedd adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r gwaith ymgysylltu, gan roi sylw i flaenoriaethau lleol. Roedd y gweithdai hefyd yn gyfle i ystyried a thrafod prosiectau lleol a chychwyn ar y gwaith o lunio cynlluniau gweithredu. Cam nesaf o'r broses fydd i baratoi cynlluniau adfywio lleol (drafft) ar gyfer pob ardal unigol. Mae hyn eisoes ar waith, gyda'r bwriad o gael cynlluniau drafft mewn lle erbyn diwedd Chwefror / cychwyn mis Mawrth. Byddwn hefyd yn trefnu cyfres o weithdai pellach yn yr ardaloedd lleol er mwyn ystyried a thrafod y cynlluniau gweithredu drafft.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Yn hanesyddol mae'r Adran Economi o fewn y Cyngor wedi gwneud llawer o waith o ran trosglwyddo asedau i Gynghorau Cymuned, Mentrau a Grwpiau Cymunedol. Rydym yn gweithio gyda sawl Cyngor Cymuned /Tref , grŵp neu fenter cymunedol i feithrin eu gallu i ymgymryd a rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gyda sawl cynllun ar y gweill ar hyn o bryd. Rydym yn rhagweld bod y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal yn fodd o uchafu y nifer o asedau boed yn adeilad neu dir sydd yn cael ei drosglwyddo i reolaeth gymunedol ar gyfer budd cymunedol, ac yn fodd o ddatblygu mwy o ddiddordeb ac anogaeth cymunedol i gymryd rheolaeth o asedau er budd eu cymunedau. Byddwn yn parhau i gefnogi grwpiau i gryfhau capasiti o fewn cymunedau i adnabod cyfleoedd a chefnogi i adnabod ffynonellau ariannu ar gyfer cynlluniau busnes a sicrhau cynllun hyfyw.

Casgliad

Ar waith.

Amserlen

Rydym yn rhagweld y bydd y camau gweithredu er mwyn ateb i'r argymhellion wedi eu cwblhau erbyn Mawrth 2024.

7. Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad

Yn rhan 1, mae'r adroddiad yn argymhell bod awdurdodau lleol:

-Yn adolygu gwybodaeth gyhoeddus gan drafod gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i sicrhau ei bod yn eglur, yn gryno ac yn egluro'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.

-Yn gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol.

-Yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

-Yn sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y drws blaen i ofal cymdeithasol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth gychwynnol am yr opsiynau o ran gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

-Yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus yn eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Yn rhan 2:

-Yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Personol.

-Yn egluro disgwyliadau polisi mewn iaith glir, hygyrch ac yn nodi: yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano; sut y mae prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu'n gweithio; sut y bydd monitro taliadau uniongyrchol a'r gwaith papur sy'n ofynnol i wirio taliadau'n gweithio; sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin a pha un a ellir ei fancio; a sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.

Yn rhan 3:

-Yn cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn a honno'n system sy'n cofnodi pob elfen o'r broses – gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar lesiant ac annibyniaeth.

-Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i'w gwneud yn bosibl cael golwg system gyfan ar y modd y cânt eu darparu ac o'u heffaith i gefnogi gwelliant.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Adroddiad mewn ymateb i fater cenedlaethol yw hwn, felly does dim argymhellion penodol i Wynedd. Serch hynny, mae'r argymhellion wedi eu trafod yn fewnol gennym fel Adran. Rydym fel Adran yn llawn ymwybodol fod defnydd taliadau uniongyrchol Gwynedd yr isaf yng Nghymru, a fod hyn angen sylw.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rhan 1:

Mae'r gwaith o adolygu'r wybodaeth gyhoeddus a'r deunydd sydd ar gael ar gyfer taliadau uniongyrchol yn parhau, yn ogystal a datblygu hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol. Disgwylir bydd hyn wedi cwblhau erbyn ddiwedd Mawrth.

Rhan 2:

Nodwyd y tro diwethaf fod materion rhwystredig wedi codi wrth weithio gyda cwmni allanol sydd yn darparu y gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol ar ein rhan ar hyn o bryd. Mae'r problemau gyda'r gwasanaeth wedi parhau, a wedi arwain at nifer o gwynion a rhwystredigaeth gan unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol.

Rhan 3:

O ganlyniad i'r problemau gyda'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol ar hyn o bryd a'r diffyg defnydd o daliadau uniongyrchol, mae grŵp wedi ei osod i fyny i gael golwg system gyfan ar y gwasanaeth, gyda mewnbwn ymgynghorwyr Vanguard. Yn ogystal ag edrych ar y system gyfan, y wybodaeth sydd ar gael, sut mae taliadau uniongyrchol yn cael eu hyrwyddo ayyb, byddwn yn edrych dros y misoedd nesaf ar ein opsiynau o ran cynnal y gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol. Un opsiwn fydd yn cael ei gysidro fydd mewnloli'r gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol. Bydd y gwerthusiad cychwynnol wedi gorffen erbyn diwedd Ebrill 2023, a bydd yr argymhellion wedi gweithredu arnynt yn llawn erbyn diwedd Rhagfyr 2023 fan hwyraf.

Casgliad

Ar waith

Amserlen

Rydym yn rhagweld y bydd y camau gweithredu er mwyn ateb i'r argymhellion wedi eu cwblhau erbyn diwedd 2023.

Newydd ers Mehefin 2022

1. Amser am newid – Tlodi yng Nghymru

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Tachwedd 2022

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Argymhelliad 1

Strategaeth genedlaethol a thargedau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu

Mater canolog i Lywodraeth Cymru yw hwn

Argymhelliad 2

Strategaethau, targedau ac adroddiadau ar berfformiad lleol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu

Ym Mharagraffau 2.13 – 2.23 a Pharagraffau 3.33 – 3.35 rydym yn amlygu bod cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond bod y cymysgedd o ddulliau a thirwedd cyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n eang. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod gwerthuso gweithgarwch a'r modd yr adroddiad ar berfformiad hefyd yn amrywiol gyda llawer o fylchau. Rydym ni'n argymhell bod y cynghorau'n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i'r afael â thlodi i gydlyn eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi'r targedau a'r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig. Dylai hyn:

- gynnwys camau gweithredu lleol CAMPUS gyda mwy o bwyslais ar atal;
- cynnwys cynllun adnoddau manwl ar gyfer oes y strategaeth;
- cael ei ddatblygu gydag ymwneud gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a'r rhai sydd â phrofiad o dlodi;
- cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniadau cyson i gynyddu dealltwriaeth am dlodi yn lleol; a
- bod yn destun adroddiadau cyhoeddus blynyddol er mwyn gallu bod â golwg system gyfan ar dlodi'n lleol i helpu i wella'r broses gyflawni a chymorth.

Argymhelliad 3

Arweinyddiaeth ar yr agenda tlodi

Ym Mharagraff 2.23 rydym yn nodi bod gan ychydig dros draean o'r cynghorau aelodau arweiniol a swyddogion arweiniol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. O ystyried pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol i yrru'r agenda tlodi yn ei blaen a thorri seilos o fewn cynghorau a rhwng cyrff cyhoeddus, rydym yn argymhell bod pob cyngor yn dynodi aelod cabinet fel hyrwyddwr tlodi'r cyngor ac yn dynodi uwch swyddog i arwain a bod yn atebol am yr agenda wrthdlodi.

Argymhelliad 4

Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd rhaglenni sy'n cael eu hariannu â grantiau

Mater canolog i Lywodraeth Cymru yw hwn

Argymhelliad 5

Mapio profiadau i greu gwasanaethau cynhwysol i bobl mewn tlodi

Ym Mharagraffau 3.2 – 3.6 rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl mewn tlodi yn aml mewn argyfwng, yn ymdrin â materion personol a materion sy'n llawn straen, ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth gan gynghorau oherwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Rydym yn argymhell bod cynghorau'n gwella eu dealltwriaeth am 'brofiad personol' eu trigolion trwy eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau gan

‘fapio profiadau’ a/neu ddefnyddio ‘Comisiynau’r Gwirionedd am Dlodi’ i adolygu a gwella hygyrchedd gwasanaethau’r cyngor a’r defnydd ohonynt.

Argymhelliad 6

Un dudalen lanio ar y wefan ar gyfer pobl sy’n chwilio am gymorth

Ym Mharagraff 3.14 rydym yn tynnu sylw at yr anawsterau y mae pobl mewn tlodi yn eu hwynebu wrth geisio mynediad at wasanaethau ar-lein a digidol. Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael yr wybodaeth a’r cyngor y mae eu hangen arnynt, rydym yn argymhell bod cynghorau’n optimeiddio eu gwasanaethau digidol trwy greu un dudalen lanio ar eu gwefan sydd:

- yn uniongyrchol hygyrch ar yr hafan;
- yn darparu dolenni i’r holl wasanaethau a ddarperir gan y cyngor sy’n ymwneud â thlodi; ac
- yn darparu gwybodaeth am waith partneriaid sy’n gallu cynorthwyo pobl mewn tlodi

Argymhelliad 7

Symleiddio a gwella gwasanaethau ymgeisio a gwybodaeth i bobl mewn tlodi

Ym Mharagraffau 3.15 a 3.16 rydym yn nodi nad yw’r un cyngor wedi creu un porth i mewn i wasanaethau. O ganlyniad, mae’n rhaid i bobl gwblhau ffurflenni cais lluosog sy’n aml yn cofnodi’r un wybodaeth wrth wneud cais am wasanaethau tebyg. Rydym yn amlygu, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, bod angen i gynghorau hefyd rannu data er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Rydym yn argymhell y dylai cynghorau:

- sefydlu safonau data a dull codio corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;
- cynnal archwiliad i ganfod pa ddata sy’n cael ei gadw gan wasanaethau a nodi unrhyw achosion o ddyblygu cofnodion a cheisiadau am wybodaeth;
- creu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau;
- cynnal archwiliad data i ddarparu hyfforddiant diweddar i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data a pha ddata y gallant ac na allant ei rannu; ac
- adolygu a diweddarau protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.

Argymhelliad 8

Cydymffurfio â’r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

Ym Mharagraffau 3.27 i 3.32 rydym yn nodi, er bod pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i bennu effaith economaidd-gymdeithasol debygol dewisiadau a phenderfyniadau polisi, bod dulliau’n amrywio ac nad ydynt bob amser yn effeithiol. Rydym ni’n argymhell bod cynghorau yn adolygu eu hasesiadau effaith integredig neu ddogfennau cyfwerth er mwyn:

- sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol (dim byd dros 12 mis oed) i ategu dadansoddiad;
- sicrhau bod asesiadau effaith integredig yn casglu gwybodaeth am:
 - weithgarwch cynnwys sy’n nodi’r rhai y mae’r gwasanaeth wedi ymgysylltu â hwy wrth benderfynu ar ei bolisi strategol megis partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a’r rhai y mae’n cydgynhyrchu â hwy;

- yr effaith gronnus/camau lliniaru i sicrhau bod yr asesiad yn ystyried materion yn eu crynswth a sut mae'n cysylltu ar draws gwasanaethau a ddarperir ar draws y cyngor;
- sut y bydd y cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith ac yn cymryd camau cywiro; a
- chynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Integredig

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Argymhelliad 2

Penderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y dylid canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae angen cydweithio ynddynt er mwyn gwneud gwir wahaniaeth. Ar ôl dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant ac ystyried casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill maent wedi blaenoriaethu tloidi fel un o tri maes penodol i ganolbwyntio arno er mwyn gwireddu'r weledigaeth yma. Mae'r amcan wedi ei eirio fel a ganlyn yn drafft ymgynghorol y Cynllun Llesiant 2023-28:

Amcan Llesiant 1: Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tloidi ar lesiant ein cymunedau

Mae'r Cynllun Llesiant hefyd yn gosod yr uchelgais sydd tu cefn i'r amcan fel a ganlyn: Byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tloidi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hirdymor tloidi. Byddwn yn ceisio cael dealltwriaeth fanwl o'r goblygiadau o fyw mewn tloidi yn ein gwahanol ardaloedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Asesiadau Llesiant i gael darlun manwl o ble mae'r diffyg mynediad at wasanaethau yn fwy heriol oherwydd tloidi.

Argymhelliad 3

Wedi cyflawni hyn eisoes – Cyng Nia Jefferys wedi derbyn cyfrifoldeb dros hyn.

Argymhelliad 5

Comisiwn wedi ei wneud eleni ar Brofiad Tloidi Gwynedd.

Argymhelliad 6

Wedi ei gyflawni - mae gwefan benodol wedi ei chreu - Gwefan Costau Byw: (<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Costau-Byw.aspx>).

Argymhelliad 7 -

Mae nifer o'r materion yma unai eisoes yn eu lle, neu mae cynlluniau eisoes ar waith i'w gweithredu fel rhan o Gynllun Gwybodaeth presennol y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn Ionawr 2021.

Bydd gweddill y materion yn cael ystyriaeth wrth lunio Strategaeth Digidol newydd y Cyngor.

Argymhelliad 8

Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru. Mae aelodau RhCSGGC (y 6 sir, BIPBC, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Ambiwlans) wedi defnyddio eu harbenigedd a gwybodaeth, a chreu twlsyn integredig sy'n cynnwys cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg a hawliau dynol. Dilynwyd canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a derbyniwyd mewnbyn gan swyddfeydd y Comisiwn hwnnw a Chomisiynydd yr Iaith. Bwriad y twlsyn ydi hwyluso gwaith partneriaethol (trwy gael un ffurflen cydnabyddedig) a hefyd er mwyn defnydd y mudiadau unigol. Mae nifer o Aelodau RhCSGGC yn defnyddio fersiwn ohono. Rydym ni wedi ei addasu ychydig ac yn y broses o'i gael fel ein templed newydd ar ffurf electroneg. Disgwylir y bydd TG wedi gorffen y gwaith er mwyn ei gael yn weithredol erbyn y flwyddyn ariannol newydd. I gydfynd gyda hyn rydym yn paratoi adnodd fydd yn cynnwys y data mwyaf perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol. Mae sicrhau ymgysylltiad yn ran pwysig o'r cwestiynau yn y twlsyn ac mae rhestr o fudiadau ar gael. Mae angen monitro'r asesiad yn aml ac mae'r twlsyn yn cynnwys cwestiwn er mwyn cynnwys cynllun gweithredu.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cyhoeddwyd yr Adroddiad hwn fis Tachwedd, ac mae rhai argymhellion eisoes wedi eu cyflawni a gydag eraill mae'n gynnwys i adrodd ar gynnydd ar hyn o bryd. Mae yna hefyd argymhellion cenedlaethol sydd angen sylw'r Llywodraeth, ac mae'r rhain wedi eu cynnwys er gwybodaeth, a byddant yn cael ei dileu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Casgliad

Ar waith

Amserlen

Yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

2. Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Medi 2022

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Egluro cwmpas y ddyletswydd i asesu effaith polisiâu ac arferion

Argymhelliad 1

Mae lle i ddrysu ynghylch pa fath o bolisiâu ac arferion y mae'n rhaid iddynt fod yn destun asesiad o'u heffaith ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei dehongliad o'r ddyletswydd, gan gynnwys a yw'n disgwyl i gyrff cyhoeddus ddefnyddio unrhyw brawf o gymesuredd a pherthnasedd a sut i wneud hynny

Creu darlun o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da

Argymhelliad 2

Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau effaith integredig sy'n cynnwys ystyried y DCSC ochr yn ochr â dyletswyddau eraill. Ond mae'r arfer yn anghyson ac yn aml yn cynnwys coladu nifer o asesiadau mewn un lle, yn hytrach na'u bod wir wedi'u hintegreiddio, i helpu i sicrhau cymaint o'r manteision a fwriadwyd â phosibl yn sgil asesiadau effaith integredig, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant yn y meysydd a gwmpesir yn gyffredin gan asesiadau effaith integredig a'r rhai sydd â phrofiadau byw, i rannu yr hyn a ddysgwyd a gweithio tuag at ddealltwriaeth gyffredin o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da

Cymhwyso'r dyletswyddau cydraddoldeb i gydweithrediadau cyrff cyhoeddus a phartneriaethau

Argymhelliad 3

Mae tirwedd y sector cyhoeddus wedi newid ers cyflwyno'r DCSC a dyletswyddau penodol i Gymru, ac mae pwyslais cynyddol ar gynllunio a chyflawni cydweithredol. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes angen diweddarau rheoliadau penodol i Gymru i gwmpasu ystod ehangach o drefniadau cydweithredol a phartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus, byrddau partneriaethau rhanbarthol a phartneriaethau eraill sy'n benodol i wasanaethau.

Adolygu dull presennol cyrff cyhoeddus o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Argymhelliad 4

Er bod enghreifftiau o arfer da sy'n gysylltiedig â chymau penodol o broses Asesu'r effaith ar Gydraddoldeb, mae gan bob corff cyhoeddus wersi i'w dysgu am eu dull cyffredinol. Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion. Rydym yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i'n hargymhelliad arall ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau DCSC penodol i Gymru fod â goblygiadau ar gyfer y canllawiau presennol maes o law

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r argymhellion yma'n rai cyffredinol genedlaethol ac felly nid ydynt i gyd yn berthnasol i ni yng Nghyngor Gwynedd.

Argymhelliad 1 – mae hwn yn argymhelliad i Llywodraeth Cymru

Argymhellaid 2 – eto'n fater i'r Llywodraeth yn bennaf, ond dylid nodi fod aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSGGC - y 6 sir, BIPBC, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r

Gwasanaeth Ambiwlans) wedi penderfynu defnyddio eu harbenigedd a gwybodaeth a chreu twlsyn integredig sy'n cynnwys cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, a hawliau dynol. Dilynwyd canllawiau manwl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a derbyniwyd mewnbwn gan swyddfeydd y Comisiwn hwnnw a Chomisiynydd yr Iaith. Bwriad y twlsyn ydi hwyluso gwaith partneriaethol (trwy gael un ffurflen cydnabyddedig) a hefyd er mwyn defnydd y mudiadau unigol. Mae nifer o Aelodau RhCSGGC yn defnyddio fersiwn ohono. Rydym ni wedi ei addasu ychydig ac yn y broses o'i gael fel ein templed newydd ar ffurf electroneg. Disgwylir y bydd TG wedi gorffen y gwaith er mwyn ei gael yn weithredol erbyn y flwyddyn ariannol newydd.

Argymhelliad 3 – mater i'r Llywodraeth eto ond rydym yn RhCSGGC yn cynnig y drefn uchod ar gyfer gwaith partneriaethol.

Argymhelliad 4 – rydym eisoes wedi cydnabod fod gennym waith i'w wneud i wella'r drefn a dyna pam rydym wedi mabwysiadu'r templed newydd sydd wedi ei selio ar brofiad y mudiadau i gyd. Mae'r swyddogion cydraddoldeb yn mynychu cyfarfod Ddigwyddiad Ymarfer Da Awdit Cymru ar 25 Ionawr i gael arweiniad a thrafodaeth ar y maes. Bosib y bydd syniadau'n codi o'r cyfarfod yna a byddwn yn edrych allan am argymhellion pellach gan y Llywodraeth.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae gwaith wedi ei wneud eisoes yn y maes yma cyn i ni dderbyn yr argymhellion ond byddwn yn gweithredu ymhellach fel yr esboniwyd uchod.

Casgliad

Ar waith

Amserlen

Rydym yn rhagweld y bydd y camau gweithredu er mwyn ateb i'r argymhellion wedi eu cwblhau erbyn diwedd Ebrill 2023, er, wrth gwrs, bydd angen monitro'n ofalus wedyn. Bydd hefyd angen gweld beth ddaw gan y Llywodraeth dan Argymhellion 1, 2 a 3.

Eitem 7

CYFARFOD:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	9 CHWEFROR 2023
TEITL:	ARBEDION 2023/24
PWRPAS:	Cyflwyno gwybodaeth am y broses o sefydlu Cynllun Arbedion 2023/24 - 2024/25 fel cyfraniad at fwllch cyllidol y Cyngor
GWEITHREDIAD:	Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet ystyried cymeradwyo'r Cynllun Arbedion yn ei gyfarfod ar Chwefror y 14eg
AELOD CABINET:	Y CYNGHORYDD DYFRIG SIENCYN
SWYDDOG CYSWLLT:	DAFYDD GIBBARD, PRIF WEITHREDWR

- 1.** Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig er mwyn dod i gasgliad os yw'n Gynllun Arbedion synhwyrol fel un cyfraniad tuag at y bwlch cyllidol sy'n ein hwynebu dros y ddwy flynedd nesa.
- 2.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad.
- 3.** Nid rôl y Pwyllgor yw mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol sy'n cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

4. Yn gryno, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad yma yn ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion yn ei gyfanrwydd.
5. Er enghraifft
 - Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod y broses o adnabod yr arbedion a nodir yn Atodiad A yn rhesymol?
 - Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol iawn, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion?
 - Oes modd cael sicrwydd fod yr arbedion a gynigir yn rhesymol a chyraeddadwy neu ydi'r adroddiad yn delio gyda rhagdybiaethau mewn ffordd synhwyrol?
 - Ydi'r adroddiad yn glir am oblygiadau y penderfyniad a geisir?
 - Ydi'r risgiau yn eglur?

Atodiad:

Cynllun Arbedion 2023/24 – 2024/25 (adroddiad Cabinet 14/02/2023)

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod:	14eg Chwefror 2023
Aelod Cabinet perthnasol:	Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor
Swyddog Cyswllt:	Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr
Teitl yr Eitem:	Cynllun Arbedion 2023/24 – 2024/25

Y Penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- a) Gymeradwyo'r arbedion effeithlonrwydd a restrir yn Atodiad A (£6.4m) fel gwedd gyntaf o arbedion y gallwn eu defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2023/24 – 2024/25.
- b) Gomisiynu gwaith pellach i sefydlu'r wedd nesaf o arbedion a thoriadau (oddeutu £1.6M - £2.2M) cyn gosod cyllideb 2024/25
- c) Gwneud darpariaeth o £1.6M i gyfarch y lefel risg sydd yn ynghlwm a gwireddu y cynllun arbedion effeithlonrwydd
- ch) Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i'r Cynllun Arbedion hwn wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol a nodir isod.

Cefndir

1. Mae'r lefelau chwyddiant eithriadol presennol, yn arbennig yr effaith ar gyflogau a chostau ynni, ynghyd â'r cynnydd sylweddol yn y galw am rhai gwasanaethau megis digartrefedd oherwydd yr argyfwng tai cenedlaethol, yn golygu fod costau'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol mewn cyfnod byr.
2. Nid yw'r rhagolygon ar gyfer lefel chwyddiant, nac ychwaith ein gwaith o amcanu'r galw am wasanaethau, yn rhoi lle i ni obeithio y bydd pethau'n gwella yn y tymor byr.
3. Rydym bellach yn gwybod beth fydd lefel ein Grant Cefnogaeth refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 (cynnydd o 7%, felly cryn dipyn yn is na lefel chwyddiant) ac wedi derbyn amcan o'r Grant ar gyfer 2024/25 (3% yw'r cyfartaledd

cededlaethol tebygol) sydd yn debygol o fod gryn bellter islaw'r hyn fyddwn ei angen i gynnal gwasanaethau.

4. Rydym hefyd yn wynebu sefyllfa lle bo ambell i adran yn gorwario, yn bennaf oherwydd anallu i gyflawni cynlluniau arbedion y gorffennol a chynnydd parhaus yn y galw am eu gwasanaethau.
5. Yn dilyn ystyriaeth fanwl i'r ffactorau uchod, oni bai fod newid arwyddocaol cyn cyhoeddi setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2024/25, rydym yn gallu cyfrifo y bydd ein bwllch ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesa oddeutu £12.4M.
6. Bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn yr un cyfarfod a'r adroddiad hwn, a fydd yn amlinellu sut ydym am ymdopi gydag effaith y bwllch yma wrth osod ein cyllideb ar gyfer 2023/24. Bydd y gyllideb yn cynnwys cyfuniad o orfod cynyddu'r dreth Cyngor, lleihau cyllidebau ysgolion a newid ein polisi ad-dalu benthyciadau. Bydd hefyd yn cynnwys yr angen i gyflawni arbedion mewn cyllidebau ar draws y Cyngor a phwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu sut yr ydym wedi mynd ati i ganfod yr arbedion hyn a sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i'w gweithredu, nid yn unig er mwyn gallu gosod cyllideb 2023/24 ond hefyd cyllideb y flwyddyn ddilynol.
7. Bydd Aelodau eisoes yn ymwybodol fod lefelau chwyddiant cenedlaethol a'r pwysau yn y maes digartrefedd wedi codi'n gyflym iawn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol sydd wedi arwain at orwariant eleni oddeutu £7M. Gan nad oedd cyfle i gynllunio ymlaen llaw o gwbl ar gyfer y bwllch hwn, byddwn yn gorfod defnyddio arian wrth gefn ar gyfer ymdopi â'r sefyllfa.
8. Yn yr un modd, nid ydym ychwaith wedi cael cyfnod rhagbaratoi rhesymol ar gyfer ceisio darganfod arbedion i allu ymdopi ag effaith hyn oll ar ein cyllideb yn 2023/24 ac felly rydym wedi gorfod mynd ati yn llawer fwy cyflym nag y byddem wedi ei ddymuno i geisio sefydlu Cynllun Arbedion fel un ffordd o gyfrannu at ein bwllch ariannol.
9. Bu i ni gychwyn ar y gwaith o sefydlu Cynllun Arbedion ar gychwyn Tachwedd drwy ofyn i bob Pennaeth Adran gyflwyno cynigion o fewn eu meysydd gwaith a fyddai'n arwain at arbedion neu doriadau ariannol. Rhoddwyd cyfarwyddyd fod angen i bob uned waith gyflwyno cynigion gyfwerth â 20% o'u cyllideb craidd er mwyn i'r Aelodau Cabinet fynd ati i flaenoriaethu'r cyfan gan geisio darganfod y cynigion oedd yn cael yr effaith lleiaf ar drigolion Gwynedd.
10. Cyflwynwyd 320 o gynigion gyda chyfanswm eu gwerth oddeutu £23M. Fe aseswyd pob un o'r rhain unai gennyf i neu gan un o'r Cyfarwyddwyr gan osod pob cynllun yn y categorïau canlynol er mwyn helpu'r Aelodau i allu mynd ati i flaenoriaethu gydag ymwybyddiaeth o beth fyddai'r lefel risg o weithredu unrhyw gynig unigol.

Arbediad effeithlonrwydd	Dim angen y gyllideb, neu'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn ffordd wahanol gyda dim effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd
Arbediad effeithlonrwydd	Gwasanaeth yn parhau, ond bydd y cyhoedd yn gweld gwasanaeth yn cael ei gyflwyno mewn ffordd wahanol i'r hyn mae nhw wedi arfer ei weld (cynyddu ffioedd yn fan hyn hefyd)
Toriad	Y gwasanaeth yn dal i gael ei gyflawni ond yn arafach, i safon is neu ar raddfa llai na'r hyn mae'r cyhoedd wedi arfer ei dderbyn. Risg isel o niwed i unigolion mewn rhai meysydd.
Toriad	Y gwasanaeth yn dod i ben gydag oblygiadau negyddol clir i drigolion Gwynedd, gan gynnwys risg uchel o niwed i unigolion mewn rhai meysydd.

11. Bu i ni hefyd gynnal asesiad cyfreithiol ag asesiad ariannol lefel uchel ar bob cynllun unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gynlluniau oedd yn bosibl eu cyflawni.
12. Pan yn cyflwyno eu cynigion, roedd yr Adrannau yn cynnwys asesiad o effaith pob cynnig ar drigolion Gwynedd ynghyd ag ystyriaeth gychwynnol i ystyriaethau cydraddoldeb. Gofynnwyd hefyd i bob Pennaeth Adran flaenoriaethu eu cynigion gan adnabod y rhai fyddai'n cael lleiaf o effaith ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd.
13. Dros gyfnod o dri diwrnod bu i bob Pennaeth Adran gyflwyno eu cynigion i weithdai o Aelodau Cabinet, Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Craffu ynghyd ag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol yn y Cyngor.
14. Drwy gydol y broses hon ein prif nod oedd ceisio darganfod cynigion fyddai'n cael y lleiaf o effaith ar drigolion Gwynedd pe byddent yn cael eu gweithredu. Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng arbedion effeithlonrwydd a thoriadau, ac felly mae'n destun balchder fod y broses hon wedi arwain at allu darganfod oddeutu £6.4M o arbedion effeithlonrwydd y gallwn eu gweithredu.
15. Roedd consensws bras ymysg yr aelodau a gymerodd ran yn y gweithdai, i benderfynu pa gynlluniau y dylid eu blaenoriaethu. Y casgliad oedd fod posib i ni weithredu oddeutu £6.4M o'r cynigion dros y ddwy neu dair mlynedd nesaf, yn unol â phroffil bras fel a ganlyn:

2023/24	2024/25	2025/26
£3.1M	£2.86M	£0.45M

16. O ran y cynigion sydd wedi eu blaenoriaethu i'w gweithredu, gellir gweld rhestr gyflawn o'r rhain yn Atodiad A. Yn fras gellir eu gosod yn y grwpiau canlynol o ran y math o gynllun sydd dan sylw:

1	Lleihau cyllidebau sy'n tanwario o ganlyniad i ffordd newydd o weithio wedi'r cyfnod Covid Mae costau teithio a chostau argraffu yn enghreifftiau o faterion lle mae'r gwariant wedi gostwng yn sgil trefniadau i weithio'n hybrid a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol yn hytrach na wyneb yn wyneb.	£1.2M
2	Arbedion effeithlonrwydd - addasu trefniadau gweithio. Er mwyn cyflawni arbedion yn y meysydd yma byddwn yn newid y ffordd yr ydym yn mynd ati i ddarparu'r gwasanaeth a'i ddarparu mewn ffordd mwy effeithlon.	£1.7M
3	Cytuno i geisiadau gan fudiadau eraill a throsglwyddo adnoddau. Bydd hyn yn rhoi gwell rheolaeth i fudiadau sydd eisoes yn defnyddio yr adnoddau hyn.	£40k
4	Mewnoli trefniadau mewn amryw feysydd Bydd hyn yn golygu darparu rhai gwasanaethau ein hunain yn hytrach na defnyddio contractwyr allanol e.e. Lladd chwyn	£0.4M
5	Cynyddu incwm Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r ffi am wasanaethau Ymgynghoriaeth Gwynedd	£0.9M
6	Dileu swyddi gwag / lleihau cyllidebau staffio i fynd efo'r gwir gost. Mae rhai gwasanaethau wedi ymdopi am gyfnodau hir heb lenwi swyddi swyddfa gefn heb effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau ac awgrymir parhau gyda'r trefniadau hynny ac ildio'r cyllidebau.	£0.3M
7	Arbedion o ganlyniad i newid systemau neu ddefnydd amgen o systemau Gwell defnydd o offer a thechnoleg er mwyn gweithio yn fwy effeithlon gan gynnwys datblygu systemau a proffilio anghenion defnyddwyr i resymoli trwyddedau meddalwedd	£0.2M
8	Defnyddio ffynonellau eraill i ariannu Uchafu'r defnydd o grantiau sydd ar gael i ariannu swyddi a gweithgareddau heb effeithio y gwasanaeth.	£0.4M
9	Lleihau cyllidebau hyfforddiant mewn rhai meysydd Mae costau wedi lleihau o ganlyniad i ffyrdd newydd o ddarparu hyfforddiant e.e. e-fodiwlau.	£50k
10	Ailstrwythuro o fewn gwasanaeth i weithio yn fwy effeithlon. Ailedrych ar strwythurau rhai gwasanaethau sydd yn golygu gwneud pethau yn fwy effeithlon.	£0.3M
11	Lleihau adnoddau gan fod y galw a'r gofyn bellach wedi newid. Mae'r galw ar rai gwasanaethau wedi newid dros y blynyddoedd, ac felly awgrymir lleihau cyllidebau i gyd-fynd â'r galw.	£0.2M

12	Peidio rhoi chwyddiant ar gyllidebau. Fe fydd y gyllideb yn parhau i gael ei ddyrannu, ond ni fydd yn derbyn chwyddiant. Cyllidebau yma yn tanwario yn hanesyddol.	£0.3M
13	Arbediad o ganlyniad i broses gaffael e.e. canlyniad tendr diweddar yn rhatach na'r hen gytundeb.	£0.4M
	Cyfanswm	£6.4M

17. O ystyried ein bod yn wynebu bwlch o £12.4M dros y ddwy flynedd nesaf, ac yn dilyn sefydlu faint o'r bwlch hwn sy'n rhesymol tybio y gallwn ei gyfarch mewn ffyrdd heblaw cyflawni arbedion, gallwn gasglu na fydd y wedd gyntaf yma o arbedion (£6.4M) yn ddigonol i gyfarch yr angen a byddwn angen ail ymweld â gweddill y cynigion a gyflwynwyd gan yr adrannau dros y misoedd nesaf.
18. Ar sail ein rhagdybiaethau ariannol heddiw, mae'n debygol y byddwn yn chwilio am gyfanswm o rhwng £8M ac £8.6M tuag at ein bwlch ariannol o £12.4M. Golyga hyn y byddwn angen darganfod rhwng £1.6M a £2.2M o arbedion ychwanegol i'r rhai a restrir yn Atodiad A cyn i ni osod cyllideb 2024/25. Mae'n debygol y bydd hynny yn ein gwthio i diriogaeth toriadau yn hytrach na'r arbedion effeithlonrwydd sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn, a bydd angen mwy o gymorth gan y Pwyllgorau Craffu unigol wrth i ni wynebu'r her anoddach hwnnw.
19. Fodd bynnag, cyn dod i unrhyw gasgliadau ar yr arbedion ychwanegol ar gyfer 2024/25 bydd gennym amser i gynnal ymarferiad blaenoriaethu cyflawn gyda holl Aelodau'r Cyngor a bwriedir cwblhau'r ymarferiad hwn dros y misoedd nesaf. Yn dilyn hynny bydd adroddiad pellach ar gasgliadau'r trafodaethau hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.
20. Fel y bu i mi grybwyll uchod, cyfnod byr iawn oedd ar gael i gyflawni'r cynllun arbedion hwn a bu'n rhaid cywasgu proses aml gam i gyfnod eithriadol o fyr. Rhaid bod yn effro felly i'r ffaith nad oedd amser i ymchwilio i bob cynllun yn drwyadl nac i greu achosion busnes manwl ar eu cyfer. Mae'r Penaethiaid Adran wedi cyflyno'r cynigion gorau oedd posib iddynt eu llunio mewn cyfnod mor fyr ac mae nifer fawr o staff wedi rhoi ymdrech sylweddol i geisio sicrhau fod y cynigion oedd gerbron yr Aelodau yn y gweithdai yn rhai ymarferol a hyfyw.
21. Fodd bynnag, nid yw'n synhwyrol tybio y bydd pob cynllun yn bosib i'w wireddu unwaith y byddwn yn symud ymlaen gyda'r camau gweithredu. Gwyddom hefyd o brofiad y gorffennol y bydd yr arbedion ariannol mewn rhai achosion yn llai na'r hyn y gallwn eu proffwydo ar hyn o bryd.
22. Felly, er mwyn cynllunio'n ddarbodus mae angen i ni gynnwys rhagdybiaeth risg rhesymol yn y Cynllun Arbedion hwn ac felly argymhellaf ein bod yn rhoi £1.6M o'r cyfanswm o £8M-£8.6M y byddwn angen ei ganfod fel swm i'w ddynodi "dan risg".

23. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Paratowyd y cynllun o fewn egwyddorion y Ddeddf.
24. Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Y Deddf") (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.
25. Cloriannwyd yr oblygiadau ac ardrawiadau yn unol a'r dyletswydd dan y Deddf wrth ddatblygu a blaenoriaethu y cynigion. Mae Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi ar gyfer y Gyllideb sydd yn cloriannu ardrawiad yr arbedion a argymhellir ac mae wedi ei atodi yn Atodiad 8 o'r adroddiad Cyllideb 2023/24. Mae natur yr ardrawiadau a nodir yn gymharol isel. Cydnabyddir fod rhai cynlluniau yn golygu camau gweithredu pellach fydd yn destun unai asesiadau penodol ynglŷn a'r modd gweithredu. Mae'n fwriad fod yr agweddau yma yn cael eu cadw dan adolygiad cyson wrth symud i wireddu'r cynlluniau penodol.

Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Mae'r cynlluniau arbedion arfaethedig yma wedi bod yn destun proses gloriannu manwl. Fel y nodir mae natur y cynlluniau yn cynrychioli arbedion effeithlonrwydd sydd arwain at leihau yr ardrawiad posib. Mae rhai yn ddarostyngedig i ddilyn prosesau cyfreithiol neu asesiadau pellach a cydnabyddir hyn yn y trefniadau risg. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhellion. Mae penderfynu ar y cynllun arbedion yma yn caniatáu i'r Cabinet argymhell y Gyllideb i'r Cyngor Llawn.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agos gydag awdur yr adroddiad, a gallaf gadarnhau gywirdeb y ffigyrau sydd wedi ei gynnwys ynddo. Mae gwireddu arbedion o'r gwerthoedd a nodir yn hanfodol er mwyn ein galluogi i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24. Gallaf gadarnhau hefyd bydd disgwyl i ysgolion wireddu arbedion, sy'n ychwanegol i'r cynlluniau a nodir yn yr adroddiad yma.

Atodiadau

Atodiad A: Cynigion Arbedion 2023/24

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Addysg

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£17,590	Lleihau cyllideb ar gyfer systemau data yn dilyn cynnal proses gaffael diweddar
£8,920	Lleihau cyllideb di angen ar gyfer argraffu
£28,185	Rhannu cost swyddog ansawdd Ôl-16 (40%) gyda Chyngor Môn
£1,000	Lleihau swm dros ben yn y gyllideb Costau Clercod Achlysurol
£62,060	Arbedion a ddarganfuwyd pan sefydlwyd yr Uned Gefnogi Addysg a'r Swyddfeydd Ardal
£204,210	Toriad ar nifer o gyllidebau amrywiol (gweinyddol/cefnogol eu natur) sy'n tanwario yn hanesyddol
£6,540	Darparu swyddfeydd i staff leuenctid o fewn swyddfeydd y Cyngor.
£25,865	Lleihau cyllideb Datblygiadau yr Adran i gyd-fynd â'r gwariant
£21,900	Lleihau'r adnodd gweinyddol yn y Tîm gweinyddol ADYaCh
£114,690	Gwneud defnydd o ffynhonnell ariannol allanol i Ariannu darpariaeth Feithrin gyda dim newid yn y gwasanaeth.
£50,000	Lleihau'r gyllideb all-sirol i gyd-fynd â'r gwir wariant
£6,000	Torri cyllid Hyfforddiant y tîm Cynhwysiad
£30,711	Dileu swydd yn dilyn lleihad yn y llwyth gwaith yn sgil newid deddfwriaethol
£10,000	Lleihau'r gyllideb cyfraniad i CAMHS i gyd-fynd â'r gwir gost
£28,650	Defnyddio ffynhonnell ariannu gwahanol ar gyfer y Gwasanaeth Cerdd heb gwtogi ar y gwasanaeth.
£35,710	Dileu swydd wag Cymhorthydd Personol i'r Pennaeth Addysg
£47,609	Lleihau'r adnodd yn yr uned Moderneiddio
£93,000	Lleihau cyllidebau costau teithio i gyd-fynd â'r gwir gost yn dilyn Covid
£14,283	Lleihau'r gyllideb Cydlynedd Blynnyddoedd Cynnar i gwrdd â'r gwir gost.
£9,425	Cwtogi Cytundeb Glanhau Canolfannau leuenctid
£57,043	Peidio penodi i swydd wag swyddog Datrys Anghydfod a chyflawni'r gwaith mewn ffordd amgen

£73,515	Ailstrwythuro Tîm Rheoli Addysg
£946,906	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Amgylchedd

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£1,470	Ail leoli storfa ac arbed talu rhent
£4,370	Hysbysebu marchnadoedd a ffeiriau mewn ffordd ratach
£62,500	Busnes Gweinyddiaeth - Lleihau'r Gyllideb Adrannol ar gael ar gyfer argraffu/cyflenwadau
£50,000	Gwasanaeth Gwastraff - Rhesymoli trefniadau dosbarthu cynhwysion
£11,610	Rheolaeth Adeiladu: Lleihau cyllideb ar gyfer ffioedd proffesiynol
£30,000	Lleihau/ Rhesymoli nifer cerbydau pwl [3 cerbyd]
£30,000	Gwasanaeth Gwastraff – Cwtogi cyllideb cynnal a chadw i gwrdd â'r gwir gost
£70,000	Gwella effeithlonrwydd y defnydd o safleoedd trin/trosglwyddo gwastraff
£12,810	GYC Bwyd a Diogelwch - dod a threfniadau ffurfiol "ar alwad" i ben
£80,000	Parcio a Gwaith Stryd - Cynyddu Incwm Gwaith Stryd
£30,000	Gwasanaethau Gwastraff – Gwell rheolaeth ar ddyledion gan gwsmeriaid masnachol
£20,000	Adran- Lleihau'r gyllideb Adrannol ar gael ar gyfer hyfforddiant
£5,000	GYC Llygredd a Thrwyddedu - dod a threfniadau ffurfiol "ar alwad" i ben
£1,180	GYC Bwyd a Diogelwch - dod a threfniadau ffurfiol "ar alwad" i ben a pheidio talu costau llinell ffôn
£8,220	Safonau Masnach - dod a threfniadau ffurfiol "ar alwad" i ben
£35,510	GYC Llygredd a Thrwyddedu - Cynyddu Ffioedd
£150,000	Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol
£18,498	Trefniadau mwy effeithlon ar gyfer diogelwch y ffyrdd.
£40,000	Gwasanaethau Gwastraff - Marchnata Gwasanaethau Masnachol - cynyddu incwm
£150,000	Gwasanaeth Gwastraff - Cynyddu incwm o werthiant deunyddiau ailgylchu, yn enwedig wrth i wastraff masnachol gael ei gasglu ar wahân o 2023/24.
£2,887	GYC Bwyd a Diogelwch - Cynyddu ffioedd presennol
£400,000	Gwasanaethau Gwastraff - Adolygu Cytundebau Gwastraff

£26,000	Parcio a Gwaith Stryd - Ail edrych ar ffioedd parcio Pen y Gwryd
£50,000	Caniatáu i rhai mathau o gwmnïau masnachol ddefnyddio'r canolfannau ailgylchu
£17,000	Cynyddu pris Tocyn Parcio Blyneddol meysydd parcio o £5 y flwyddyn (+7%)
£25,000	Parcio a Gwaith Stryd - Peidio rhoi Chwyddiant ar y gyllideb Cynnal a Chadw Meysydd Parcio gan ei bo dyn tanwario yn hanesyddol.
£1,332,055	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£7,560	Tîm Democratiaeth - Lleihau cyllideb argraffu adroddiadau pwyllgor (gadael swm ar gyfer copïau hanfodol yn unig)
£8,000	Ymchwil, Iechyd a Diogelwch - Cynyddu Incwm am waith allanol
£8,271	Gweinyddiaeth Adnoddau Dynol - Cywiro'r gyllideb yn dilyn lleihad yn yr adnodd staffio gan fod tasgau gweinyddol wedi dod i ben dros y cyfnod COVID
£25,506	Gweinyddiaeth Adnoddau Dynol - Lleihau adnodd staffio yn sgil datblygiad modiwlau TG yn Hunan Wasanaeth Staff i gyfarch y newid yn y ffordd o weithio
£6,000	Dysgu a Datblygu'r Sefydliad - Lleihau'r gyllideb staffio i gyd-fynd â'r gwir gost.
£27,330	Traws wasanaeth - Lleihau cyllideb diangen ar gyfer meddalwedd TG
£33,398	Gweinyddiaeth Adnoddau Dynol - Datblygiad y modiwl Recriwtio a Penodi yn galluogi peidio penodi i swydd wag pan fydd aelod o staff yn ymddeol yn Medi 2023
£9,219	Cyfieithu - Cynyddu'r ffioedd a godir am waith cyfieithu
£103,091	Traws wasanaeth - Lleihau cyllidebau cyffredinol (e.e. dodrefn, offer swyddfa, argraffu, costau teithio)
£28,500	Uned Rheoli - Lleihau Cyllideb Hyfforddiant Canolog
£22,350	Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Diddymu swydd wag ac ailraddio un swydd i gyfarch elfennau o'r gwaith
£11,680	Democratiaeth (Aelodau) - Lleihau cyllidebau i gyd-fynd â'r gwir wariant
£30,000	Lleihau'r gyllideb costau teithio Aelodau i gyd-fynd â'r gwir wariant.
£320,905	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Economi a Chymuned

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£9,360	Morwrol - Diddymu Cyllidebau di bennawd
£3,000	Marchnata a Digwyddiadau - Cynyddu incwm hysbysebu ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr
£20,000	Morwrol - Lleihau cyfraniad blynyddol i gronfa adnewyddu cychod gan fod y cyfraniad presennol yn uwch na'r angen.
£4,600	Rhaglenni Datblygu Economaidd - Lleihau cyllideb costau offer a nwyddau
£11,000	Hafan - Cynyddu targed incwm tanwydd
£27,616	Hafan - Arbediad ar gyllidebau hanesyddol sydd tu hwnt i'r angen heddiw
£17,233	Rheolaeth - Lleihau'r gyllideb staffio i gyd-fynd â'r gwir gost.
£8,460	Morwrol -lleihau cyllideb traethau gan fod y costau/gwariant wedi lleihau
£3,620	Cefnogi Cymunedau -lleihau cyllideb gan fod y costau/gwariant wedi lleihau
£11,744	Rhaglenni Datblygu Economaidd - Cwtogi cyllideb un swydd i gyd-fynd â'r gwir oriau gweithio
£29,568	Morwrol - Cynyddu ffioedd ar gyfer Cofrestru Cwch Pŵer, Cofrestru Jet Ski, Lansio Jet Ski a Ffioedd Lawnsio
£12,985	Llyfrgelloedd - lleihau oriau gofalu am adeiladau
£31,290	Llyfrgelloedd - gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth cludo
£8,000	Llyfrgelloedd - Peidio llenwi swydd wag rhan amser
£53,976	Rhaglenni Datblygu Economaidd - Diddymu swydd wag 'Rheolwr Cefnogi Busnes'
£14,860	Hafan - ail strwythuro'r adnodd staffio
£11,109	Llyfrgelloedd - Lleihau'r adnodd dosbarthu i gyd-fynd â'r galw
£4,894	Llyfrgelloedd - Peidio adnewyddu 'Find my past' a pharhau gydag adnodd amgen
£12,900	Trosglwyddo Parc Coed Helen i Gyngor Tref Caernarfon
£10,000	Mewnoli trefniadau archwilio adeilad

£5,000	Arbediad Costau Archwilio
£30,000	Arbediad TAW
£1,600	Trosglwyddo system amseru Byw'n Iach Bangor
£9,090	Arbediad Rent Plas Llanwnda wrth adleoli i Ganolfan Hamdden Arfon
£9,530	Trosglwyddo dau gae pêl droed i ofal y gymuned yn sgil trafodaethau cychwynol cadarnhaol.
£361,435	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Gyllid

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£21,000	Cyflogau - Cynyddu targed incwm gweinyddu cynlluniau aberthu cyflog
£10,750	Cyfrifeg - Cyfraniad ychwanegol o'r Gronfa Bensiwn
£100,000	TG - Rhesymoli trwyddedau Microsoft drwy broffilio anghenion pob defnyddiwr
£102,070	Adrannol - Cynyddu targedau incwm i fod yn gymesur â'r gwaith
£9,068	Uned Rheoli - Lleihau oriau un swydd gefnogol
£35,000	TG - incwm trwy rannu canolfan ddata gyda chorff arall
£12,650	Archwilio Mewnol - Lleihau cyllidebau hanesyddol amrywiol
£125,630	Adrannol - Lleihau Cyllidebau cefnogol/gweinyddol eu natur
£14,110	Ailstrwythuro yn yr uned Incwm
£71,500	Ail strwythuro y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth
£501,778	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£7,100	Uned Gofal Cwsmer: Mân gyllidebau - teithio, argraffu ayyb. Gweithio mewn ffordd wahanol.
£2,110	Uned Rheolaeth Busnes: Mân gyllidebau - teithio, argraffu ayyb. Gweithio mewn ffordd wahanol.
£10,000	Trawsfurfio: Lleihau cyllideb yr Adran ar gyfer gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyllideb yn uwch na'r angen ar hyn o bryd.
£12,860	Uned Systemau a Data: Mân gyllidebau - teithio, argraffu ayyb. Gweithio mewn ffordd wahanol.
£408,139	Uchafu'r defnydd o leoliadau gofal o fewn Gwynedd a lleihau'r defnydd o leoliadau all-sirol Sicrhau cyfraniad teg asiantaethau allanol at ofal iechyd parhaus
£9,000	Uned Rheoli Asedau Cleientau: Codi ffi rheoli eiddo yn unol a cyfarwyddyd ymarfer y Llys Gwarchod
£25,375	Gwneud defnydd o gynllun ad-dalu cenedlaethol i gyllido 25% o gostau cefnogaeth yn y maes camdefnyddio sylweddu
£669,777	Hyrwyddo opsiynau amgen yn y gwasanaeth Gofal Cartref gan gynnwys hwyluso taliadau uniongyrchol a'r defnydd o dechnoleg/offer newydd.
£20,000	Cyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy wneud gwell defnydd o offer/technoleg mewn llety cefnogol i unigolion ag anableddau corfforol.
£20,240	Iechyd Meddwl, Diogelu a Sicrwydd Ansawdd: Cyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy wneud gwell defnydd o offer/technoleg mewn llety cefnogol
£95,000	a)Uchafu'r defnydd o leoliadau llety a chefnogaeth o fewn Gwynedd a lleihau'r defnydd o leoliadau all-sirol b) Ail asesu lleoliadau preswyl efo'r bwriad o hybu annibyniaeth
£36,170	Uned Datblygu Gweithlu (Hyfforddiant): Defnyddio arian grant i ariannu gwaith craidd a pheidio a penodi i swydd wag.
£50,080	Uned Comisiynu a Chontractau (Rheolaeth Categori): Lleihau'r gyllideb teithio, a defnyddio grant i ariannu un swydd
£1,365,851	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£15,932	Arbedion Effeithlonrwydd ar draws y Gwasanaeth Cyfiawnder heb leihau'r gwasanaeth
£13,550	Arbediad oherwydd fod y cynllun Cynnal eisoes wedi dod i ben
£18,730	Cywiro lefel y gyllideb datblygu gofalwyr plant i gyd-fynd â'r gwir gost.
£3,762	Defnyddio arian grant tuag at gost cyllido'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
£150,000	Lleoliadau Plant - Sefydlu Tai Grŵp Bychain ein hunain
£201,974	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£30,000	Darparu rhaglen rheoli chwyn yn fewnol
£60,000	Gwella effeithlonrwydd/rhesymoli safleoedd depos priffyrdd
£49,060	Cynyddu incwm drwy gynnig cefnogaeth dechnegol, wyddonol a pheirianyddol i gynlluniau lliniaru risg llifogydd i Gynghorau ledled Cymru
£10,000	Atal gwaith archwilio lampau stryd dros yr haf
£36,880	Cynyddu adnoddau o fewn Unedau YGC sy'n galluogi'r Gwasanaeth i gynyddu incwm, fydd hefyd yn edrych ar gyflwyno camau effeithlonrwydd o fewn rhai unedau
£200,000	Darparu canran o waith rheolaeth traffig yn fewnol gan ein gweithlu ein hunain
£10,000	Codi cyfraniadau gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng i adlewyrchu'r gwir gost
£120,000	Creu Gwasanaeth Edrychiad Stryd o'r newydd a sicrhau effeithlonrwydd yn yr un modd
£90,000	Codi ffioedd YGC yn y maes gwaith ymgynghorol peirianeg sifil
£605,940	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Tai ac Eiddo

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£59,000	Gosod gofod swyddfa ychwanegol yn adeiladau'r Cyngor i ddod ag incwm rhent i ni
£54,000	Mewnoli mwy o waith technegol ar gynlluniau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
£6,845	Cynyddu'r targed incwm am reoli Unedau Diwydiannol (Gwasanaeth Stadau)
£8,110	Creu incwm o waith rheoli prosiectau adeiladu bychan
£95,500	Lleihau ein gofod swyddfa yn sgil dulliau newydd o weithio
£106,820	Defnyddio ffynonellau cyllido amgen i ariannu gwaith dwy swydd (Rheolwr Prosiect Cynllun Gweithredu Tai a Swyddog Grantiau a Phrosiectau)
£40,000	Arbedion nwy wrth reoli effeithlonrwydd systemau gwresogi yn ganolog
£7,690	Adolygu ffioedd am wasanaeth Difa Pla gan barhau yn rhatach na chwmnïau preifat
£250,000	Peidio rhoi chwyddiant ar gyllidebau cynnal a chadw adeiladau gan fod tanwariant hanesyddol, contractau yn rhedeg dros gyfnod o rhai blynyddoedd a grantiau yn ein cyrraedd yn flynyddol.
£627,965	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol a gwasanaethau Cyfreithiol

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£18,940	Lleihau cyllidebau teithio a chyllidebau eraill gweinyddol eu natur
£12,080	Lleihau amryw gyllidebau sydd yn tanwario yn gyson - Cefnogi Busnes
£44,190	Lleihau cyllideb oedd wedi ei hymrwymo i gefnogi Cynllun y Cyngor yn hanesyddol
£1,900	Swyddog Monitro – arbedion
£11,785	Cofrestru Etholiadau - Lleihau Elfennau Cyllideb Cofrestru
£13,590	Tîm Cyfreithiol - Dileu swydd wag Tîm Gweinyddol Tîm Cyfreithiol
£28,710	Tîm Cyfreithiol - Cynaeafu arbedion staffio
£131,195	CYFANSWM

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	9 CHWEFROR 2023
TEITL:	CYLLIDEB 2023/24
PWRPAS:	Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
GWEITHREDIAD:	Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2023/24 i'r Cyngor llawn
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD IOAN THOMAS
SWYDDOG CYSWLLT:	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID

1. Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2023/24 (gweler y penderfyniad a geisir ar flaen yr adroddiad Cabinet atodol).
2. Bydd y gyllideb yn cynnwys rhaglen o gynlluniau arbedion cyflwynir yn Atodiad 3, ynghyd â 'bidiau' ychwanegir at y gyllideb sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.
3. Rhoddir ystyriaeth i nifer o'r risgiau ariannol a'r camau perthnasol i sicrhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol, yn Atodiad 10.
4. Bydd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth i'r adroddiad ar 14 Chwefror, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.
5. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.
6. Nid rôl y Pwyllgor yw mynegi barn ar yr hyn dylai maint yr arbedion neu lefel y Dreth Cyngor fod, ond i sicrhau fod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

7. Yn gryno, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad yma a'i atodiadau, yn ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud argymhelliad ar gyllideb arfaethedig, ac i'r Cyngor ddod i benderfyniad ar sail yr wybodaeth fydd yn cael ei gyflwyno iddynt.
8. Er enghraifft
- Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod y ffigyrau chwyddiant sydd wedi eu defnyddio yn rhesymol?
 - Oes cyfiawnhad i'r bidiau yr argymhellir eu cymeradwyo?
 - A yw unrhyw ddefnydd o falensau a chronfeydd yn rhesymol?
 - Oes modd cael sicrwydd fod yr arbedion a gynhigir yn rhesymol a chyraeddadwy?
 - Ydi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn addas?
 - Ydi'r adroddiad yn glir am oblygiadau y penderfyniad a geisir?
 - Ydi'r risgiau yn eglur?

Atodiad:

Cyllideb 2023/24 (adroddiad Cabinet 14/02/2023)

Cyfarfod: Cabinet

Dyddiad: 14 Chwefror 2023

Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid

Pwnc: Cyllideb 2023/24

Swyddog Cyswilt: Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

CYLLIDEB 2023/24

Y Penderfyniad a geisir

Argymhell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2023) y dylid:

- Sefydlu cyllideb o £317,880,310 ar gyfer 2023/24 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £227,842,930 a £90,037,380 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynydd o 4.95% ar dreth anheddau unigol).**
 - Sefydlu rhaglen gyfalaf o £67,780,150 yn 2023/24 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**
-

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.
- 1.2 Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu heriau ariannol, yn arbennig yng nghyd-destun chwyddiant cyffredinol wedi cyrraedd lefelau yn 2022/23 nas gwelwyd ei debyg ers degawdau, ac mae effaith hynny wedi gweithio ei ffordd drwodd i gyllideb 2023/24.
- 1.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant ar gyfer 2023/24 sy'n welliant sylweddol ar y setliad dangosol ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2021, oedd yn rhagweld cynnydd o 3.5% ar gyfartaledd ar draws Cymru. Mae'r Cyngor wedi derbyn cynnydd grant o 7.0%, sy'n cyfateb i gynydd gwerth £14.6m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â hynny, mae £177k ychwanegol wedi ei gynnwys i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad (materion oedd wedi'u ariannu'n flaenorol drwy grantiau penodol).
- 1.4 Erbyn 2023/24, byddai angen cynyddu ein gwariant o £27.8m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £2.75m i gwrdd â

phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2), ac hyn yn ychwanegol i'r £3.0m o gyllideb sydd i'w glustnodi i'r maes digartrefedd – mae'r Cyngor llawn eisoes wedi penderfynu ar 1 Rhagfyr 2022 i gynyddu'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi i 150% er mwyn ariannu'r cynnydd yma.

- 1.5 Gwelir yn yr adroddiad hwn fod pwysau galw ar wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn dangos fod rhaid ystyried cyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a chyflwyno rhaglen newydd o arbedion a thoriadau os am osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24. Mae cyllideb 2023/24 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymhell cynnydd 4.95% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Hyd yn oed wedyn byddwn angen chwilio am arbedion o £6.4m i osod cyllideb gytbwys, ac mae rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.
- 1.6 Mae cynlluniau arbedion a thoriadau yn destun adroddiad ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.
- 1.7 Mae'r arbedion sydd wedi cael eu hadnabod wedi bod yn destun ymgynghori gydag aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y pwyllgorau craffu ac arweinyddion y grwpiau gwrthblaid mewn cyfres o weithdai yn Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023. Mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei hystyried gan mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio sefyllfa ariannol a gynhaliwyd ar 26 o Ionawr 2023, a wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Chwefror. Swyddogaeth y Cabinet yw argymhell cyllideb cytbwys a phriodol i gyfarfod y Cyngor ar 2 Mawrth ar gyfer 2023/24.
- 1.8 Wrth osod cyllideb 2022/23 roedd modd diddymu neu oedi y mwyafrif o gynlluniau arbedion oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn. Mae cyllideb 2023/24 yn cynnwys cyfransylweddol o'r arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, sydd â gwerth o £0.95m.
- 1.9 Eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £67.8m yn 2023/24, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.
- 1.10 Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2023/24 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2023/24, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2022/23.

2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2023/24. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod.

Grant Cynnal Refeniw 2022/23 – 2023/24	Cyfanswm Awdurdodau Cymru £	Cyngor Gwynedd £
Grant y Llywodraeth 2022/23	5,110,643,128	213,016,800
Grant y Llywodraeth 2023/24	5,513,888,400	227,842,926
	Cynnydd £	403,245,272
	Cynnydd %	7.9%
		14,826,126
		7.0%

Ni fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei setliad terfynol tan 1 Mawrth 2023. Mae manylion pellach am y setliad dros dro ar gael yma –

Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU

2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £14.8m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2022/23 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n gynnydd o 7.0%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 7.9%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawlwr cymorth incwm. Eleni, bu dipyn mwy o gynnydd yn y niferoedd hyn mewn awdurdodau eraill. Yn benodol, nodir fod effaith Cyfrifiad 2021 – sy'n dangos gostyngiad ym mhoblogaeth Gwynedd – yn dechrau cael effaith ar y setliad. Ni fydd yr effaith llawn yn cael ei weld am ychydig flynyddoedd eto.

2.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 1 Mawrth, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, a bydd dadl perthnasol yn y Senedd ar 8 Mawrth. Wedi trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ni ddisgwylir newid arwyddocaol o'r ffigyrau grant 'dangosol' yn y setliad drafft.

2.6 Os bydd y ffigwr grant yn newid i fyny neu i lawr ar adeg cyhoeddi'r Setliad Terfynol, mor hwyr yng nghylch gosod y gyllideb a treth 2023/24, byddai'n rhy hwyr i newid ffigyrau'r Dreth Cyngor. Felly, byddwn naill ai'n defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i gysoni gostyngiad mewn cyllid grant, neu'n cyfrannu at falansau cyffredinol i gysoni cynnydd mewn cyllid grant.

3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR – 2023/24

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn “sefyll yn llonydd” yn 2023/24.

Gofynion Gwario Ychwanegol

	£	£
Cyllideb Sylfaenol		295,232,820
Chwyddiant Cyflogau Staff	14,185,140	
Chwyddiant Arall (cyflenwyr)	11,075,410	
Ardollau (Tân, CNC a CBC)	773,650	
Demograffi	261,320	
Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau	5,748,170	
Addasiadau Cyllideb Amrywiol	(872,060)	
Cost Benthycu / Llog ar Falansau	(1,506,900)	
Trosglwyddiad i'r Setliad	176,980	
Addasiadau Incwm Gwasanaethau	400,000	
Darpariaeth Lleiafswm Refeniw	(2,400,000)	
Cyfanswm net yr ychwanegiadau		<u>27,841,710</u>
Cyfanswm gofynion gwario 2023/24 cyn arbedion		<u>323,074,530</u>

3.2 Cyllideb Sylfaenol 2022/23

Er mai £295m yw gwariant net 2022/23, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £501m, oherwydd ein bod yn derbyn lluo o grantiau penodol gwerth £136m, yn codi incwm cyffredinol o £68m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu a defnyddiwyd £2m o reserfau i ariannu bidiau un tro.

3.3 Chwyddiant Cyflogau £14.2m

Daethpwyd i gytundeb ar gyflogau y gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2022 i Mawrth 2023 drwy gytuno cynnydd o £1,925 ar bob pwynt cyflog. Yn unol â'r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill roeddem wedi cyllidebu'n ddarbodus ar gyfer cynnydd o 4%, ond roedd y cytundeb terfynol yn uwch na'r hyn oedd wedi ei gyllidebu amdano. Canlyniad hyn yw fod y chwyddiant cyflogau yng nghyllideb 2023/24 yn cynnwys elfen i gywiro'r bwlch yma yn ogystal ystyried chwyddiant tybiannol 2023/24.

Mae'r gyllideb yma yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2023/24 o 5% ar gyfer yr holl weithlu (athrawon o Medi 2022, gweddill y gweithlu o Ebrill 2022).

3.4 Chwyddiant Arall £11.1m

Mae hwn yn swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau yn ddibynnol ar raddfa chwyddiant meysydd penodol. Mae'r prif feysydd lle gwelir cynnydd yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol £1.5m
- Gofal Di-breswyl:
 - Llety Cefnogol £937k,
 - Gofal Cartref £396k,
 - Gwasanaethau eraill £240k
- Ynni (Trydan) £3.3m
- Tanwydd (Disel a Petrol) £658k
- Cynnydd prisiau eraill:
 - Yswiriant £174k
 - Ail brisio trethi eiddo £155k

3.5 Ardollau £774k

Bydd y lefiâu a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2022/23 a 2023/24:

- | | |
|--|-------|
| • Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | £701k |
| • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £0 |
| • Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) | £7k |
| • Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd | £64k |

3.6 Demograffi £261k

Cyfanswm net sy'n adlewyrchu +£229k oherwydd lleihad net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion a +£32k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Mae'r ffigwr net o +£229k i ysgolion yn ganlyniad i sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£49k, arbennig +£315k a cynradd -£135k.

3.7 Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau £5.75m

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £2.75m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Mae hyn yn ychwanegol i'r £3m o ychwanegiad i'r gyllideb Digartrefedd sy'n cael ei ariannu o'r Premiwm Treth Cyngor, yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022 i gynyddu'r Premiwm.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwarianty flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Oherwydd y pwysau ariannol eleni, mae nifer y bidiau sydd wedi eu cymeradwyo eleni yn sylweddol is nag a fu'n bosib ar gyfer 2022/23.

Mae'r eitemau sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, cyflwynwyd yr holl geisiadau gwariant hyn yn y Seminar Cyllideb a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023.

3.8 Ystyriaethau Eraill (£1.8m)

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys effaith cynnydd mewn derbyniadau llog o (£1.5m) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor, lleihad mewn cyfraniad pensiwn y cyflogwr o (£1.1m) yn sgil yr ail-brisiad tair-blyneddol, ond cynnydd cost o £800k oherwydd addasiad ffioedd a phrisiau ac ystyriaethau cyllidebol eraill.

3.9 Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (£2.4m)

Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP) ac mae'r swm sy'n ddyledus yn cael ei alw'n Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC neu CFR).

Er y sonnir am "ddyled" nid oes dyled allanol o reidrwydd wedi ei gymryd – benthycan fewnol wna Cyngor Gwynedd ers nifer fawr o flynyddoedd erbyn hyn.

Nod cyffredinol Canllaw gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2018 yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthycan gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

Mae Canllaw LIC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol, ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR.

Yn dilyn adolygiad gan ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, fe argymhellwyd addasu'r polisi DLR ar gyfer yr elfen benthyca a gefnogir.

Mae'r polisi cyfredol (a gymeradwywyd ym Mawrth 2022) yn golygu y codir 4% ar y balans sy'n lleihau'n flynyddol a bydd yn cymryd 345 o flynyddoedd i leihau'r balans cyfredol i lai na £100.

Argymhellir defnyddio dull mwy darbodus fydd yn clirio'r ddyled Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn llai o flynyddoedd, ond yn cynnig arbedion am y blynyddoedd cyntaf. Yn benodol, bydd yn golygu fod rhaid i'r Cyngor neilltuo £2.4m yn llai yn 2023/24 nag a fyddai dan y polisi cyfredol.

4. ARBEDION PRESENNOL SYDD WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL

4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £33.5m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.

4.2 Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2022, wrth ystyried adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion, penderfynodd y Cabinet symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol. Roedd yr angen i lithro yn ganlyniad, i raddau helaeth, oherwydd effaith sylweddol y pandemig Covid-19.

4.3 Roedd y cyfanswm yma yn cynnwys arbedion gwerth £950,250 sydd i'w cyflawni yn 2023/24. Mae cyllideb drafft 2023/24 yn ystyried y bydd yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn hon, a bydd cyrhaeddiad yn cael ei adolygu a'i ystyried yn ystod y flwyddyn. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 3.

4.4 Mae'r holl gynlluniau unigol sydd i'w gweithredu gan yr adrannau yn 2023/24 wedi'u rhestru yn Atodiad 3 er gwybodaeth, ac mae'r cyfansymiau adrannol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

Arbedion sydd eisoes wedi eu rhaglennu i leihau bwlch Cyllideb 2023/24	
	£
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	935,250
Adran Economi a Chymuned	15,000
Arbedion Cynlluniedig Presennol 2023/24	950,250

5. BWLCH ARIANNU 2023/24 A'R DRETH CYNGOR

- 5.1 Fe welir o Rhan 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2023/24 yn £323.1m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £227.8m.
- 5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £950,250 o arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

Sefydlu Cyllideb 2023/24	
	£
Cyllideb Sylfaenol 2022/23	295,232,820
Gofynion Gwario Ychwanegol	<u>27,841,710</u>
Gofynion Gwario 2023/24 cyn Arbedion	323,074,530
Llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru	(227,842,930)
Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac arbedion pellach	<u>95,231,600</u>

- 5.3 Golyga hynny fod bwlch gweddilliol o £95.2m sydd angen ei lenwi. Mae adroddiad ar wahân ar raglen cyfarfod y Cabinet sy'n argymhell gweithredu cynlluniau arbed newydd o £3.1m yn 2023/24 gydag arbedion pellach i'w cyflawni yn 2024/25 a 2025/26, ac argymhellir lleihau cyllidebau ysgolion o £1.1m hefyd yn 2023/24, ar ôl ystyried chwyddiant. O ystyried y £0.95m o arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2023/24 yn flaenorol (gweler Rhan 4 uchod), argymhellir fod cyfanswm o £5.2m o arbedion yn cyfrannu i lenwi'r bwlch ariannol.

Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac Arbedion	95,231,600
Llai Arbedion presennol eisoes wedi eu cymeradwyo	(950,250)
Llai Arbedion newydd	(4,243,970)
Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor	<u>90,037,380</u>

- 5.4 Ceir mwy o wybodaeth am yr arbedion yn Atodiad 3.
- 5.5 Argymhellir cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor. Byddai cynyddu'r Dreth ar anheddau unigol o 4.95% yn cynhyrchu £90,037,380 o incwm, a byddai hyn y ddigonol i lenwi'r bwlch.
- 5.6 Bydd hyn yn £8.0m o incwm Treth Cyngor ychwanegol o'i gymharu â chyllideb 2022/23, sy'n gyfuniad o £3m o arian premiwm ychwanegol tuag at y maes digartrefedd a £5m ar gyfer anghenion gwariant cyffwrdd y Cyngor. Mae hynny'n gyfystyr i gynnydd yn

y Dreth Cyngor o £75.59 i eiddo mewn Band D, neu £1.45 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 5.14% ar gyfer 2023/24) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

- 5.7 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.
- 5.8 Pe bai aelodau'r Cyngor awydd cynnydd llai na 4.95% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau, darganfod mwy o arbedion a thoriadau, neu gyfuniad o'r ddau.
- 5.9 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2023/24 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 4.95% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau tra'n gosod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yn y gogledd.

6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2023/24

- 6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2023/24 ac er gwaethaf cynnydd grant sy'n uwch na'r hyn a ddisgwylwyd yn wreiddiol, bydd rhaid parhau i gynaeafu rhai arbedion hanesyddol, cyflwyno arbedion newydd, a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.
- 6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £323.1m, wedi ychwanegu £27.8m, sy'n cynnwys darparu £5.7m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.
- 6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £227.8m a dibynnu ar £5.2m o arbedion (£950k o arbedion hanesyddol sydd eisoes wedi eu rhaglennu a £4.2m o arbedion newydd), bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 4.95% i gynhyrchu £90m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2023/24.

Cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24	
	£
Gofynion Gwario 2023/24 cyn Arbedion	323,074,530
Cyfanswm Arbedion 2023/24	(5,194,220)
Cyllideb 2023/24	<u>317,880,310</u>
I'w ariannu drwy -	
Incwm Grant	227,842,930
Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 4.95%)	<u>90,037,380</u>
Cyllideb 2023/24	<u>317,880,310</u>

- 6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o **£317,880,310**. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

7. CYFALAF

- 7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2023/24. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf bresennol yn Atodiad 4.
- 7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2023/24 i 2025/26, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £67,780,150 yn 2023/24, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.
- 7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2023/24, mae £385k o'r gyllideb yma wedi ei glustnodi ar gyfer y 5 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2b.

8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

- 8.1 Wrth gyhoeddi setliad drafft 2023/24 yn Rhagfyr 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd Awdurdodau Lleol Cymru ar y cyfan yn derbyn +3.0% yn 2024/25. Disgwylir i Cyngor Gwynedd dderbyn llai na chyfartaledd Cymru fel canlyniad i newidiadau poblogaeth a amlygwyd yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021. Er enghraifft, derbyniwyd +7.0% eleni o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o +7.9%.
- 8.2 Yn ogystal â chynlluniau arbed sydd wedi cael eu cyflwyno er mwyn cwrdd â bwlch 2023/24, mae cynigion pellach fydd i'w gweithredu yn 2024/25, gan gynnwys £0.8m o arbedion ysgolion a £2.8m o arbedion ar gyfer gweddill y Cyngor. Bydd y mater o dan adolygiad parhaus yn ystod 2023/24, gan gynnwys asesu cynigion arbed pellach fel bo'r angen.

9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

- 9.1 Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9m. O ystyried y pwysau cynyddol a ddisgwylir ar gyllidebau'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.
- 9.2 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2023/24', yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.
- 9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn cadarnhau fod effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol.
- 9.5 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.
- 9.6 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.
-

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y swyddogion statudol

Swyddog Monitro:

Er mai mater i'r Cyngor llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido, yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2023/24 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

ATODIADAU

- 1 Cyllidebau Arfaethedig
- 2 Crynodeb Bidiau
- 2a Bidiau Refeniw Parhaol
- 2b Bidiau Cyfalaf
- 3 Arbedion
- 4 Cyfalaf
- 5 Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2023/24
- 6 Treth Cyngor
- 7 Balansau
- 8 Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol
- 9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 10 Cadernid yr Amcangyfrifon

CYLLIDBAU ARFAETHDIG 2023/24 FESUL GWASANAETH												
	Cyllideb Sylfaenol 2022/23	Chwyddiant Cyflogau	Chwyddiant Arall	Demograffi	Incwm, Ffioedd a Phrisiau	Trosglwyddiad Setliad	Pwysau ar Wasanaethau	Arbedion Presennol	Arbedion Newydd	Darpariaeth Lleiafswm Refeniw	Addasiadau Amrywiol	Cyllideb Sylfaenol 2023/24
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
ADRANNAU												
Addysg Canolog	18,224	1,199	89	0	0	0	243	0	(835)	0	(820)	18,100
Cyllideb Ysgolion	83,604	4,037	2,547	229	0	0	0	0	(1,147)	0	(1,940)	87,330
Economi a Chymuned	5,909	379	586	0	0	0	(313)	(15)	(311)	0	(1,147)	5,088
Oedolion, Iechyd a Llesiant	61,660	3,058	3,351	0	0	0	1,585	(935)	(173)	0	1,855	70,401
Plant a Chefnogi Theuluoedd	21,344	1,100	552	32	0	0	(251)	0	(44)	0	(384)	22,349
Priffyrdd, Peirianeg a YGC	15,726	1,678	1,156	0	0	177	0	0	(216)	0	(1,475)	17,046
Amgylchedd	16,338	1,077	1,182	0	0	0	(463)	0	(319)	0	(433)	17,382
Tai ac Eiddo	7,889	515	393	0	0	0	2,869	0	(499)	0	(3,030)	8,137
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,148	111	15	0	0	0	0	0	(131)	0	424	2,567
Cefnogaeth Gorfforaethol Cyllid	8,107	466	99	0	81	0	(495)	0	(275)	0	(496)	7,487
	7,479	704	(26)	0	0	0	(149)	0	(294)	0	(60)	7,654
CYFANSWM ADRANNAU	248,428	14,324	9,944	261	81	177	3,026	(950)	(4,244)	0	(7,506)	263,541
Materion Corfforaethol a Chyfalaf	52,181	(139)	1,905		319					(2,400)	5,375	57,241
CYFANSWM GROS	300,609	14,185	11,849	261	400	177	3,026	(950)	(4,244)	(2,400)	(2,131)	320,782
Llai Praesept Cyngorau Cymuned	(2,654)											(2,654)
CYFANSWM GWARIANT GROS	297,955	14,185	11,849	261	400	177	3,026	(950)	(4,244)	(2,400)	(2,131)	318,128
Balansau a Reserfau												
Penodol	(2,722)						2,722				(248)	(248)
CYFANSWM GWARIANT NET =	295,233	14,185	11,849	261	400	177	5,748	(950)	(4,244)	(2,400)	(2,379)	317,880
Ariannwyd Drwy:-												
Grant	213,211											227,843
Treth Cyngor	82,022											90,037
Cyfanswm Incwm	295,233											317,880

ATODIAD 2 - CRYNODEB BIDIAU

	Teitl y Bid	Parhaol (£)	Cyfalaf (£)
Adran Addysg			
Bid 1	Pris Darparu Cinio Ysgolion Cynradd, Dilynol ac Arbennig	285,580	
Cyf 1	Bid System Rheoli Gwybodaeth Addysg		100,000
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant			
Bid 2	Bid Cyflogau Staff (Darparu, Anabledd Dysgu a Iechyd Meddwl)	1,570,720	
Bid 3	Oed Trosglwyddo: Anableddau Dysgu	155,760	
Bid 4	Ffioedd Nyrsio EMI	404,110	
Cyf 2	Uwchraddio system CACI		37,000
Adran Amgylchedd			
Cyf 3	Meddalwedd Pontydd Pwyso newydd		25,000
Adran Economi a Chymuned			
Bid 5	Materion Cyllidol Byw'n Iach - cynyddu swm contract	332,000	
Cyf 4	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)		50,000
Ymgynghoriaeth Gwynedd			
Cyf 5	Cynllun Gerddi'r Traphont, Abermaw		173,000
CYFANSWM		2,748,170	385,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

BIDIAU REFENIW PARHAOL 2023/24

Tud. 95

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm Parhaol a argymhellir (£)
ADDYSG			
Bid 1	Pris Darparu Cinio Ysgolion Cynradd, Dilydol ac Arbennig	<p>Mae costau darparu cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilydol yn cynyddu 15.9% yn 2023/24. Mewn blwyddyn arferol, er mwyn cwrdd â'r costau hynny, byddai angen codi pris cinio o £2.50 i £2.90 (cynydd o 16% = 40c). Gan fod y pris wedi ei rhewi dros y blynyddoedd, a chostau wedi cynyddu, mae hyn yn naturiol wedi creu 'sybsidi', rhwng yr hyn mae rhiant yn ei dalu, a'r hyn mae'n costio i gynhyrchu'r pryd.</p> <p>Erbyn Medi 2023, bydd holl ddisgyblion oed cynradd yn derbyn cinio am ddim, gyda disgyblion cyfnod sylfaen (4 i 7 oed), wedi cychwyn yn 2022/23.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cost yr uned (h.y. pris maent yn talu fesul pryd sydd yn cael ei ddarparu), ar £2.90. Oherwydd y 'sybsidi' a'r chwyddiant sylweddol eleni, nid yw'r £2.90 yr uned yn ddigonol i gyfarch cost i gynhyrchu pryd.</p>	285,580
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Bid 2	Bid Cyflogau Staff (Darparu, Anabledd Dysgu a Iechyd Meddwl)	Mae swydd disgrifiadau holl staff rheng flaen y maes gofal oedolion mewnol wedi cael eu hadolygu a'u hail arfarnu. Mae'r bid felly am y gwahaniaeth rhwng y graddfeydd cyflog cyfredol a'r arfarniad newydd.	1,570,720
Bid 3	Oed Trosglwyddo: Anableddau Dysgu	<p>Bydd nifer o unigolion sydd wedi bod yn derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn troi yn 18 oed ac yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn ystod 2023/24. Mae 10 o'r unigolion yma wedi eu hadnabod yn becynnau gofal lle bydd costau ychwanegol i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu. Yn ogystal, mae 4 unigolyn arall wedi troi yn 18 yn ystod 2022/23 lle mae angen bidio am effaith flwyddyn lawn eu pecynnau gofal. Bydd angen cwrdd ag anghenion yr unigolion a'u gofalwyr yn unol â'r asesiad anghenion, er mwyn cwrdd ag allbynnau llesiant penodol yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p> <p>Pwysleisiwn y bydd nifer uwch o blant yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn ystod y flwyddyn i ddod, ond mae llawer o'r pecynnau gofal yn rhai fydd yr Adran yn eu cyfarch heb adnodd ychwanegol. Mae'r bid ar gyfer yr achosion lle mae costau gofal mwy sylweddol.</p>	155,760

Bid 4	Ffioedd Nyrsio EMI	<p>Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar 28/06/22, penderfynwyd cynyddu ffioedd Preswyl a Nyrsio'r Cyngor ar gyfer 2022/23 er mwyn cefnogi'r farchnad a thalu pris teg am ofal preifat. Ar gyfer lleoliadau Nyrsio EMI, sef gofal nyrsio ar gyfer unigolion sydd yn dioddef o ddementia, penderfynwyd ar ffi o £900 yr wythnos. Roedd y ffi ymysg yr uchaf yng Nghymru ar y pryd, ac mae'n parhau i fod.</p> <p>Serch hynny, mae nifer o'r Darparwyr Nyrsio EMI yng Ngwynedd yn gwrthod derbyn y ffi o £900 yr wythnos, ac yn hawlio ffioedd uwch.</p>	404,110
ECONOMI A CHYMUNED			
Bid 5	Materion Cyllidol Byw'n Iach - cynyddu swm contract	<p>Dyhead Bwrdd Cwmni Byw'n Iach yw cynnal lefelau cyflog sydd yn gymharol â chyflogau staff Cyngor Gwynedd. Bu cynnydd i gyflogau Awdurdodau Lleol eleni, ond 2% oedd codiad cyflog i staff y cwmni oedd eisoes wedi ei gynnwys yng Nghynllun Busnes 2022/23. Mae gwaith cyfrifo yn dangos fod angen codiad cyflog cyfwerth â oddeutu 10.3% erbyn 2023/24, er mwyn cyfarch y blwch a hefyd adeiladu canran isel o chwyddiant ar gyfer codiadau tebygol i'r gweithlu sector cyhoeddus yn 2023/24.</p> <p>Yn hanesyddol, mae'r cwmni wedi defnyddio cynnydd ffioedd i gyfarch costau chwyddiant a chreu cyllideb gytbwys. Yn fras, mae 1% o chwyddiant costau wedi cael ei gydbwysu gan 1% o gynnydd mewn ffioedd. Mae'r bid hefyd yn cyfarch yr hyn a ragwelir ar gyfer 2023/24 o ran CPI. Mae'r cynnydd yma yn ei hun yn golygu codi ffioedd oddeutu 3.5%. Yn sgîl yr argyfwng costau byw, mae risg sylweddol o golli cwsmeriaid pe byddai'r cwmni'n codi ffioedd 13.8% i gwsmeriaid. Y ffigwr sydd wedi'i ddefnyddio i bwrpas y bid yma yw cynnydd o 6% mewn ffioedd i gwsmeriaid.</p>	332,000
CYFANSWM BIDIAU PARHAOL REFENIW			2,748,170

ATODIAD 2b - BIDIAU CYFALAF

BIDIAU CYFALAF 2023/24 - I'W ARIANNU O'R GYLLIDEB O FEWN Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU

Tud. 97

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a argymhellir (£)
ADDYSG			
Cyf 1	Bid System Rheoli Gwybodaeth Addysg	Bid ar gyfer cyflwyno System Rheoli Gwybodaeth Addysg newydd (cwmni Access UK).	100,000
OEDOLION, IECHYD A LLESIAINT			
Cyf 2	Uwchraddio system CACI	Caiff y system CACI ei ddefnyddio i reoli gwaith y gwasanaeth Gofal Cartref Mewnol y Cyngor. Mae'r gweithwyr Gofal Cartref yn defnyddio'r system er mwyn adnabod eu tasgau, cofnodi gwaith, cofnodi'r gofal a ddarparwyd a.y.y.b. Mae gweinyddwr y system CACI yn defnyddio "Windows Servers 2012", mae cefnogaeth y fersiwn yma yn dod i ben yn ystod 2023. Felly, bydd angen uwchraddio'r gweinyddwr. Sydd hefyd yn golygu'r angen i uwchraddio'r system CACI gan nad yw'r fersiwn bresennol yn cael ei gefnogi ar "Windows Server 2019".	37,000
AMGYLCHEDD			
Cyf 3	Meddalwedd Pontydd Pwysu newydd	Mae'r system meddalwedd pontydd pwysu presennol sydd ar waith yn safleoedd Gwasanaeth Trin Gwastraff Ffridd Rasmus, Harlech, Caergyfchu, Caernarfon a Choed Ffridd Arw Dolgellau wedi bod yn weithredol ers tua 15 mlynedd ac erbyn hyn nid yw'n cael ei gefnogi'n llawn gan berchnogion/awduron y meddalwedd, Precia Molen. Ni fydd unrhyw newidiadau 'isadeiledd' gofynnol yn y dyfodol neu atgyweiriadau sydd eu hangen i god y system feddalwedd yn bosib. Felly mae'n risg i'r Gwasanaeth. Gan y byddai anallu'r system i weithredu'n iawn yn peryglu gallu'r Gwasanaeth i gofnodi symudiadau gwastraff yn ddigonol i adrodd yn gywir i Cyfoeth Naturiol Cymru; drwy adroddiadau gwastraff chwarterol, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac yn unol ag amodau'r trwyddedau amgylcheddol y safleoedd.	25,000
ECONOMI A CHYMUNED			
Cyf 4	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)	Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor drwy'r Gronfa Cefnogi Cymunedau wedi cefnogi sawl cymuned ar draws y sir i ddatblygu cynlluniau sydd wedi ymateb i effeithiau'r cynlluniau arbedion a'r cynllun strategol. Mae cymunedau yn parhau i wynebu heriau wrth adfer yn sgil Covid, yn ogystal ag wynebu heriau newydd drwy geisio ymateb i'r argyfwng tlodi presennol. Bydd y gronfa yma, yn ein galluogi i gynnal ac adeiladu ar y gwydnwch cymunedol sydd wedi amlygu ei hun yn y sir yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r galw gan ein cymunedau am gefnogaeth drwy gronfa Cefnogi Cymunedau (cyfalaf) i ymateb i anghenion yn lleol yn uchel gyda'r arian ar gyfer 2022/23 i gyd wedi ei glustnodi yn y rownd gyntaf.	50,000
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD			
Cyf 5	Cynllun Gerddi'r Traphont, Abermaw	Mae ardal Gerddi'r Traphont, Abermaw yn dioddef o effeithiau llifogydd yn sgil dŵr wyneb ag o'r môr. Mae wal yr harbwr yn yr ardal yma hefyd mewn cyflwr anaddas, amlygwyd hyn wrth i ran o'r wal syrthio yn 2019, gyda gwaith atgyweirio brys angen ei gynnal. Mae Achos Busnes Amlinellol y cynllun Gerddi'r Traphont bellach wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac wedi symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn. Mae amcan bris y gwaith adeiladu yn £4m, bydd y ffigwr terfynol yn cael ei gadarnhau drwy broses dendro. Mae cyfraniad o £312k eisoes wedi ei gymeradwyo drwy'r Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor, gwneir cais am £288k ychwanegol, ac felly cyfanswm arian cyfatebol y Cyngor yn £600k, sef 15% o'r £4m. Gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gweddill. Erbyn hyn mae'r Adran wedi lleihau y cais o £288k i £173k, gan hunan gyllido'r £115k.	173,000
CYFANSWM BIDIAU CYFALAF			385,000

ATODIAD 3

ARBEDION

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £33.5m o gynlluniau arbedion ers 2015/16, ond eto eleni, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu'r adrannau i wireddu nifer o'u cynlluniau.
2. Mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.
3. Mae nifer o gynlluniau arbed sydd yn deillio o'r rhaglenni blaenorol hyn wedi llithro i 2023/24, ac wedi eu hychwanegu i'r cynlluniau oedd eisoes wedi eu rhaglenni i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn hon.
4. Canlyniad hyn yw fod gwerth £950,250 o gynlluniau arbedion oedd eisoes yn bodoli i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2023/24. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol ac eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor, ac felly ddim yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn prosesau statudol priodol, ac fe'i rhestrir isod er gwybodaeth.

Arbediad	Swm £
ADRAN ECONOMI A CHYMUNED	
Gwelliannau yn Neuadd Dwyfor i'w wneud yn fwy effeithlon wrth baratoi ar gyfer y dyfodol	15,000
ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT	
Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn	300,000
Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth	534,000
Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion	101,250
CYFANSWM ARBEDION 2023/24 WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL	950,250

5. Mae adroddiad ar wahân ar raglen y Cabinet yn cynnwys rhestr o arbedion pellach arfaethedig ar gyfer eu gwireddu yn 2023/24, gyda chyfanswm gwerth o **£3,097,370**.
6. Yn ogystal â'r arbedion hyn, mae gofyn i ysgolion gyfrannu at y cynlluniau arbed hefyd. Mae Atodiad 5 yn ymdrin yn benodol â chyllidebau'r ysgolion, ac fe welir yno fod gweithredu arbedion a thoriadau ar yr ysgolion hefyd yn anorfod erbyn 2023/24. Argymhellir gweithredu capio y toriad i uchafswm o 3% ar ysgol prif lif unigol, a pheidio cyflwyno toriadau ar y sector arbennig. Bwriedir gweithredu'r toriad yma dros ddwy flynedd ariannol, sydd yn cyd-fynd efo blwyddyn academiaidd ysgol. Mae cyfanswm y toriad yn £1.966m ac yn rhannu £1.147m (7/12ed) yn 2023/24 ac yna £0.819m (5/12ed) yn 2024/25, fel y gwelir yn y tabl isod:

Ysgolion (Sector)	2023/24 (7/12ed) £	2024/25 (5/12ed) £	Cyfanswm £
Cynradd	541,600	386,900	928,500
Uwchradd	605,000	432,600	1,037,600
Arbennig	0	0	0
Cyfanswm	1,146,600	819,500	1,966,100

7. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi nodi y bydd y cynnydd yn y setliad yn llai ar gyfer 2024/25 (cyfartaledd Cymru yn gynydd o 3%), felly disgwylir y bydd angen paratoi i weithredu'r cynlluniau hynny sydd dan sylw yn yr adroddiad arbedion sydd ar raglen y Cabinet. O wireddu gwerth £6.4m o arbedion a argymhellir, byddant yn dod i rym yn unol â'r proffil isod:

PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2023/24 YMLAEN

	2023/24 £	2024/25 £	2025/26 £	Cyfanswm £
Proffil arbedion (heb ysgolion)	3,097,370	2,848,630	450,000	6,396,000

8. Felly, i grynhoi, argymhellir gweithredu'r arbedion canlynol yng nghyllideb 2023/24:

	£
Arbedion presennol sydd wedi eu cymeradwyo'n flaenorol	950,250
Arbedion newydd (heb gynnwys ysgolion)	3,097,370
Arbedion Ysgolion	1,146,600
CYFANSWM	5,194,220

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2023/24	2024/25	2025/26
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Asedau'r Cyngor :			
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	6,868	2,901	0
Cynlluniau Tai	4,495	1,300	1,300
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes	2,500	0	0
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion	1,787	0	0
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	1,068	2,271	1,700
Atal Llifogydd Arfordirol	1,216	0	0
Cynlluniau Eraill	4,127	1,241	723
Bidiau Cyfalaf	3,063	3,063	500
Cynlluniau Eraill :			
Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor	0	0	2,549
Strategaeth Dai - Prynu i Osod	0	0	2,880
Cynlluniau Eraill Eisoes wedi eu Cymeradwyo :			
Cynlluniau/Strategaeth Tai	17,089	5,442	0
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	9,722	184	0
Cerbydau Adrannol	4,273	3,042	0
Cynlluniau Eiddo	3,007	0	0
Unedau Diwydiannol	2,925	0	0
Atal Llifogydd Arfordirol	1,822	0	0
Eraill	3,818	400	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	67,780	19,844	9,652

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2023/24	2024/25	2025/26
	£'000	£'000	£'000
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,061	4,061	4,061
Benthyca Arall	10,038	3,138	2,880
Grantiau a Chyfraniadau	16,874	5,430	2,549
Derbyniadau Cyfalaf	189	0	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	30	0	0
Cronfa Cyfalaf	13,434	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	23,154	7,215	162
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	67,780	19,844	9,652

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.
5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2023/24 i 2025/26, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2023/24 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £67,780,150 ar gyfer 2023/24, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

ATODIAD 5

YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2023/24

- Cefndir:** Adroddwyd i gyfarfod 6 Chwefror 2023 o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar elfennau perthnasol o gyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2023/24, lle nodwyd y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.
- Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£6.4m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl athrawon, lleihad cyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwr o 1.25%, a lleihad yn cyfraniad pensiwn cyflogwr ar gyfer gweithwyr APTaCh o 1.2%. Bydd hyn yn cyfarch cynnydd costau cyflogau athrawon o 5% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn lawn cytundeb tâl Medi 2022, ac hefyd cost cynnydd pellach o 4% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2023 (am y 7 mis Medi 2023 – Mawrth 2024). Mae cynnydd cyflog staff ategol Ebrill 2022 hefyd wedi'i gynnwys ac amcan pellach o 5% Ebrill 2023. Wrth gwrs, bydd dyraniadau ysgolion am ynni, gan gynnwys 120% am drydan, hefyd yn codi gyda lefel chwyddiant perthnasol.
- Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £573k tuag at gyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24 oherwydd incrementau a lleihad trosiant staff o -£718k.
- Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2022 i gyfrifo dyraniadau 2023/24. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn cynyddu **£229k**, sy'n cynnwys lleihad -£135k i'r sector Gynradd, cynnydd +£49k i'r sector Uwchradd a chynnydd yn y sector Arbennig o +£315k. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau cymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.
- Bidiau Argymhellir Cymeradwyo:** Gweler yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2023/24 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£286k**, er mwyn ariannu cost uwch darparu cinio cynradd/arbennig.

6. **Arbedion a Thoriadau 2023/24 a 2024/25:** Ers i'r Cyngor, ar 5 Mawrth 2015 fel rhan o 'Her Gwynedd', benderfynu ar darged arbedion £4.3m wrth osod cyllideb 2015/16, ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd am unrhyw arbedion newydd ychwanegol. Ers 2015/16, bydd Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £33.5m o gynlluniau arbedion, gyda £4.3m ohono (13% o'r arbedion) wedi'i gynaeafu o'r ysgolion (sy'n cynrychioli 30% o wariant net y Cyngor). Ond erbyn 2023/24 mae'n anorfod bod rhaid gweithredu arbedion a thoriadau ar yr ysgolion. Yr argymhelliad yw i gapio y toriad i uchafswm o 3% ar ysgol prif lif unigol a dim toriad ar y sector arbennig. Hefyd, bydd y toriad yn cael ei weithredu dros ddwy flynedd ariannol, sydd yn cyd-fynd efo blwyddyn academaidd ysgol. Mae cyfanswm y toriad yn £1.966m ac yn rhannu £1.147m (7/12ed) yn 2023/24 ac yna £0.819m (5/12ed) yn 2024/25.

7. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys y bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2023/24 ar lefel tebyg i 2022/23.

8. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn uwch yn 2023/24 o'i gymharu gyda 2022/23.

ATODIAD 6

TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2023/24. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth i adlewyrchu'r bwlch oedd yn bodoli yn sgil setliad grant Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, yn 2019/20 bu'n rhaid cynyddu'r dreth 5.8%, o 3.9% yn 2020/21, o 3.7% yn 2021/22 ac o 2.95% yn 2022/23.
3. Eleni, erbyn 2023/24 argymhellir codi'r dreth 4.95%. Byddai hynny'n cynhyrchu £90m o dreth (o'i gymharu â £82.1m yn 2022/23), sy'n cynnwys £9m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £75.59 i eiddo mewn Band D, neu £1.45 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 5.14% ar gyfer 2023/24) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
4. Mae dros 8,300 o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £857,905. Felly, byddai 3.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £3,002,668 tra byddai 5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £4,289,525.

5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2016/17:

Blwyddyn	Cyngor	
	Gwynedd	Cymru
2022/23	2.95%	2.2%
2021/22	3.7%	3.6%
2020/21	3.9%	4.6%
2019/20	5.8%	6.2%
2018/19	4.8%	4.9%
2017/18	2.8%	3.0%
2016/17	4.0%	3.6%

Yn 2022/23 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,527 tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,433.

Ceir mwy o fanylion yn ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): [Council Tax Levels in Wales, 2022-23 \(llyw.cymru\)](#)

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2023/24, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yw bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 4.95% yn gyson â'r sefyllfa ar draws y gogledd.
7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol mewn fforymau aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 4.95%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.45 neu £75.59 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,602.58 am 2023/24.**

CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

8. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2023/24 ond i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 150%. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £9m o incwm ychwanegol yn 2023/24 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo £6m o'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau, a £3m i'r gyllideb digartrefedd.
9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2023/24.

ATODIAD 7

BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £7.9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.6% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, gyda'r cynnydd parhaus mewn galw am wasanaethau gofal, digartrefedd a gwastraff yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.
4. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 14 Mehefin 2022 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd ar 30 Mehefin 2022, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £746k o gronfeydd i gynorthwyo'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol oedd wedi gorwario yn 2021/22 a throsglwyddo £105k i falansau cyffredinol y Cyngor. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai 2023**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
5. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

*"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, **ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn**. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

6. Ategwyd y neges yma ymhellach gan Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru o ganlyniad i bandemig Covid-19. Tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartil uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

*“(9) fod rhai cyngorau mewn sefyllfa well o lawer na’i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gyngorau”, a (18) **bod “lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnheredd a chynaliadwyedd ariannol”.***

Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:

[Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | Audit Wales](#)

7. Rwy’n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau yn weithred gwbl briodol.
8. Mae balansau’r Cyngor wedi bod yn arf allweddol. Gan bydd y Cyngor â balansau o tua £7.9 miliwn, byddwn wedi cadw’r swmp o’r balansau wrth gefn eto, fel eu bod ar gael i ‘bontio’r’ sefyllfa ariannol os y bydd angen.

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

1) Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae gosod cyllideb flynyddol yn ofyn statudol ar y Cyngor, yn ogystal â bod yn gam allweddol yn y drefn o gynnal stiwardiaeth ariannol dda.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mawrth 2022, wrth ystyried rhagolygon ariannol y Cyngor ar gyfer blynyddoedd 2023/24 a 2024/25 yn syth ar ôl sefydlu Cyllideb 2022/23. Bryd hynny roedd disgwyl y byddai modd gosod cyllidebau cytbwys yn y ddwy flynedd yma heb orfod darganfod arbedion pellach.

Fodd bynnag, mae'r gwaith parhaus o ystyried effaith chwyddiant, setliad tâl 2022/23 ayyb wedi crisialu sefyllfa'r Cyngor o ran adnabod yr hyn fydd effaith y penderfyniadau bydd rhaid eu cymryd wrth sicrhau ein bod yn gosod cyllideb gytbwys.

Mae'r gwaith manwl wedi cychwyn ar 14 Rhagfyr 2022, sef dyddiad cyhoeddi setliad referniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2023 i 2024.

Mae'r setliad dros dro wedi dangos bydd rhaid i'r Cyngor barhau i chwilio am arbedion ariannol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 os ydym am osod cyllideb gytbwys. Mae pob un o'r cynlluniau arbed unigol wedi bod yn destun asesiad effaith cydraddoldeb.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae nifer o gamau gweithredu wedi eu cymryd pan yn paratoi'r gyllideb yma:

- Trafodaethau rhwng cyfrifwyr gwasanaeth ac uwch swyddogion yr adrannau i ystyried bidiau a chynlluniau arbed
- Holl aelodau'r Cyngor wedi cael eu gwahodd i seminar cyllideb ar 26 Ionawr 2023
- Cydweithio agos rhwng y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a swyddogion cyllid wrth ystyried bidiau
- Aelodau'r Cabinet wedi cael cyfle i fynegi barn ar yr asesiad o'r bidiau
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael cyfle i graffu'r gyllideb ar 9 Chwefror
- Y Cabinet i ystyried y gyllideb ddrafft ar 14 Chwefror a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn
- Y Cyngor Llawn i osod y gyllideb ar gyfer 2023/24 a phennu cyfradd Treth Cyngor ar 2 Mawrth

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae'r gyllideb a amlinellir yma yn ceisio parhau i ddarparu deilliannau priodol i holl drigolion y sir. Nid yw'r cynnydd yng ngrant y Llywodraeth eleni yn ddigonol i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, felly er mwyn sefydlu cyllideb gytbwys rhaid chwilio am arbedion ariannol pellach.

Mae pob cynllun arbedion sydd eisoes yn y rhaglen i'w weithredu wedi bod yn destun asesiad ariannol ac asesiad cyfreithiol Effaith Cydraddoldeb ar yr adeg y cafodd ei gyflwyno. Mae cydnabyddiaeth fod posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma.

Gan fod yr angen i gyflwyno cynlluniau arbed wedi dod yn amlwg yn ystod y flwyddyn ariannol, a'r gwir sefyllfa heb ddod yn amlwg tan Rhagfyr 2022, nid oedd amser yn caniatáu proses ymgynghori.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Ni fu proses ymgynghori.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cyllideb 2023/24 wedi ei lunio ar egwyddor "gynyddol". Hynny yw, defnyddir cyllideb 2022/23 fel cyllideb sylfaenol, gan wneud nifer o addasiadau cyn dod at gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24:

- Chwyddiant Cyflogau Staff
- Chwyddiant Arall (cyflenwyr)
- Cynnydd mewn ardollau (Awdurdod Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd)
- Addasiadau i adlewyrchu newidiadau mewn demograffi
- Bidiau ariannol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau
- Addasiadau technegol i'r gyllideb
- Cynnydd neu ostyngiad mewn costau benthyca a llog ar falansau
- Gwireddu arbedion sydd eisoes wedi cael eu cytuno
- Adnabod arbedion pellach sy'n rhaid eu cyflwyno

Mae pob un o'r bidiau ariannol a chynlluniau arbed wedi bod yn destun asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain.

Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.

Yn ogystal â chwrdd â phwysau chwyddiant, mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Anabledd	Positif	Mae'r drefn bidiau sydd wedi ei fanylu yn Atodiad 2 yn cynnwys gwariant ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol, ac yn oedi neu ddileu arbedion yn y maes yma.
Rhyw	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Oedran	Positif	Mae'r gyllideb a argymhellir yn cynnwys cynnydd arwyddocaol yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Ailbennu rhywedd	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.

<p>Yr iaith Gymraeg</p>	<p>Positif</p>	<p>Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys sicrhau fod adnoddau wedi cael eu rhoi yn eu lle i gefnogi gwasanaethau dwyieithog llwyr.</p> <p>Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.</p> <p>Wrth lunio'r gyllideb rhoddwyd sylw penodol i Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y saith nod llesiant. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i'r chweched nod sef 'Diwylliant a'r Gymraeg'.</p>
<p>Anfantais Economaid- Gymdeithasol</p>	<p>Positif</p>	<p>Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn diwallu anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau a argymhellir i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.</p> <p>Mae cyllidebau'r Cyngor, ac yn enwedig y bidiau llwyddiannus, wedi eu llunio i sicrhau fod yr awdurdod yn gallu parhau i gyfeirio adnoddau i leihau gwahaniaethu ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Mae unrhyw gynnydd yn y gyfradd Treth Cyngor yn bwysau ariannol ar bobl Gwynedd, ond mae dros 8,300 yn derbyn peth cymorth tuag at eu Treth Cyngor drwy'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.</p>

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Ni chredir bydd unrhyw effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Positif	Mae'r gwaith o osod y gyllideb yn seiliedig ar waith sylweddol dros nifer o flynyddoedd o sicrhau fod cyllideb yn ei le sydd adlewyrchu anghenion a gofynion pobl Gwynedd
Meithrin perthnasau da	Niwtral	Mae'r gwaith o osod cyllideb yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir, ac mae'r balans o fidiau llwyddiannus ac arbedion yn ymateb i'r gwir bwysau sydd ar wasanaethau.

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae Cynllun newydd ar gyfer 2023-28 yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 2 Mawrth 2023. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.

Eleni, wrth lunio Cyllideb 2023/24, bu'n rhaid i'r Cyngor adnabod cynlluniau arbedion newydd, yn ogystal ag ystyried ymarferoldeb yr arbedion oedd wedi cael eu hadnabod yn flaenorol fel rhai i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23 ac sydd eisoes wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y prosesau statudol yn cynnwys cwblhau asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am effaith ar yr iaith Gymraeg. Wrth drin penderfyniadau am arbedion yn adroddiad Cyllideb 2020/21, casglwyd fod **dim effaith** wedi ei ganfod ar yr iaith Gymraeg ond fod angen cadw golwg wrth weithredu.

Wrth baratoi adroddiadau Cyllideb 2021/2022 a 2022/23 rhoddwyd ystyriaeth ar effaith arfaethedig y cyllidebau hyn ar y Gymraeg. Yn unol â'r arfer cwblhawyd asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae'r drefn yma yn parhau ar gyfer 2023/24.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Polisi ariannol yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith positif ar yr iaith.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Mae'r drefn o sefydlu cyllideb y Cyngor yn ganlyniad i gamau penodol sy'n ystyried cyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol a'r camau sydd angen eu cymryd i wedyn i adlewyrchu addasiadau sydd angen eu hystyried i ymdrin â phwysau ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ychwanegol i hynny mae sefyllfa gyllidebol holl wasanaethau'r Cyngor yn destun adolygiad manwl dair gwaith y flwyddyn, er mwyn adnabod unrhyw feysydd lle mae angen gweithredu i ymdrin â thanwariant neu gorwariant – yn enwedig os nad ydi cyllidebau yn ddigonol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau. Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn lleihau anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Mae angen cyflwyno cynlluniau arbed newydd eleni yn ychwanegol i'r rhai sydd yn bodoli yn y rhaglen ers blynyddoedd blaenorol. Maent oll wedi dod yn destun asesiad fanwl i sicrhau fod anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei leihau.

Mae rhai o'r bidiau yr argymhellir eu hariannu yn cynnwys nifer sydd wedi eu cynllunio yn benodol i leihau anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae rhain wedi eu manylu yn Atodiad 2, ac yn cynnwys bid i gynyddu cyflogau gweithwyr gofal y Cyngor.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Mae'r ceisiadau am wariant ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau ("bidiau") wedi bod yn destun asesiadau manwl gan nifer o swyddogion ac aelodau a felly rydym yn hyderus fod pob cam sy'n ymarferol bosib i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r gyllideb wedi cael eu cymryd.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae unrhyw gynnydd mewn Treth Cyngor am gael effaith ar sefyllfa ariannol pobl Gwynedd, ond argymhellir cynnydd is na chwyddiant eleni, sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau efo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn yn flynyddol ar osod y gyllideb a chyfradd y Dreth.

Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad dair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio tair gwaith y flwyddyn.

ATODIAD 9

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.
2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
 - Edrych i'r tymor hir – Mae'r gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, nid ar gyfer 2023/24 yn unig, ac yn cymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
 - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r Seminar Cyllideb Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
 - Cymryd agwedd integredig – Mae polisiau ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni wedi'u ystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
 - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
 - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu wedi cynnwys ymgysylltu â thriogion, cwsmeriaid a phartneriaid.
3. Prif gasgliadau am gyllideb 2023/24 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
 - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
 - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
 - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
 - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
 - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
 - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwyieithog)
 - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)

4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pryd cymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol. Mae cynlluniau arbed newydd sy'n cael eu cyflwyno yn y gyllideb yma – gan gynnwys rhai yn yr ysgolion – yn arbedion effeithlonrwydd yn bennaf ond yn sicrhau fod modd gosod cyllideb gytbwys sy'n amddiffyn adnoddau i'r dyfodol.
5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

ATODIAD 10

CADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra mae'r atodiad yma'n cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:

4. **Risg Chwyddiant** - Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2022/23, yn sgil cyfnod diweddar o chwyddiant cynyddol, caniatwyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am dâl a phrisiau. Fodd bynnag, roedd disgwyl y byddai'r lefel gymharol uchel gyfredol o chwyddiant ar y pryd yn gostwng yn ystod 2022/23, ond cydnabuwyd y risg y byddai chwyddiant yn codi ymhellach. Wrth osod cyllideb 2022/23, nodwyd fod mwy o ansicrwydd nag arfer ynghylch lefel tebygol ac y gallai cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellid lleddfu hyn drwy ddefnyddio cyllideb wrth gefn fel bo'r angen.

Mewn gwirionedd, gwelwyd chwyddiant cyffredinol yn codi i lefelau nas gwelwyd ers degawdau. Mae'r rhagolygon annibynnol sydd wedi eu derbyn yn dangos fod disgwyliad i gyfraddau chwyddiant ostwng yn ystod 2023/24 ond byddant yn aros yn gymharol uchel yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn adlewyrchu hyn ac rwyf yn fodlon fod amcangyfrifon darbodus o lefelau chwyddiant wedi eu cynnwys.

5. **Risg Cyfraddau Llog** - Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor (mewn eitem ddilynol ar raglen y cyfarfod hwn), nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar ddychweliadau rhy uchel. Yn 2021 roedd cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed, ond maent wedi cynyddu ers hynny. Fodd bynnag, er disgwylir cynnydd bychan pellach yn gynnar yn 2023/24, disgwylir i'r cyfraddau llog ddechrau gostwng yn nes ymlaen yn y flwyddyn wrth i'r economi grebachu a lefelau chwyddiant yn gostwng. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel a byddai'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu a gostwng gyda'r llall.

6. **Risgiau Grantiau Penodol** - Mae risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Rydym wedi derbyn grantiau penodol sylweddol ym maes gofal cymdeithasol yn ystod blynyddoedd ariannol diweddar, ag ymrwymadau cysylltiedig, sy'n gwneud cynllunio cyllidol yn anodd. Yn gyffredinol, bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan ddaw grant i ben, ond mae'n bosib bydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant. Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael am grantiau, ond mae'r cyrrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.
7. **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.

Credaf fod risg uwch na'r arfer yn 2023/24 o safbwynt incwm gan fod nifer o'r cynlluniau arbed arfaethedig ynghlwm â chynyddu incwm.
8. **Risg gyda Covid-19** – Daeth Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru, a fu'n digolledu Cyngor Gwynedd gyda chymorth grant gwerth cyfanswm oddeutu £20m yn 2020/21 a £14.4m yn 2021/22, i ben ar 31 Mawrth 2022. Felly, yng nghyllideb 2022/23 Cyngor Gwynedd, gwnaed darpariaeth parhaol ychwanegol o £1.4m i ddygymod â chostau a colledion o barhad yr argyfwng. Hefyd, mae cronfeydd penodol (y Gronfa Covid, a Chronfa'r Strategaeth Ariannol) wedi cael eu diogelu i fod wrth gefn i gefnogi unrhyw wariant neu golled incwm uwchlaw'r £1.4m yng nghyllideb 2022/23. Yn ystod y flwyddyn, credir fod y gwir wariant fel canlyniad i Covid-19 wedi bod oddeutu £1.9m, a hynny'n bennaf oherwydd pwysau yn y maes digartrefedd. Mae'r swm o £1.4m yn parhau yn y gyllideb ar gyfer 2023/24 ond credaf gellir rhyddhau'r Gronfa Covid mewnol bellach er mwyn ymdrin â phwysau ariannol ar y Cyngor.
9. **Risg ac Arbedion** – Mae cyllideb 2023/24 yn cynnwys £950,250 o arbedion hanesyddol oedd eisoes wedi eu rhaglennu, yn ogystal â £4.2m o arbedion newydd er mwyn gallu gosod cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, mae hanes gan rai o adrannau'r Cyngor o fethu cyflawni eu cynlluniau arbed ac mae hynny'n cyflwyno risg arwyddocaol i gynnaladwyedd ariannol hirdymor. Yn unol â'r drefn arferol, byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darpariaeth o 20% o werth cynlluniau arbed newydd er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae cynlluniau arbed yn llithro.

10. **Costau Diswyddo Staff** - Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Ni fydd llawer o achosion eleni, ond lle'n briodol caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.
11. **Premiwm y Dreth Cyngor** - Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd (oherwydd eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes). Rydym yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr sy'n gwirio'r ffeithiau, a thrwy beidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth posibl o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur.
12. **Barn y Swyddog Cyllid Statudol** - Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

Eitem 9

CYFARFOD:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU A ARCHWILIO
DYDDIAD:	9 CHWEFROR 2023
PWNC:	STRATEGAETH GYFALAF 2023/24 (YN CYNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)
PWRPAS:	EGLURO A CHRAFFU'R STRATEGAETH ARFAETHEDIG AR GYFER 2023/24
GWEITHREDU:	Derbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn ei derbyn.
PENDERFYNIAD A GEISIR:	Mae rheoliadau cenedlaethol perthnasol yn mynnu perfyniad gan y Cyngor llawn ar y Strategaeth Cyfalaf blynyddol. Ymhellach i'r cyflwyniad gan swyddogion o gwmni Arlingclose, Ymgynhorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu a Archwilio dderbyn yr adroddiad, nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a chefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth.
SWYDDOG CYSWLLT:	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET:	Y CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID

CYFLWYNIAD

1. Mae'r adroddiad strategaeth gyfalaf hwn ar gyfer 2023/24. Mae'n rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o sut rheolir y risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Fe'i hysgrifennwyd mewn arddull rwydd er mwyn hwyluso dealltwriaeth aelodau o'r meysydd hyn sy'n dechnegol ar brydiau.
2. Bydd penderfyniadau ar reolaeth cyfalaf a thrysorlys a wneir eleni yn cael effaith ariannol ar y Cyngor am nifer o flynyddoedd i'r dyfodol. Maent felly o dan reolaeth fframwaith cenedlaethol a fframwaith polisi lleol, fel a gynhoir yn yr adroddiad hwn.

GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

3. Gwariant cyfalaf yw pan mae'r Cyngor yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwario ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a rhoi benthyciadau a grantiau i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau.
4. Yn 2023/24, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £67.8m, fel a grynhoir isod:

Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2021/22 £m	Amcan 2022/23 £m	Cyllideb 2023/24 £m	Cyllideb 2024/25 £m	Cyllideb 2025/26 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	37.1	53.0	67.8	19.8	9.7
Prydlesu Cronfa Gyffredinol *	0.0	0.0	0.0	5.0	0.0
CYFANSWM	37.1	53.0	67.8	24.8	9.7

* Mae'r Gwariant Cyfalaf am 2024/25 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

5. Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2023/24 yn cynnwys:
 - Cynlluniau /Strategaeth Tai - £21.6m
 - Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £16.6m
 - Cerbydau Adrannol - £5.4m
 - Cynlluniau Eiddo - £3.7m
 - Atal Llifogydd Arfordirol - £3.0m
 - Unedau Diwydiannol - £2.9m
6. **Llywodraethu:** Mae gan y Cyngor Strategaeth Asedau 10 mlynedd, sef cynllun o flaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar anghenion yr adrannau. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfran heb ei chlustnodi. O'r gyfran hon, mae modd i adrannau wneud cais yn flynyddol am arian ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Yr Adran Gyllid sy'n cydlynu'r ceisiadau. Mae'r Cabinet yn gwerthuso pob cais yn seiliedig ar flaenoriaethau, ac yn gwneud argymhellion. Cyflwynir ceisiadau cyfalaf a strategaeth asedau i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flynyddol.
 - Am ragor o wybodaeth am raglen gyfalaf y Cyngor, ewch i **Atodiad A**.
7. Rhaid ariannu pob gwariant cyfalaf naill ai o ffynonellau allanol (grantiau gan y llywodraeth a chyfraniadau eraill), adnoddau'r Cyngor (refeniw, cronfeydd a

derbyniadau cyfalaf), neu ddyled (benthycu, prydlesu, a Menter Cyllid Preifat (MCP)). Bwriedir ariannu'r gwariant uchod fel a ganlyn:

Tabl 2: Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2021/22 £m	Amcan 2022/23 £m	Cyllideb 2023/24 £m	Cyllideb 2024/25 £m	Cyllideb 2025/26 £m
Ffynonellau Allanol	34.0	24.4	16.9	5.4	2.6
Adnoddau ein Hunain	0.1	21.6	36.8	7.2	0.2
Dyled *	3.0	7.0	14.1	12.2	6.9
CYFANSWM	37.1	53.0	67.8	24.8	9.7

* Mae'r Dyled am 2024/25 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

8. Cyllid dros dro yn unig yw dyled, gan fod rhaid talu benthyciadau a phrydlesau yn ôl. Mae hwn, felly, yn cael ei ddisodli mewn amser gyda mathau gwahanol o ariannu, fel arfer o refeniw. Gelwir hyn yn ddarpariaeth lleiafswm refeniw (DLIR). Fel arall, gellir defnyddio enillion a ddaw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbyniadau cyfalaf) i ddisodli dyled ariannol. Mae'r defnydd o'r derbyniadau cyfalaf a'r DLIR bwriedig fel a ganlyn:

Tabl 3: Disodli Dyled mewn £ miliynau

	Gwir 2021/22 £m	Amcan 2022/23 £m	Cyllideb 2023/24 £m	Cyllideb 2024/25 £m	Cyllideb 2025/26 £m
Darpariaeth Lleiafswm Refeniw	7.7	7.6	5.0	5.9	6.0

- Ceir Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw cyflawn y Cyngor yn **Atodiad B** y Datganiad Strategaeth Cyfalaf. Mae'r datganiad yma wedi ei addasu ar gyfer 2023/24.
9. Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda DLIR a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled. Disgwylir y bydd y GCC yn cynyddu £9.1m yn ystod 2023/24. Yn seiliedig ar y ffigyrau gwariant ac ariannu uchod, mae GCC amcangyfrifedig y Cyngor fel a ganlyn:

Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2022 £m	Amcan 31.3.2023 £m	Cyllideb 31.3.2024 £m	Cyllideb 31.3.2025 £m	Cyllideb 31.3.2026 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol *	169.3	168.7	177.8	184.1	185.0

* Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £5m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

10. **Rheoli Asedau:** Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau'n ddefnyddiol yn y tymor hir, mae gan y Cyngor strategaeth rheoli asedau. Mae'r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2019/20 hyd 2028/29 wedi cael ei ddatblygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 07/03/2019, gweler Eitem 11 ar y rhaglen:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=2457&ver=4&>

11. **Gwaredu Asedau:** Pan nad oes angen yr ased cyfalaf mwyach, gellir ei werthu er mwyn gwario'r derbyniadau cyfalaf yma ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled. Mae ad-dalu grantiau cyfalaf, benthyciadau a buddsoddiadau hefyd yn creu derbyniadau cyfalaf. Bwriad y Cyngor yw derbyn derbyniadau cyfalaf fel a ddengys yn y tabl isod:

Tabl 5: Derbyniadau Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2021/22 £m	Amcan 2022/23 £m	Cyllideb 2023/24 £m	Cyllideb 2024/25 £m	Cyllideb 2025/26 £m
Gwerthu Asedau	0.3	0.1	0.0	0.1	0.0
Ad-dalu Benthyciad	0.0	0.0	0.1	0.0	0.1
CYFANSWM	0.3	0.1	0.1	0.1	0.1

RHEOLAETH TRYSORLYS

12. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y Cyngor, gan reoli'r risgiau cysylltiedig. Buddsoddir arian dros ben nes bydd galw amdano, ac ymdrinnir â phrinder arian drwy fenthyg, er mwyn sicrhau nad yw'r gweddill credyd na'r gorddrafft yn y cyfrif banc cyfredol yn ormod. Mae'r Cyngor fel arfer yn gyfoethog mewn arian parod yn y tymor byr gan fod incwm referniw'n cael ei

dderbyn cyn cael ei wario. Ond yn y tymor hir mae'n ariannol dlawd, gan fod gwariant cyfalaf yn digwydd cyn canfod yr arian i dalu amdano. Caiff gormodedd arian parod refeniw ei osod yn erbyn diffygion arian parod cyfalaf er mwyn lleihau faint a fenthycir yn gyffredinol.

13. Oherwydd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn y gorffennol, ar hyn o bryd mae benthyciadau'r Cyngor yn £100.5m, gyda chyfradd llog cyfartalog o 5.47%, a buddsoddiadau trysorlys o £123.9m ar gyfradd gyfartalog o 3.18%.
14. **Y Strategaeth Fenthyca:** Prif amcanion y Cyngor wrth fenthyg yw canfod cost fenthyca sy'n isel ond sy'n benodedig, gan gynnal hyblygrwydd pe bai cynlluniau yn newid yn y dyfodol. Yn aml, mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro. Mae'r Cyngor, felly, yn ceisio cael cydbwysedd rhwng benthyciadau rhad, tymor byr a benthyciadau tymor hir ar gyfradd sefydlog lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch.

Nid yw'r Cyngor yn benthycu i fuddsoddi ar gyfer y prif bwrpas o ddychweliadau ariannol ac felly gyda myneddiad llawn i'r PWLB.

15. Gweler lefelau rhagamcanedig o gyfanswm dyled y Cyngor sy'n weddill (sef rhwymedigaethau benthyg, MCP a phrydlesau) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod).

Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2022 £m	Amcan 31.3.2023 £m	Cyllideb 31.3.2024 £m	Cyllideb 31.3.2025 £m	Cyllideb 31.3.2026 £m
Dyled (gan gynnwys MCP a phrydlesau)	104.1	102.5	99.9	98.7	94.0
Gofyn Cyllido Cyfalaf	169.3	168.7	177.8	184.1	185.0

16. Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir yn nhabl 6, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yn cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.
17. **Meincnod Ymrwymiad:** Er mwyn cymharu faint mae'r Cyngor wedi'i fenthyg mewn gwirionedd yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod ymrwymiad wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthyg. Mae hyn yn tybio fod balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw ar o leiaf £10m ar ddiwedd pob blwyddyn.

Tabl 7: Benthycia a'r Meincnod Ymrwymiad mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2022 £m	Amcan 31.3.2023 £m	Cyllideb 31.3.2024 £m	Cyllideb 31.3.2025 £m	Cyllideb 31.3.2026 £m
Benthyciadau sy'n Ddyledus	104.1	102.5	99.9	98.7	94.0
Meincnod Ymrwymiad	16.1	49.3	90.7	110.5	124.8

18. Mae'r tabl yn dangos fod y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad hyd at 2024. Mae hyn oherwydd bod gan gan y Cyngor reserfau, ac mae allbynnau arian parod wedi bod yn is na'r disgwyl pan fenthycwyd yr arian.
19. **Terfyn Benthg Fforddiadwy:** Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn dynesu at y terfyn.

Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol mewn £m

	Terfyn 2022/23 £m	Terfyn 2023/24 £m	Terfyn 2024/25 £m	Terfyn 2025/26 £m
Terfyn Awdurdodedig - Cyfanswm Dyledion Allanol	200	200	200	200
Ffin Gweithredol - Cyfanswm Dyledion Allanol	190	190	190	190

Mae'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol am 2023/24 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £6m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau

- Mae manylion pellach ar fenthyciadau ar gael yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.
20. **Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys:** Mae buddsoddiadau'r trysorlys yn digwydd drwy dderbyn arian parod cyn iddo gael ei dalu allan eto. Fel arfer, ni ystyrir fod buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth neu er elw ariannol yn unig yn rhan o reolaeth y trysorlys.

21. Polisi'r Cyngor ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch; sef, canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach nac uchafu enillion. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y dyfodol agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau ansawdd uchel penodedig, er mwyn lleihau'r perygl o golled. Bydd arian a gedwir yn hwy yn cael ei fuddsoddi'n ehangach, gan gynnwys mewn bondiau, cyfranddaliadau ac eiddo, er mwyn cydbwysu'r perygl o golled gyda'r perygl o gael enillion sy'n is na chwyddiant. Gellir cadw buddsoddiadau dyfodol agos a thymor hwy mewn cronfeydd wedi'u pwlio, lle mae rheolwr cronfa'n penderfynu pa fuddsoddiadau penodol i'w prynu ac fe all y Cyngor ofyn am ei bres yn ôl ar fyr rybudd.

Tabl 9: Buddsoddiadau Rheolaeth y Trysorlys mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2022 £m	Amcan 31.3.2023 £m	Cyllideb 31.3.2024 £m	Cyllideb 31.3.2025 £m	Cyllideb 31.3.2026 £m
Buddsoddiadau'r Dyfodol Agos	90	60	50	40	30
Buddsoddiadau'r Tymor Hwy	10	20	20	20	20
CYFANSWM	100	80	70	60	50

- Ceir manylion pellach ar fuddsoddiadau'r trysorlys yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.
22. **Rheolaeth Risg:** Mae rheoli a rheoli risg yn effeithiol yn brif amcan gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor. Felly mae'r strategaeth rheolaeth trysorlys yn nodi amryw o ddangosyddion a therfynau i gyfyngu ar y risg o golledion annisgwyl ac yn manylu i ba raddau y gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli risgiau trysorlys.
- Mae'r dangosyddion darbodus rheolaeth trysorlys ar dudalennau 16 i 18 o Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yn **Atodiad C**.
23. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddi a benthyg yn ddyddiol; felly, fe'u dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Gyllid, sy'n gweithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn. Cyflwynir adroddiadau hanner blwyddyn a blwyddyn gyfan ar weithgaredd rheolaeth trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Y Pwyllgor Llywodraethu a Archwilio sy'n gyfrifol am graffu penderfyniadau rheolaeth trysorlys. Mae aelodau y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Cabinet yn derbyn cyflwyniad mewn seminar blynyddol gan Arlingclose, ein

ymgynghorwyr ariannol, gafodd ei gynnal ar 3 Chwefror 2023 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

BUDDSODDIADAU ER DIBENION GWASANAETH

24. Gall y Cyngor wneud buddsoddiadau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys gwneud benthyciadau i fusnesau bychain er mwyn hyrwyddo twf economaidd a chefnogi'r strategaeth dai. Yn sgil yr amcan gwasanaeth cyhoeddus, mae'r Cyngor yn fodlon cymryd mwy o risg na gyda buddsoddiadau'r trysorlys. Fodd bynnag, mae'n dal i gynllunio na fydd buddsoddiadau o'r fath yn gwneud colled hyd yn oed ar ôl talu'r holl gostau.
25. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol mewn ymgynghoriaeth â Phennaeth yr Adran Gyllid. Mae mwyafrif y benthyciadau'n rhai gwariant cyfalaf a byddant hefyd yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Mae'r Pennaeth adran perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei gwblhau cyn bod buddsoddiad yn cael ei wneud.

YMRWYMIADAU

26. Yn ogystal â'r ddyled y manylir arno uchod, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i wneud taliadau yn y dyfodol i unioni'r diffyg yn ei gronfa bensiwn (gwerth o £242m). Mae hefyd wedi clustnodi £7m er mwyn cyflenwi risgiau'r darpariaethau, sy'n ymwneud â Safleoedd Gwastraff. Mae perygl hefyd y gall y Cyngor orfod talu ymrwymadau dibynnol yn ymwneud â chapio a gofynion ôl-ofal ar gyfer Safleoedd Tirlenwi'r Cyngor, a hefyd ymrwymadau yswiriant sy'n ymwneud â threfniadau yswiriant yr awdurdodau a'i rhagflaenodd, a chau Cronfa Yswiriant Municipal Mutual (MMI). Yn unol â'r gofynion cyfrifeg, ni chlustnodwyd unrhyw arian ar gyfer ymrwymadau dibynnol o'r fath.
27. **Llywodraethu:** Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gwneud penderfyniadau newydd ar ymrwymadau dewisol mewn ymgynghoriaeth â'r Pennaeth Cyllid. Mae'r Adran Gyllid yn monitro'r perygl y bydd ymrwymadau'n dod yn wir ac y bydd angen taliad. Adroddir ar ymrwymadau materol newydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
 - Ceir manylion pellach yr ymrwymadau ar dudalen 12 Datganiad o'r Cyfrifon 2021/22

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Datganiad-o-Gyfrifon-Cyngor-Gwynedd.aspx>

GOBLYGIADAU CYLLIDEB REFENIW

28. Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a DLIR yn gost ar refeniw, a'i osod yn erbyn unrhyw incwm buddsoddi a dderbynnir. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

Tabl 10: Dangosydd Darbodus: Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

	Gwir 2021/22	Amcan 2022/23	Cyllideb 2023/24	Cyllideb 2024/25	Cyllideb 2025/26
Costau Ariannu * (£m)	£12.9m	£11.6m	£8.7m	£10.0m	£10.4m
Cyfran y Llif Refeniw Net (%)	4.6%	3.9%	2.7%	3.1%	3.2%

* Mae'r Costau Ariannu am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £0.7m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

- Caiff manylion pellach goblygiadau refeniw gwariant cyfalaf eu cynnwys yng Nghyllideb 2023/24:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistmeetings.aspx?cid=136&ye ar=0&>

29. **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur hirdymor gwariant ac ariannu cyfalaf, bydd goblygiadau cyllideb refeniw'r gwariant a wneir yn y blynyddoedd nesaf yn ymestyn 50 mlynedd a mwy i'r dyfodol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn fodlon fod y rhaglen gyfalaf a gynigir yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

GWYBODAETH A SGILIAU

30. Mae'r Cyngor yn cyflogi staff profiadol mewn swyddi uwch a chanddynt gymwysterau proffesiynol; mae ganddynt gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca, a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifydd cymwysiedig gyda blynyddoedd o brofiad, ac mae'r Rheolwr Stadau yn syrfêwr siartredig ac yn aelod o Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig. Mae'r Cyngor efo staff cymwysedig ac yn talu i staff i astudio tuag at gymwysterau proffesiynol perthnasol megis CIPFA, ACCA ac AAT.

31. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn talu cwmni Arlingclose i fod yn ymgynghorwyr rheolaeth y trysorlys. Mae'r ffordd hon yn un fwy cost effeithiol na chyflogi staff o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan y Cyngor fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i awch am risg.

32. Mae staff perthnasol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant CIPFA ac Arlingclose er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, a bod gwybodaeth a sgiliau yn gyfredol.

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2023/24	2024/25	2025/26
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Asedau'r Cyngor :			
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	6,868	2,901	0
Cynlluniau Tai	4,495	1,300	1,300
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes	2,500	0	0
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion	1,787	0	0
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	1,068	2,271	1,700
Atal Llifogydd Arfordirol	1,216	0	0
Cynlluniau Eraill	4,127	1,241	723
Bidiau Cyfalaf	3,063	3,063	500
Cynlluniau Eraill :			
Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor	0	0	2,549
Strategaeth Dai - Prynu i Osod	0	0	2,880
Cynlluniau Eraill Eisoed wedi eu Cymeradwyo :			
Cynlluniau/Strategaeth Tai	17,089	5,442	0
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	9,722	184	0
Cerbydau Adrannol	4,273	3,042	0
Cynlluniau Eiddo	3,007	0	0
Unedau Diwydiannol	2,925	0	0
Atal Llifogydd Arfordirol	1,822	0	0
Eraill	3,818	400	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	67,780	19,844	9,652

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2023/24	2024/25	2025/26
	£'000	£'000	£'000
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,061	4,061	4,061
Benthyca Arall	10,038	3,138	2,880
Grantiau a Chyfraniadau	16,874	5,430	2,549
Derbyniadau Cyfalaf	189	0	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	30	0	0
Cronfa Cyfalaf	13,434	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	23,154	7,215	162
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	67,780	19,844	9,652

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.
5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2023/24 i 2025/26, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2023/24 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £67,780,150 ar gyfer 2023/24, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

DATGANIAD DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW BLYNYDDOL 2023/24

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw* (Canllaw LIC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.
2. Nod cyffredinol Canllaw LIC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.
3. Mae Canllaw LIC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol, ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.
 - Ar gyfer gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl gwneud y gwariant cyfalaf. Mesur darbodus o oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ystod amrywiol o asedau yw 50 mlynedd ac yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, yn ymgorffori "Addasiad A" o £1.9m. Newidir y Polisi hwn yn 2023/24 – gweler Annex 1 am fwy o fanylion.
 - Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff DLIR ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff DLIR ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.
 - Ar gyfer asedau a geir trwy brydlesau cyllidol neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod y DLIR yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn yr ymrwymiad ar y fantolen.

- Ble rhoddir asedau, a oedd yn arfer bod yn brydlesau gweithredol, ar y fantolen ar 1af Ebrill 2022 oherwydd mabwysiadu SAARh 16, Safon Cyfrifeg Prydlesau, ac mae gwerth yr asedau hyn wedi eu haddasu i ystyried croniadau, taliadau o flaen llaw, premiwm a/neu ddisgownt, yna addasir y gost DLIR blynyddol fel nad oes unrhyw newid i gyfanswm y gost i referniw oherwydd y safon newydd hwn.
 - Ar gyfer benthyciadau gwariant cyfalaf i drydydd parti, sy'n cael eu hadalu mewn rhandaliadau blynyddol neu amlach, ni fydd y Cyngor yn gwneud DLIR. Yn hytrach bydd yn rhoi derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o'r ad-daliadau prifswm o'r neilltu i leihau y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC).
4. Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn 2023/24 yn destun ffi DLIR hyd nes 2024/25.
5. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf y Cyngor o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2023, mae'r gyllideb ar gyfer DLIR wedi ei bennu fel a ganlyn:

	31.03.2023 Amcan GCC £m	2023/24 Amcan DLIR £m
Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 a gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth wedi 31.03.2008	130.1	2.6
Gwariant cyfalaf heb gefnogaeth wedi 31.03.2008	36.6	2.1
Prydlesau a Menter Cyllid Preifat	2.0	0.3
Cyfanswm Cronfa Gyffredinol	168.7	5.0


ADOLYGIAD POLISI DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP) ac mae'r swm sy'n ddyledus yn cael ei alw'n Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC neu CFR)..
2. Er y disgrifir y GCC fel "dyled" nid oes dyled allanol o reidrwydd wedi ei gymryd – benthycan fewnol wna Cyngor Gwynedd ers nifer fawr o flynyddoedd erbyn hyn.
3. Nod cyffredinol Canllaw gan Lywodraeth Cymru (LIC) a gyhoeddwyd yn 2018 yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthycan gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.
4. Mae Canllaw LIC yn argymhell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol cyn cychwyn y flwyddyn ariannol ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR:

Dull	Dadansoddiad
Balans Gostyngol	<ul style="list-style-type: none"> • darpariaeth mwyaf yn y blynyddoedd cyntaf • cymryd cannoedd o flynyddoedd i glirio'r ddyled yn llawn.
Llinol	<ul style="list-style-type: none"> • dyddiad penodol pryd bydd y ddyled wedi ei chlirio • swm dyledus wedi ei glirio dros gyfnod llawr iawn llai – uchafswm o 50 mlynedd yn unol â'r canllawiau.
Blwydd-dal (Annuity)	<ul style="list-style-type: none"> • cymryd i ystyriaeth gwerth arian dros amser – h.y. bydd talu £1mil mewn 10 mlynedd yn llai o faich na'i dalu rwan. Ond mae'n parhau i roi mwy o bwysau ar genedlaethau'r dyfodol • dyddiad penodol pryd bydd y ddyled wedi ei chlirio

5. Mae Cyngor Gwynedd yn gwneud DLIR ar sail y dulliau canlynol. Mae benthycia a gefnogir ar sail 4% o'r balans gostyngol sy'n cydfynd efo'r rheoliadau blaenorol mewn lle ers 31/03/2008 ac yn cynnwys "addasiad A" o £1.9m. O ran benthycia darbodus heb gefnogaeth mae ar sail llinol dros hyd oes yr ased perthnasol.
6. Yn dilyn asesiad gan ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, argymhellwyd bod angen adolygu yr elfen gyda chefnogaeth o'r polisi DLIR yn y Datganiad.
7. Ystryr y dull llinol y mwyaf addas o ran balans rhwng cenedlaethau cyfredol a'r dyfodol. Bydd taenu'r ad-daliadau dyled yn fwy hafal dros y cenedlaethau sy'n cael budd o'r asedau yn cael yr effaith o leihau anghenion darpariaeth dyled yn y tymor byr i'r tymor canolig.
8. Mae'r polisi cyfredol (a gymeradwywyd ym Mawrth 2022) yn golygu y codir 4% ar y balans sy'n lleihau'n flynyddol a bydd yn cymryd 345 o flynyddoedd i leihau'r balans cyfredol i lai na £100.
9. Argymhellir defnyddio dull mwy darbodus a fydd yn clirio'r ddyled GCC mewn llai o flynyddoedd, ond yn cynnig arbedion am y blynyddoedd cyntaf.
10. Argymhellir newid y polisi i un ble caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau cyfalaf mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r benthyciad gael ei ddefnyddio. Yn ôl y Canllaw, caiff DLIR ei godi dros hyd at 50 mlynedd a gellir defnyddio'r dull llinol. Yn unol ag ysbryd y rheoliadau oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, ymgorfforir "Addasiad A" o £1.9m.
11. O newid y polisi i un dull llinol dros 50 mlynedd mae'r lleihad yn y taliadau am y 10 mlynedd cyntaf o 2023/24 dros £16miliwn (ar sail balans y GCC ar 31 Mawrth 2022). Ceir yr arbediad mwyaf yn y flwyddyn gyntaf ac yna mae'n raddol leihau. Yn y tymor canolig mae arbedion yn cael eu cynnig tra dros hyd cymhariaeth y ddau bolisi mae'r effaith newid polisi yn gost niwtral h.y. ailbroffilio yr ad-daliadau a wneir.
12. Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith newid y polisi hyd blwyddyn ariannol 2032/33, gyda'r graff isod yn ei arddangos hyd at y flwyddyn 2083.

Blwyddyn	Polisi Cyfredol	Llinol 50 bl o 2024	Arbedion / (cost)
	Gyda chefnogaeth	Gyda chefnogaeth	
	£	£	£
Cyfanswm	46,771,427	29,994,889	16,776,538
2023	5,171,533	5,171,533	-
1 2024	4,964,671	2,482,336	2,482,336
2 2025	4,766,084	2,482,336	2,283,749
3 2026	4,575,441	2,482,336	2,093,105
4 2027	4,392,423	2,482,336	1,910,088
5 2028	4,216,726	2,482,336	1,734,391
6 2029	4,048,057	2,482,336	1,565,722
7 2030	3,886,135	2,482,336	1,403,799
8 2031	3,730,690	2,482,336	1,248,354
9 2032	3,581,462	2,482,336	1,099,126
10 2033	3,438,204	2,482,336	955,868



Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2023/24

1. Cyflwyniad

- 1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthycu a buddsoddiadau'r Cyngor a'r risgiau cysylltiol. Mae'r Cyngor wedi benthycu a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyngor.
- 1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys yn y Cyngor yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2021* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LIC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LIC.
- 1.3** Yn unol ag Arweiniad LIC, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, newid yn rhaglen gyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi, neu gollod sylweddol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol a nodwyd fel rhan o'r prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon diwedd blwyddyn.

2. Y Cyd-destun Allanol

2.1 Cefndir Economaidd

Bydd effaith barhaus y rhyfel yn yr Wcraïn ar y DU, ynghyd â chwyddiant uwch, cyfraddau llog uwch, polisi ansicr y Llywodraeth, a rhagolygon economaidd sy'n dirywio, yn ddylanwadau mawr ar strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24.

Cynyddodd Banc Lloegr (BoE) Gyfradd y Banc 0.5% i 3.5% ym mis Rhagfyr 2022. Roedd hyn yn dilyn cynnydd o 0.75% ym mis Tachwedd, sef y cynnydd cyfradd sengl mwyaf ers 1989 a'r nawfed codiad olynol ers mis Rhagfyr 2021.

Penderfyniad mis Rhagfyr oedd pleidleisiodd o blaid gan fwyafrif o 6-3 o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC), gyda dau anghydfurfiwr yn pleidleisio o blaid dim newid ar 3% ac un am gynnydd mwy o 0.75%.

Roedd Adroddiad Polisi Ariannol (MPR) chwarterol mis Tachwedd yn rhagweld dirwasgiad hir ond bas yn y DU gyda chwyddiant CPI yn parhau i fod yn uwch na 10% yn y tymor agos. Er bod yr uchafbwynt chwyddiant a ragwelir yn is nag yn adroddiad mis Awst, yn rhannol oherwydd pecyn cymorth y llywodraeth ar gyfer costau ynni cartrefi, disgwylir i chwyddiant aros yn uwch am gyfnod hwy dros y gorwel a ragwelir ac mae'r rhagolygon economaidd yn parhau'n wan, a rhagwelir y bydd diweithdra'n dechrau codi.

Crebachodd economi'r DU 0.3% rhwng Gorffennaf a Medi 2022 yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac mae'r BoE yn rhagweld y bydd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) yn gostwng 0.75% yn ail hanner y flwyddyn galendr oherwydd y wasgfa ar incwm aelwydydd o costau ynni a phrisiau nwyddau uwch. Yna disgwylir i'r twf barhau i ostwng trwy gydol 2023 a hanner cyntaf 2024.

Disgwylir i chwyddiant CPI fod wedi cyrraedd uchafbwynt o tua 11% yn chwarter calendr olaf 2022 ac yna'n disgyn yn sydyn i 1.4%, yn is na'r targed o 2%, ymhen dwy flynedd ac i 0% ymhen tair blynedd os bydd Cyfradd y Banc yn dilyn y llwybr a awgrymwyd gan farchnadoedd ariannol ar adeg MPR mis Tachwedd (uchafbwynt o 5.25%). Fodd bynnag, dywedodd y BoE ei fod yn ystyried bod y llwybr hwn yn rhy uchel, gan awgrymu y byddai'r brig mewn cyfraddau llog yn is, gan leihau'r risg y byddai chwyddiant yn disgyn yn rhy bell o dan y targed. Mae cyfraddau'r farchnad wedi gostwng ers adeg MPR mis Tachwedd.

Mae'r farchnad lafur yn dal yn dynn am y tro, gyda'r ystadegau diweddaraf yn dangos mai 3.7% oedd y gyfradd ddiweithdra. Roedd enillion i fyny'n gryf mewn termau nominal o 6.1% ar gyfer cyfanswm cyflog a chyflogau rheolaidd ond mae ystyried chwyddiant yn golygu mai -2.7% oedd y cyflog gwirioneddol ar gyfer y ddau fesur. Wrth edrych ymlaen, mae MPR mis Tachwedd yn dangos bod y farchnad lafur yn gwanhau mewn ymateb i'r rhagolygon ar gyfer twf sy'n gwaethygu, gan arwain at gyfradd ddiweithdra yn codi i tua 6.5% yn 2025.

Mae cyfraddau llog hefyd wedi bod yn codi'n sydyn yn yr Unol Daleithiau, gyda'r Gronfa Ffederal yn cynyddu'r ystod ar ei chyfradd llog allweddol 0.5% ym mis Rhagfyr 2022 i 4.25% -4.5%. Mae'r cynnydd hwn yn dilyn pedwar codiad olynol o 0.75% mewn cyflymder tynhau sydd wedi gweld cyfraddau'n cynyddu o 0.25% - 0.50% ym mis Mawrth 2022. Mae chwyddiant blyneddol wedi bod yn arafu yn yr UD ond mae'n parhau i fod yn uwch na 7%. Tyfodd GDP ar gyfradd flynyddol o 3.2% (wedi'i adolygu i fyny o 2.9%) rhwng Gorffennaf a Medi 2022, ond gyda disgwyl i gyfraddau llog swyddogol godi hyd yn oed ymhellach yn y misoedd

nesaf, mae disgwyl dirwasgiad yn y rhanbarth yn eang ar ryw adeg yn ystod 2023 .

Cododd chwyddiant yn gyson ym Mharth yr Ewro ers dechrau'r flwyddyn, gan daro cyfradd flynyddol brig o 10.6% ym mis Hydref 2022, cyn gostwng i 10.1% ym mis Tachwedd. Mae twf economaidd wedi bod yn gwanhau gydag ehangiad a adolygwyd ar i fyny o 0.3% (o 0.2%) yn y tri mis hyd at fis Medi 2022. Fel gyda'r DU a'r Unol Daleithiau, mae Banc Canolog Ewrop wedi bod ar gylch tynhau cyfraddau llog, gan wthio ei dair cyfradd llog allweddol i fyny 0.50% ym mis Rhagfyr, yn dilyn dau godiad 0.75% yn olynol, gan gymryd ei brif gyfradd ail-ariannu i 2.5% a chyfradd cyfleuster blaendal i 2.0%.

2.2 Rhagolygon credyd

Yn gyffredinol, mae prisiau cyfnewid diodyn credyd (CDS) wedi dilyn tuedd ar i fyny drwy gydol 2022, gan ddangos risg credyd uwch. Maent wedi cael hwb gan y rhyfel yn yr Wcrain, ansicrwydd economaidd a gwleidyddol cynyddol a rhagolygon byd-eang a DU gwannach, ond maent yn parhau i fod ymhell islaw'r lefelau a welwyd ar ddechrau pandemig Covid-19. Roedd anweddolrwydd prisiau CDS yn uwch yn 2022 o gymharu â 2021 ac mae'r gwahaniaeth mewn prisiau rhwng endidau bancio wedi'u neilltuo (manwerthu) ac endidau bancio heb eu neilltuo (buddsoddiad) wedi dod i'r amlwg unwaith eto.

Arweiniodd y darlun economaidd gwan yn ystod 2022 i'r asiantaethau statws credyd adlewyrchu hyn yn eu hasesiad o'r rhagolygon ar gyfer sofran y DU yn ogystal â nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau ariannol, gan eu hadolygu o i negyddol o sefydlog.

Mae tensiynau cystadleuol yn y sector bancio a allai effeithio ar gryfder mantolen banc wrth symud ymlaen. Mae'r rhagolygon economaidd yn gwanhau a'r dirwasgiadau tebygol mewn llawer o ranbarthau yn cynyddu'r posibilrwydd o ddirywiad yn ansawdd asedau banciau, tra bod cyfraddau llog uwch yn rhoi hwb i incwm net a phroffidioldeb.

Fodd bynnag, mae'r sefydliadau ar restr gwrthbartion ein ymgynghorwyr Arlingclose yn parhau i gael eu cyfalafu'n dda ac mae eu cyngor gwrthbartion ar y ddau sefydliad a argymhellir a'r cyfnod hwyaf yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson a byddant yn parhau i adlewyrchu amodau economaidd a'r Rhagolwg credyd.

2.3 Rhagolygon cyfraddau llog

Mae ymgynghorwyr rheoli trysorlys y Cyngor Arlingclose yn rhagweld y bydd Cyfradd y Banc yn parhau i godi yn 2022 a 2023 wrth i Fanc Lloegr geisio darostwng chwyddiant sy'n sylweddol uwch na'i darged o 2%.

Er bod disgwyliadau cyfraddau llog wedi gostwng yn ystod Hydref a Thachwedd 2022, mae cynnydd mewn cyfraddau llog lluosog yn dal i fod i'w ddisgwyl dros y gorwel a ragwelir er gwaethaf y dirwasgiad sydd ar ddod. Mae Arlingclose yn disgwyl i Gyfradd y Banc godi i 4.25% erbyn Mehefin 2023 o dan ei achos canolog, gyda'r risgiau yn y tymor agos a'r tymor canolig i'r ochr arall pe na bai chwyddiant yn esblygu fel y mae'r Banc yn ei ragweld ac yn parhau i fod yn uwch yn gyson.

Disgwylir i'r cynnyrch aros yn fras ar y lefelau presennol dros y tymor canolig, a disgwylir i gynnyrch giltiau 5, 10 ac 20 mlynedd fod tua 3.5%, 3.5%, a 3.85% ar gyfartaledd dros y cyfnod o 3 blynedd hyd at fis Rhagfyr 2025. Bernir bod y risgiau ar gyfer enillion tymor byr, canolig a hwy wedi'u cydbwysu'n fras dros y gorwel a ragwelir. Fel bob amser, yn ddiamau, bydd anweddolrwydd tymor byr oherwydd ansicrwydd a digwyddiadau economaidd a gwleidyddol.

Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn **Atodiad 1**.

- 2.4 Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd bod buddsoddiadau rheolaeth trysorlys newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 4.0% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd yn 2023/24.

3. Y Cyd-destun Lleol

- 3.1 Ar 31 Rhagfyr 2022, roedd gan y Cyngor fenthyciadau o £100.5m a £123.9m o fuddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylder yn **Atodiad 2**. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg

	31.3.22 Gwir £m	31.3.23 Amcan £m	31.3.24 Rhogolwg £m	31.3.25 Rhogolwg £m	31.3.26 Rhogolwg £m
GCC	169.3	168.7	177.8	184.1	185.0
Llai: Ymrwymadau arall *	-2.3	-2.0	-1.6	-5.7	-4.7
Benthyca GCC	167.0	166.7	176.2	178.4	180.3
Llai: Benthyca allanol **	-101.8	-100.5	-98.3	-93.0	-89.3
Benthyca mewnol	65.2	66.2	77.9	85.4	91.0
Llai: Adnoddau mantolen	-163.2	-129.4	-97.1	-83.6	-70.2
Buddsoddiadau Trysorlys (neu fenthyciadau newydd)	98.0	63.2	19.2	-1.8	-20.8

* ymrwymadau PFI

**yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt heb gynnwys ail gyllido dewisol

3.2 Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai'r adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.

3.3 Mae Tabl 1 yn dangos nad oes angen i'r Cyngor fenthyca yn y tymor hir yn ystod y tair blynedd nesaf. Os oes angen, bydd benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r gyfradd llog.

3.4 Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymhell y dylai cyfanswm dyledion y Cyngor fod yn is na'i GCC uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys Tabl 1 fod y Cyngor yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2023/24.

4. Meincnod Ymrwymadau

4.1 Er mwyn cymharu gwir fenthyciadau'r Cyngor yn erbyn strategaeth arall, mae meincnod ymrwymadau wedi cael ei chyfrifo sy'n dangos lefel benthyca gyda risg isaf. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon a tabl 1 uchod, ond bod balansau arian a buddsoddiadau yn aros ar lefel isafswm o £10m ar ddiwedd bob blwyddyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau'r risg credyd.


Mae'r meincnod ymrwymadau yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac

felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'r meincnod ymrwymadau ei hun yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthycia allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a referniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

Tabl 2: Dangosydd Darbodus: Meincnod Ymrwymadau

	31.3.22 Gwir £m	31.3.23 Amcan £m	31.3.24 Rhagolwg £m	31.3.25 Rhagolwg £m	31.3.26 Rhagolwg £m
GCC	169.3	168.7	177.8	184.1	185.0
Llai: Adnoddau mantolen	-163.2	-129.4	-97.1	-83.6	-70.2
Gofynion benthyciadau net	6.1	39.3	80.7	100.5	114.8
Ychwanegu: Lwfans hylifedd	10.0	10.0	10.0	10.0	10.0
Meincnod Ymrwymadau	16.1	49.3	90.7	110.5	124.8

4.2 Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod tymor hir yn rhagdybio dim gwariant cyfalaf pellach wedi'i ariannu gan fenthyciadau, lleiafswm darpariaeth referniw ar wariant cyfalaf yn seiliedig ar ddull llinell syth dros 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart canlynol gyda benthyciadau cyfredol y Cyngor:



Mae'r siart yn dangos na fydd angen benthycia yn y tymor hir yn seiliedig ar rhagamcanion cyfredol, ond efallai dros y tymor byr yn y dyfodol agos.

5. Y Strategaeth Fenthycia

5.1 Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn dal £100.5 miliwn o fenthyciadau, mae hyn fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Cyngor angen benthycia arian tymor hir yn 2023/24 ond efallai y bydd angen benthycia tymor byr oherwydd rhesymau llif arian. Yn y dyfodol, gall y Cyngor hefyd fenthycia symiau ychwanegol i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw ar yr amod nad yw hyn yn uwch na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthycia.

5.2 Amcanion

Prif amcan y Cyngor wrth fenthycia arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel ac ennill sicrwydd cost dros y cyfnod mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid.

5.3 Strategaeth

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth benthycia'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwy heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Gan fod cyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol yn y tymor byr i unai defnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthycia dros y tymor byr yn lle hynny.

Drwy wneud hyn, gall y Cyngor leihau costau benthycia net (er yn hepgor yr incwm o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol. Bydd y buddion o fenthycia mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthycia tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthycia tymor hir yn codi yn gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd y Cyngor yn benthycia symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2023/24 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi codi'r mwyafrif o'i fenthycia tymor hir o'r PWLB ond bydd yn ystyried benthyciadau tymor hir o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol, a bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o

gyflwyno bondiau ac offerynnau tebyg, er mwyn gostwng costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell cyllid yn unol â Chod CIPFA. Nid yw benthyciadau PWLB bellach ar gael i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch; mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn cadw ei fynediad at fenthyciadau PWLB.

Fel arall, gall y Cyngor drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn ei flaen, gyda'r cyfradd llog wedi ei sefydlu ymlaen llaw, ond bod yr arian yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd i ddod. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd cost heb ddiodef y gost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd y Cyngor yn benthycu benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

5.4 Ffynonellau benthycu

Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Cyfleuster Benthycu PWLB Trysorlys EM (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus gynt)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff cyhoeddus yn y DU
- cronfeydd pensiwn cyhoeddus a preifat yn y DU (eithrio Cronfa Bensiwn Gwynedd)
- Buddsoddwyr marchnad cyfalaf
- UK Municipal Bonds Agency plc a cwmnïau eraill i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

5.5 Ffynonellau eraill arian dyled

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel ymrwymadau dyledion eraill:

- Prydlesau
- Hur-bwrcasu
- Menter Cyllid Preifat
- Gwerthu ac adlesu

Y Municipal Bonds Agency: Sefydlwyd yr UK Municipal Bonds Agency plc yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel dewis amgen i'r PWLB. Mae'n cyflwyno bondiau ar y marchnadoedd cyfalaf a rhoi benthyg yr enillion i

awdurdodau lleol. Mae hyn yn ffynhonnell gyllid mwy cymhleth na'r PWLB am ddau reswm: bydd gofyn i awdurdodau sy'n benthyca ddarparu gwarant i'r buddsoddwyr bond i ad-dalu eu buddsoddiad petai'r asiantaeth yn methu â gwneud hynny am ba bynnag reswm; a bydd yna gyfnod arweiniol o sawl mis rhwng ymrwymo i fenthyca a chael gwybod beth fydd y gyfradd llog sy'n daladwy. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca gan yr Asiantaeth felly'n destun adroddiad ar wahân i'r Cyngor llawn.

5.6 Benthyciadau tymor byr a chyfradd newidiol

Mae'r benthyciadau yma yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, ac felly yn agored i derfynau amlygiadau cyfradd llog y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod. Gellir defnyddio deilliadau ariannol i rheoli y risg cyfradd llog (gweler yr adran isod).

5.7 Aildrefnu dyledion

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformiwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai benthycwyr yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar. Gall y Cyngor gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg. Mae'r cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu y dylai cyfleoedd mwy ffafriol i aildrefnu dyled godi nag yn y blynyddoedd blaenorol.

6. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys

6.1 Mae gan y Cyngor arian wedi'i fuddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn ei wario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £82.3 a £170.8 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hyn yn cynnwys balansau arian Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael eu pŵlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pŵl ar gyfer 2023/24 yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2023.

Fel arfer, nid yw benthyciadau i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a phrynu eiddo fel buddsoddiad yn cael eu hystyried yn fuddsoddiadau trysorlys, ac felly rydym yn delio â'r rhain ar wahân yn **Atodiad 3**.

6.2 Amcanion

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffyg dalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyngor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir. Nod y Cyngor yw bod yn fuddsoddw cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

6.3 Strategaeth

Fel y dangosir gan y meincnod ymrwymadau uchod, mae'r Cyngor yn disgwyl bod yn fuddsoddw hirdymor ac felly bydd buddsoddiadau trysorlys yn cynnwys offerynnau risg isel tymor byr i reoli llif arian o ddydd i ddydd ac offerynnau tymor hwy lle derbynnir risg ychwanegol gyfyngedig am incwm buddsoddi uwch i gefnogi gwsanaethau cyhoeddus lleol.

6.4 Ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG)

Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn gynyddol yn ffactor ym mhenderfyniadau buddsoddwyr byd-eang, ond mae'r fframwaith ar gyfer gwerthuso cyfleoedd buddsoddi yn dal i ddatblygu ac felly nid yw polisi ESG y Cyngor ar hyn o bryd yn cynnwys sgôr ESG na meini prawf ESG amser real eraill ar lefel buddsoddiad unigol. Wrth fuddsoddi mewn banciau a chronfeydd, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, y Gynghrair Rheolwyr Asedau Sero Net a/neu Cod Stiwardiaeth y DU.

6.5 Modelau busnes

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y Cyngor i'w rheoli. Mae'r Cyngor yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

6.6 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

Tabl 3: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau

Sector	Terfyn amser	Terfyn gwrthbarti	Terfyn sector
Llywodraeth y DU	50 mlynedd	Diderfyn	d/b
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	25 mlynedd	£10m	Diderfyn
Buddsoddiadau â sicrwydd *	25 mlynedd	£10m	Diderfyn
Banciau (ansicredig) *	13 mis	£5m	Diderfyn
Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) *	13 mis	£5m	£10m
Darparwyr cofrestredig (ansicredig) *	5 mlynedd	£5m	£25m
Cronfeydd marchnad arian *	d/b	£10m	Diderfyn
Cronfeydd cyfun strategol	d/b	£10m	£50m
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	d/b	£10m	£25m
Buddsoddiadau eraill *	5 mlynedd	£5m	£10m

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau canlynol.

6.7 Isafswm Statws Credyd

Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor cyhoeddedig isaf yn is nag A- y gwneir buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau a nodir â *. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

6.8 Llywodraeth

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan, lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun '*bail-in*', ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg. Bernir nad oes gan fuddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau gyda dim cyfyngiad am hyd at 50 mlynedd.

6.9 Buddsoddiadau â Sicrwydd

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in*'. Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

6.10 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)

Cyfrifon, adneuo, tystysgrifau adneuo a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in*' petai'r rheoleidiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

6.11 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warrantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

6.12 Cronfeydd Marchnad Arian

Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw'r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyngor yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

6.13 Cronfeydd Cyfun Strategol

Cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo sy'n cynnig enillion gwell dros y tymor hir ond sy'n fwy anwadal yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Cyngor ehangu i ddosbarthiadau o asedau ar wahân i arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a'u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, a'u bod ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i barhau i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Cyngor yn cael eu monitro'n gyson.

6.14 Ymddiriedolaethau Buddsoddi Ystâd Real

Cyfranddaliadau mewn cwmnïau sy'n buddsoddi'n bennaf mewn ystâd real ac sy'n talu'r mwyafrif o'u hincwm rhent i fuddsoddwyr mewn modd tebyg i gronfeydd eiddo cyfun. Yn yr un modd â chronfeydd eiddo, mae ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real yn cynnig enillion gwell dros y tymor hir, ond maent yn fwy anwadal yn enwedig gan fod pris y cyfranddaliadau yn adlewyrchu'r galw newidiol am y cyfranddaliadau ynghyd â newidiadau yng ngwerth yr eiddo sylfaenol.

6.15 Buddsoddiadau eraill

Mae'r categori yma yn cynnwys buddsoddiadau trysorlys nad ydynt wedi'u rhestru uchod, er enghraifft bondiau corfforaethol ansicredig a benthyciadau cwmni. Nid yw cwmnïau heblaw banciau yn destun 'bail-in' ond gallent fynd yn fethdalwr gan roi buddsoddiad y Cyngor mewn perygl.

6.16 Cyfrifon banc gweithredol

Gall y Cyngor ddelio gydag unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau 'bail-in', ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun 'bail-in' na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu parhau i weithredu.

6.17 Asesu Risg a Statws Credyd

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Mae'r asiantaethau statws credyd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wedi'u rhestru yn nogfen Arferion Rheolaeth Trysorlys. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "rating watch negative" neu "credit watch negative") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

6.18 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn deall bod graddfeydd statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol a dadansoddiad a chynngor gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys y Cyngor. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuan cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2020, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y Cyngor, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

6.19 Cyfyngiadau Buddsoddi

Rhagwelir bydd gan y Cyngor £114 miliwn mewn cronfeydd refeniw ar 31 Mawrth 2023 fydd ar gael i dalu am unrhyw golledion buddsoddi. Er mwyn sicrhau nad yw mwy na 9% o'r cronfeydd hyn mewn perygl oherwydd diffygdalu unigol, yr uchafswm gellir ei fenthycu i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £10 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

Gosodir terfynau hefyd ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai broceriaid a gwledydd tramor fel y nodir isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn

ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg yn amrywio dros lawer o wledydd.

Tabl 4: Terfynau ychwanegol

	Cyfyngiad arian
Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth	£25m fesul rheolwr
Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer	£25m fesul brocer
Gwledydd tramor	£10m fesul gwlad

6.20 Rheoli hylifedd

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.

7. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

7.1 Diogelwch

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli o ran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwysu'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg ganfyddedig.

Dangosydd risg credyd	Targed
Sgôr credyd cyfartalog y portffolio	6.0

7.2 Hylifedd

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

Dangosydd risg hylifedd	Targed
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£10m

7.3 Datguddiad Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwmp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

Dangosydd risg cyfradd llog	Cyfyngiad
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn <u>codiad</u> 1% yng nghyfraddau llog	£1,039,420
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda <u>chwmp</u> o 1% yng nghyfraddau llog	£1,039,420

Caiff effaith newid mewn cyfraddau llog ei gyfrifo ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu hamnewid ar y cyfraddau marchnad newydd.

7.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

Dangosydd risg cyfradd ail gyllido	Cyfyngiad Uchaf	Cyfyngiad Isaf
Dan 12 mis	25%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	25%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd a mwy	100%	0%

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

7.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwyllyddyn

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar fuddsoddiadau rheolaeth trysorlys hirdymor fydd:

Dangosydd risg pris	2023/24	2024/25	2025/26	Dim dyddiad penodol
Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddiwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£40m	£20m	£20m	£20m

Mae buddsoddiadau hirdymor heb ddyddiad aeddfedu penodol yn cynnwys cronfeydd cyfun strategol ac ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real ond nid ydynt yn cynnwys cronfeydd marchnad arian a chyfrifon banc heb ddyddiad aeddfedu penodol gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn rhai tymor byr.

8. Materion Cysylltiedig

8.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA.

8.2 Cytundebau Deilliadau

Gallai awdurdodau lleol fod wedi defnyddio deilliadau ariannol yn y gorffennol wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau i leihau risg cyfraddau llog (e.e. coleri cyfradd llog a blaendaliadau) ac i leihau costau neu gynyddu incwm ar draul mwy o risg (e.e. benthyciadau LOBO ac adneuo y gellir eu galw). Mae'r pŵer cymhwysedd gyffredinol yn adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dileu llawer o'r ansicrwydd ynghylch defnydd awdurdodau lleol o ddeilliadau ariannol annibynnol (h.y. y rhai nad ydynt wedi'u hymgorffori mewn benthyciad neu fuddsoddiad).

Bydd y Cyngor ond yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (fel cyfnewidiadau, blaensymiau, dyfodol ac opsiynau) lle gellir dangos yn glir eu bod yn lleihau lefel gyffredinol y risgiau ariannol y mae'r Cyngor yn agored iddynt. Bydd risgiau ychwanegol a gyflwynir, megis amlygiad credyd i wrthbartion deilliadol, yn cael eu hystyried wrth bennu lefel gyffredinol y risg. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ddeilliadau mewnosodedig, gan gynnwys y rhai sy'n

bresennol mewn cronfeydd cyfun a thrafodion sy'n cychwyn ymlaen llaw, er y bydd y risgiau a gyflwynir ganddynt yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risg y trysorlys.

Gellir trefnu trafodion deilliadol ariannol gydag unrhyw sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy, a asesir gan ddefnyddio'r statws credyd priodol ar gyfer datguddiadau deilliadol. Bydd lwfans ar gyfer risg credyd a gyfrifir gan ddefnyddio'r fethodoleg yn y ddogfen Arferion Rheoli'r Trysorlys yn cyfrif yn erbyn y terfyn credyd gwrthbarti a'r terfyn gwlad dramor perthnasol.

Yn unol â Chod CIPFA, bydd y Cyngor yn ceisio cyngor allanol ac yn ystyried y cyngor hwnnw cyn ymrwymo i ddeilliadau ariannol i sicrhau ei fod yn deall y goblygiadau yn llawn.

8.3 Cronfeydd Allanol

Yn gynwysedig ym malansau'r Cyngor mae balansau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, GwE, Cronfa'r Degwm a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Dyrennir yr incwm llog i bob sefydliad yn seiliedig ar falansau dyddiol.

8.4 Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi dewis cael statws cleient proffesiynol gyda'i darparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr buddsoddi, er mwyn caniatáu mynediad at amrediad mwy o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddio uwch sydd ar gael i unigolion a chwmnïau bychan. Oherwydd maint ac ystod gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws priodol gorau.

9. Arweiniad Llywodraeth Cymru

Mae materion pellach sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn **Atodiad 3**.

10. Goblygiadau Ariannol

- 10.1** Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2023/24 yw £1.9 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £79.8 miliwn ar gyfradd llog o 4.0% ar gyfer adneuon a £10 miliwn o gronfeydd cyfun ar enillion o 2.9%. Y gyllideb ar gyfer y

Ilog ar ddyledion yn 2023/24 yw £5.4 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £100.2 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.4%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

11. Ystyried Opsiynau Eraill

11.1 Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i awdurdodau lleol ei fabwysiadu. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-ffeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau ariannol a rheoli risgiau.

Dewis Arall	Effaith ar incwm a gwariant	Effaith ar reoli risgiau
Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrthbartïon ac/neu am gyfnodau byrrach	Bydd incwm llog yn is	Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn fwy
Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrthbartïon ac/neu am gyfnodau hirach	Bydd incwm llog yn uwch	Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn llai
Benthycia symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor	Bydd costau llog dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwysu hyn drwy incwm buddsoddi uwch	Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn fwy sicr
Cymryd benthyciadau byrdymor newidiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor	Bydd costau llog dyledion yn is i gychwyn	Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael eu gwrthbwysu i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor
Lleihau lefel y benthyciadau	Mae'r arbediad ar log y ddyled yn debygol o fod yn	Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai

	fwy na'r incwm buddsoddi a gollir	ddiffygdlu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn llai sicr
--	-----------------------------------	--

Atodiad 1 – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Rhagfyr 2022

Tybiaethau sylfaenol:

- Mae dylanwad y gyllideb fach ar gyfraddau ac arenillion yn parhau i bylu yn dilyn y dull mwy cyfrifol a ddangoswyd gan ddeiliaid newydd Stryd Downing.
- Mae anweddolrwydd mewn marchnadoedd byd-eang yn parhau, fodd bynnag, wrth i fuddsoddwyr geisio i ba raddau y mae banciau canolog yn barod i dynhau polisi, wrth i dystiolaeth o amodau dirwasgiad adeiladu. Mae buddsoddwyr wedi bod yn fwy parod i brisio mewn y dirywiad mewn twf, gan leddfu amodau ariannol, i anfodlonrwydd llunwyr polisi. Mae hyn yn codi'r risg y bydd banciau canolog yn mynd i gamgymeriad polisi trwy dynhau gormod.
- Mae economi'r DU eisoes yn profi amodau dirwasgiad ac mae data GDP a PMI diweddar yn awgrymu bod yr economi wedi mynd i ddirwasgiad technegol yn Ch3 2022. Mae gwytnwch yr economi wedi bod yn syndod, er gwaethaf y dirywiad mewn gweithgarwch busnes a gwariant cartrefi. Dylai galw is effeithio ar bŵer prisio busnesau – mae data diweddar yn awgrymu bod y DU wedi mynd heibio y chwyddiant uchaf.
- Bydd effaith araf y tynhau sydyn ar bolisi ariannol, ac effeithiau parhaus y gyllideb fach ar y farchnad dai, streic eang, ochr yn ochr â chwyddiant uchel, yn parhau i roi pwysau ar incwm gwario a chyfoeth gwario aelwydydd. Mae'r rhagolygon tymor byr i ganolig ar gyfer economi'r DU yn parhau i fod yn llwm.
- Mae'n ymddangos bod y galw am lafur yn trai, ond nid yn ddigon cyflym yn y data swyddogol ar gyfer y rhan fwyaf o lunwyr polisi MPC. Mae'r farchnad lafur yn parhau i fod yn fan disglair yn yr economi a gall cryfder cyflogaeth parhaus gefnogi gweithgaredd, er bod teimlad o amser wedi'i fenthyg. Mae ffocws yr MPC ar dwf cyflog enwol, er gwaethaf y toriadau cyflog enfawr mewn termau real a brofir gan y mwyafrif helaeth. Bydd y Gyfradd Banc yn parhau'n gymharol uchel nes bydd chwyddiant a thwf cyflogau yn gostwng.
- Mae cynnyrch bondiau byd-eang yn parhau i fod yn gyfnewidiol wrth i fuddsoddwyr brisio mewn dirwasgiad hyd yn oed wrth i fancwyr canolog wthio'n ôl ar ddisgwyliadau ar gyfer toriadau mewn cyfraddau yn 2023. Mae marchnad lafur yr UD yn parhau i fod yn dynn ac mae'r Ffed eisiau gweld cyfraddau polisi uwch yn gyson, ond bydd effeithiau hwyr cynnydd yn y gorffennol yn iselhau gweithgaredd yn fwy arwyddocaol i brofi penderfyniad y Ffed.
- Er ei bod yn ymddangos bod y BoE ychydig yn fwy dof o ystyried y rhagolygon gwan ar gyfer economi'r DU, mae'n ymddangos nad yw'r ECB (yn peri pryder) yn wynebu llawer o amheuon ynghylch cyfeiriad tymor byr polisi. Bydd cynnyrch gilt yn cael ei gefnogi'n fras gan gyflenwad bond newydd sylweddol a disgwyliadau cyfraddau byd-eang oherwydd bancwyr canolog *hawkish*, gan wrthbwysu effeithiau chwyddiant a thwf sy'n dirywio.

Rhagolygon:

- Cododd yr MPC Gyfradd Banc 50bps i 3.5% ym mis Rhagfyr yn ôl y disgwyl, gydag arwyddion bod rhai aelodau yn credu bod 3% yn ddigon cyfyngol. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr aelodau o'r farn y gallai fod angen cynnydd pellach yn y Gyfradd Banc. Mae Arlingclose yn parhau i ddisgwyl i'r Gyfradd Banc gyrraedd uchafbwynt o 4.25%, gyda chynnydd pellach o 25bps Chwefror, Mawrth a Mai 2023.
- Bydd yr MPC yn torri cyfraddau yn y tymor canolig er mwyn ysgogi economi sy'n tagu yn y DU, ond bydd yn amharod i wneud hynny nes bydd twf cyflog yn lleddfu. Rydym yn gweld toriadau mewn cyfraddau yn hanner cyntaf 2024.
- Mae Arlingclose yn disgwyl i gynnyrch giltiau aros yn weddol gyson dros y tymor canolig, er gydag anweddolrwydd parhaus dros gyfnodau amser byrrach.
- Mae cynnyrch gilt yn wynebu pwysau ar y ddwy ochr o bolisi banc canolog *hawkish* yr UD/EZ ar un llaw i'r rhagolygon economaidd byd-eang gwan ar y llaw arall. Bydd gwerthiannau bond BoE a benthyca uchel gan y llywodraeth yn darparu cymorth sylfaenol pellach ar gyfer adenillion.

	Current	Mar-23	Jun-23	Sep-23	Dec-23	Mar-24	Jun-24	Sep-24	Dec-24	Mar-25	Jun-25	Sep-25	Dec-25
Official Bank Rate													
Upside risk	0.00	0.50	0.75	1.00	1.00	1.00	1.25	1.50	1.75	1.50	1.25	1.25	1.25
Arlingclose Central Case	3.50	4.00	4.25	4.25	4.25	4.25	4.00	3.75	3.50	3.25	3.25	3.25	3.25
Downside risk	0.00	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
3-month money market rate													
Upside risk	0.00	0.50	0.75	1.00	1.00	1.00	1.25	1.50	1.75	1.50	1.25	1.25	1.25
Arlingclose Central Case	3.00	4.40	4.40	4.40	4.35	4.30	4.25	4.00	3.75	3.50	3.40	3.40	3.40
Downside risk	0.00	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
5yr gilt yield													
Upside risk	0.00	0.70	0.80	0.90	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
Arlingclose Central Case	3.43	3.60	3.80	3.80	3.80	3.70	3.60	3.50	3.40	3.30	3.30	3.30	3.30
Downside risk	0.00	0.80	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
10yr gilt yield													
Upside risk	0.00	0.70	0.80	0.90	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
Arlingclose Central Case	3.47	3.50	3.60	3.60	3.60	3.60	3.50	3.50	3.50	3.50	3.50	3.50	3.50
Downside risk	0.00	0.80	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
20yr gilt yield													
Upside risk	0.00	0.70	0.80	0.90	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
Arlingclose Central Case	3.86	3.85	3.85	3.85	3.85	3.85	3.85	3.85	3.85	3.85	3.85	3.85	3.85
Downside risk	0.00	0.80	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
50yr gilt yield													
Upside risk	0.00	0.70	0.80	0.90	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
Arlingclose Central Case	3.46	3.60	3.60	3.60	3.60	3.60	3.60	3.60	3.60	3.60	3.60	3.60	3.60
Downside risk	0.00	0.80	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00

PWLB Standard Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 1.00%

PWLB Certainty Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.80%

UKIB Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.60%

Atodiad 2- Sefyllfa Portffolio Buddsoddi a Dyled Bresennol

	31.12.2022 Gwir Bortffolio £m	31.12.2022 Cyfradd Cyfartalog %
Benthyca Allanol:		
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)	84.3	5.75
Benthyciadau eraill	16.2	4.22
Cyfanswm benthyca allanol	100.5	5.47
Ymrwymadau tymor hir arall:		
Prydlesau	1.2	0.00
Cyfanswm ymrwymadau tymor hir arall	1.2	0.00
Cyfanswm dyled gros allanol	101.7	5.47
Buddsoddiadau trysorlys:		
Banciau a Chymdeithasau adeiladu (ansicredig)	33.1	3.03
Llywodraeth DU	12.9	3.23
Awdurdodau Lleol	15.0	2.45
Cronfeydd Marchnad Arian	53.0	3.23
Cronfeydd wedi'u pŵlio	10.0	4.66
Cyfanswm buddsoddiadau trysorlys	123.9	3.18
Buddsoddiadau Net	-22.2	

Atodiad 3- Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Ganllaw Buddsoddi diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sy'n gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys y Cyngor hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydyn nhw'n rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

Cyfraniad: Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaeth a / neu i hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol,
- mae benthyciadau i sefydliadau lleol yn darparu cymorth ariannol i'r sefydliadau hynny i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a fyddai fel arall yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor, a
- mae eiddo buddsoddi yn darparu gwarged ariannol net sy'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Newid yn yr hinsawdd: Mae penderfyniadau buddsoddi'r Cyngor yn ystyried risgiau hinsawdd tymor hir i gefnogi economi carbon isel i'r graddau, os oes buddsoddiad carbon isel cyfwerth ar gael gyda'r un enillion, yna byddai'n well gan y Cyngor y buddsoddiad carbon isel.

Buddsoddiadau penodedig: Mae Canllawiau LIC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel y rheini:

- wedi'i enwi mewn punt sterling,
- i fod i gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis ar ôl y trefniant oni bai bod y gwrthbarti yn awdurdod lleol,
- heb ei ddiffinio fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, a
- buddsoddi gydag un o:
 - Llywodraeth y DU,
 - Awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymunedol yn y DU, neu
 - Corff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Cyngor yn diffinio sefydliadau a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch sy'n hysgu o'r DU neu wlad dramor sydd â sgôr sofran o AA + neu'n uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun eraill, diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch.

Benthyciadau: Mae Canllawiau LIC yn diffinio benthyciad fel cytundeb ysgrifenedig neu lafar lle mae'r Cyngor yn trosglwyddo arian dros dro i drydydd parti, menter ar y

cyd, is-gwmni neu aelod cyswllt sy'n cytuno ar enillion yn ôl telerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan fydd y trydydd parti yn awdurdod lleol arall.

Gall y Cyngor ddangos bod ei amlygiad ariannol i fenthyciadau i fentrau lleol, elusennau lleol, cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd yn gymesur trwy osod y terfynau yn nhabl 3a. Mae'r rhain yn sicrhau nad yw cyfanswm yr amlygiad yn fwy na 20% o gronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio. Ar hyn o bryd mae llyfr benthyciadau'r Cyngor o fewn y terfynau hunanasesedig hyn.

Tabl 3a: Terfynau Benthycg

Benthyciwr	Terfyn arian
Mentrau lleol ac elusennau lleol	£3m
Cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd	£3m
Benthyciadau ceir a beics i weithwyr	£3m
Buddsoddiadau rheolaeth trysorlys sy'n cwrdd â'r diffiniad o fenthyciad	Diderfyn

Mae'r Cyngor yn defnyddio model 'colled credyd disgwylidig' a ganiateir ar gyfer benthyciadau a symiau derbyniadwy fel y nodir yn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9: Offerynnau Ariannol fel y'i mabwysiadwyd gan arferion priodol i fesur risg credyd ei bortffolio benthyciadau. Rhoddir ystyriaeth briodol i reolau cymorth gwladwriaethol a chyfraith cystadleuaeth. Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli credyd priodol i adennill ad-daliadau hwyr.

Buddsoddiadau amhenodol: Mae unrhyw fuddsoddiad ariannol nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o fuddsoddiad neu fenthyciad penodol yn cael ei ddsbarthu fel un amhenodol. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, mae'r categori hwn yn berthnasol i unedau mewn cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cwmnïau yn unig. Dangosir cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodol yn nhabl 3b; mae'r Cyngor yn cadarnhau bod ei fuddsoddiadau amhenodol cyfredol yn aros o fewn y terfynau hyn.

Tabl 3b: Terfynau buddsoddiadau amhenodol

	Terfyn arian
Unedau mewn cronfeydd cyfun heb statws credyd neu wedi'u graddio islaw A-	£20m
Cyfranddaliadau mewn ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	£10m
Cyfanswm buddsoddiadau amhenodol	£30m

Buddsoddiadau anariannol: Mae'r categori hwn yn cynnwys asedau anariannol a ddelir yn bennaf neu'n rhannol i gynhyrchu elw, eiddo buddsoddi yn bennaf. Penderfynir ar ddiogelwch trwy gymharu pris prynu pob ased â'i werth teg gan ddefnyddio'r model yn Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40: Eiddo Buddsoddi fel y'i haddaswyd gan arferion

priodol. Ar asesiad ar 31 Mawrth 2021, mae'r Cyngor o'r farn nad yw graddfa ei fuddsoddiadau anariannol yn sylweddol.

Hylifedd: Ar gyfer buddsoddiadau ariannol nad ydynt yn fuddsoddiadau neu fenthyciadau rheoli trysorlys, mae gan y Cyngor weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu hymrwymo'n ddarbodus am y cyfnod hiraf o amser.

Ymgynghorwyr Buddsoddi: Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac yn derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyled a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

Benthyg cyn yr angen: Gall y Cyngor, o bryd i'w gilydd, fenthycu cyn yr angen, lle mae disgwyl i hyn ddarparu'r gwerth gorau am arian yn y tymor hir. Gan y bydd symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi nes eu bod yn cael eu gwario, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthycwyd, a'r risg y gall cyfraddau llog buddsoddi a benthyca newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol y Cyngor ar ei risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn fwy na'r terfyn benthyca awdurdodedig o £200 miliwn. Disgwylir i'r cyfnod hwyaf rhwng benthyca a gwariant fod yn ddwy flynedd, er nad yw'n ofynnol i'r Cyngor gysylltu benthyciadau penodol ag eitemau gwariant penodol.

Trefniant masnachol: Os bydd trefniant masnachol, mae'r unigolion sy'n gwneud y fargen yn ymwybodol o egwyddorion craidd y fframwaith darbodus a'r drefn reoleiddio y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddi.

Capasiti, sgiliau a llywodraethu corfforaethol: Gwahoddwyd aelodau etholedig a swyddogion i gyflwyniad gan Arlingclose ar 3ydd Chwefror 2023. Mae'r wybodaeth a'r drafodaeth yn y cyflwyniad yn sicrhau bod gan yr aelodau'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w galluogi i:

- Wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid ymrwymo i fuddsoddiad penodol.
- Asesu asesiadau unigol yng nghyd-destun amcanion strategol a phroffil risg y Cyngor.
- Deall sut mae cwantwm y penderfyniadau hyn wedi newid amlygiad risg cyffredinol yr awdurdod lleol.

Mae swyddogion hefyd yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Anogir staff perthnasol hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA, ACA a sefydliadau priodol eraill.

Eitem 10

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	09 CHWEFROR 2023
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022/23
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022/23
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2022/2023.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2022/23 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 25 Ionawr 2023 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	5
Gwaith Maes ar y gweill	14
Disgwyl Adolygiad	0
Adroddiad Drafft	0
Wedi ei gau	3
Adroddiad Terfynol	24
Cyfanswm	46

Canslwyd 15

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2023. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%
Diwedd chwarter 4	95%

- 2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 25 Ionawr 2023 oedd **59%** - allan o'r **46** archwiliad unigol yng nghynllun 2022/23 roedd **27** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau, neu wedi cau.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

- 3.1 Yn wreiddiol, rhagwelwyd bod oddeutu 932 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau Cynllun Archwilio 2022/23. Roedd hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio oedd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau 'di-gynnyrch' megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd. Fodd bynnag, oherwydd secondiadau staff i sefydliadau allanol, ynghyd â chyfnodau salwch hirdymor, 'roedd yn anochel na ellid cynnal rhai archwiliadau yn deillio o'r lleihad yn yr adnoddau.
- 3.2 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, penderfynwyd i addasu neu canslo/gohirio'r archwiliadau canlynol hyd nes cynllun archwilio mewnol 2023/24.

Archwiliad	Dyddiau	Addasiad/Canslo
Trefniadau Diogelu- Sefydliadau	-4	Canslo
Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	-5	Canslo
Trefniadau Talu ac Awdurdodi (Data Analytics)	-25	Canslo
Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio	-25	Canslo
Rheolaeth Categori Corfforaethol	-25	Canslo
Grant Datblygu Disgyblion	-10	Canslo
Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	-15	Canslo
Traffig a Phrosiectau	-10	Canslo
Gwasanaeth Cefn Gwlad	-10	Canslo
Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF - Shared Prosperity Fund)	-20	Canslo
Tîm Trawsffurfio	-20	Canslo
Asesiadau Staudol (AMHP)	-20	Canslo
Trefniadau Gwaith Glanhau Stryd	-15	Canslo
Trefniadau ar ddyletswydd Priffyrdd	-15	Canslo
Gwaith Mewndirol ac Arfordirol y Strategaeth FCERM Lleol	-10	Canslo
Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	-5	Addasiad (lleihau)

- 3.3 Mae archwiliad Taliadau Ychwanegol i Weithwyr Gofal (rhan 1 a 2) wedi ei ychwanegu at y cynllun – cyfanswm o 15 diwrnod.

- 3.4 Cynyddwyd y dyddiau a glustnodwyd ar gyfer archwiliadau Grant Addysg Ôl-16, Manddaliadau ac Ad-daliadau Treth Cyngor – cyfanswm o 8 diwrnod.
- 3.5 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a chaiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddarau'n barhaus.
- 3.6 Bydd yn anochel bod unrhyw gynllun archwilio yn hyblyg er gallu gweithredu ar ddatblygiadau a materion risg uchel a ddaw i'r amlwg. Felly, bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau/blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg yn y cyfnod ansefydlog hwn.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2022/23, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.



Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Ar amserlen, heb eu gosod	Cyfanswm Tybiannol	Ar ôl	Statws yr Archwiliad
CORFFORAETHOL									
1-CORFF-09/2023/001	Cynghori ac Ymgynghoriaeth a Chefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	60.00	-5.00	55.00	4.04	5.89	9.93	45.07	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-11/2023/001	Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff	20.00	0.00	20.00	0.14	2.50	2.64	17.36	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-14/2023/001	Taliadau Cymorth Cyntaf	12.00	0.00	12.00	11.54	2.11	13.65	-1.65	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-19/2023/001	Trefniadau Diogelu- Sefydliadau	4.00	-4.00	0.00					Wedi ei ganslo
1-CORFF-20/2023/001	Cefnogi Adrannau-Gwasanaethau gyda trefniadau busnes yn dlyn pandemig Covid-19	15.00	0.00	15.00					Wedi ei gynllunio
1-CPGV-01/2023/001	Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol 2021	12.00	0.00	12.00	2.31	9.69	12.00	0.00	Adroddiad Terfynol
1-CPGV-01/2023/002	Diogelwch Seicolegol	12.00	0.00	12.00	0.14	10.69	10.82	1.18	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-02/2023/001	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	50.00	0.00	50.00	2.57	16.69	19.26	30.74	Gwaith Maes ar y gweill
1-CR-01/2023/001	Rheolaeth Categori Corfforaethol	25.00	-25.00	0.00	0.00	0.92	0.92	-0.92	Wedi ei ganslo
2ADN-ADY-SAL/2023	Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio	25.00	-25.00	0.00					Wedi ei ganslo
2-ADN-CGC-DPA/2023	Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	5.00	-5.00	0.00					Wedi ei ganslo
AN-ACY-03/2023/001	Trefniadau Talu ac Awdurdodi	25.00	-25.00	0.00	1.65	0.00	1.65	-1.65	Wedi ei ganslo
T-TAI-D01/2023/001	Cynllun Ffoaduriaid Wcraïn	20.00	0.00	20.00	9.26	16.45	25.70	-5.70	Adroddiad Terfynol
ADDYSG									
Adnoddau									
4-DAT-X-ADD/2023/001	Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	15.00	-15.00	0.00					Wedi ei ganslo
4-DAT-X-ADD/2023/002	Grant Datblygu Disgyblion	10.00	-10.00	0.00	0.00	0.61	0.61	-0.61	Wedi ei ganslo
4-DAT-X-ADD/2023/003	Grant Addysg Ôl-16	3.00	2.00	5.00	0.00	5.00	5.00	0.00	Adroddiad Terfynol
Ysgolion									
4-DAT-CYLL/2023	Balansau Wrth Gefn Ysgolion	8.00	0.00	8.00					Wedi ei gynllunio

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Ar amserlen, heb eu gosod	Cyfanswm Tybiannol	Ar ôl	Statws yr Archwiliad
EADDA21/2023/001	Cinio am Ddim	15.00	0.00	15.00	6.70	7.42	14.12	0.88	Gwaith Maes ar y gweill
EADDA30/2023/001	Canolfan Fusnes Ysgolion	15.00	0.00	15.00	0.00	14.68	14.68	0.32	Gwaith Maes ar y gweill
EADDA32/2023/001	Cronfeydd Answyddogol Ysgolion	35.00	0.00	35.00	15.35	22.80	38.15	-3.15	Adroddiad Terfynol
EADDA32/2023/AA	AA - Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn	10.00	0.00	10.00	0.00	2.97	2.97	7.03	
EADDA35/2023/001	Ysgolion Cyffredinol	5.00	0.00	5.00	0.00	1.23	1.23	3.77	Wedi ei gynllunio
AMGYLCHEDD									
Cynllunio ac Amgylchedd									
DCYN-RD-01/2023/001	Cynllunio - Trefniadau Cyfathrebu	12.00	0.00	12.00	0.07	4.12	4.19	7.81	Gwaith Maes ar y gweill
Gwarchod y Cyhoedd									
BB-YSG-10/2023/001	Diogelwch Taccis	15.00	0.00	15.00	11.99	3.16	15.15	-0.15	Adroddiad Terfynol
Trafnidiaeth a Chefn Gwlad									
3-AMG-GWLAD/2023/001	Gwasanaeth Cefn Gwlad	10.00	-10.00	0.00	0.00	0.86	0.86	-0.86	Wedi ei ganslo
3-AMG-GWLAD/2023/002	Traffig a Phrosiectau	10.00	-10.00	0.00	0.07	0.00	0.07	-0.07	Wedi ei ganslo
CEFNOGAETH GORFFORAETHOL									
Democratiaeth									
BB-YSG-18/2023/001	Hyfforddi Aelodau	10.00	0.00	10.00	11.39	3.16	14.55	-4.55	Adroddiad Terfynol
BB-YSG-18/2023/02	Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar Aelodau	12.00	0.00	12.00	8.96	3.04	12.00	0.00	Adroddiad Terfynol
CYLLID									
Ar draws yr adran									
AW-TG-12/2023/001	Diogelu Data	15.00	0.00	15.00	9.38	5.27	14.65	0.35	Gwaith Maes ar y gweill
Cyfrifeg									
AN-ACY-08/2023/001	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2021-22	4.00	0.00	4.00	3.77	0.00	3.77	0.23	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2023/002	Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2021-22	4.00	0.00	4.00	4.03	0.00	4.03	-0.03	Adroddiad Terfynol
Pensiynau a Chyflogau									
AL-CYF-18/2023/001	Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal (Rhan 2)	10.00	0.00	10.00	3.62	0.00	3.62	6.38	Adroddiad Terfynol
AL-CYF-18/2023/002	Taliadau Ychwanegol i Weithwyr Gofal	15.00	0.00	15.00	4.39	6.32	10.72	4.28	Adroddiad Terfynol

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Ar amserlen, heb eu gosod	Cyfanswm Tybiannol	Ar ôl	Statws yr Archwiliad
Refeniw									
AB-BD-01/2023/001	Taliadau Hunanynysu	100.00	0.00	100.00	83.88	0.00	83.88	16.12	
AB-BD-01/2023/002	Taliadau Cymorth Costau Byw	8.00	0.00	8.00	0.00	3.12	3.12	4.88	Gwaith Maes ar y gweill
AC-TR-01/2023/001	Ad-daliadau Treth Cyngor	12.00	1.00	13.00	0.00	13.61	13.61	-0.61	Adroddiad Terfynol
Technoleg Gwybodaeth									
AW-TG-06/2023/002	Ransomware	12.00	0.00	12.00	9.68	5.51	15.19	-3.19	Adroddiad Terfynol
ECONOMI A CHYMUNED									
Adfywio Cymunedol									
EADDZ-01/2023/001	Cronfa'r Degwm	3.00	0.00	3.00	3.00	0.00	3.00	0.00	Adroddiad Terfynol
Amgueddfeydd ac Orielau									
EDIW-OR-01/2023/001	Amgueddfa Lloyd George	3.00	0.00	3.00	0.34	2.64	2.97	0.03	Adroddiad Terfynol
EDW-TS-01/2023/001	Neuadd Dwyfor	12.00	0.00	12.00	0.00	11.99	11.99	0.01	Gwaith Maes ar y gweill
Rhaglenni Datblygu Economaidd									
DDAT-AD-02/2023/001	Cronfa Ffyniant Gyffredin	20.00	-20.00	0.00					Wedi ei ganslo
EHAMT-01/2023/001	Cynllun Rheoli Traethau	12.00	0.00	12.00	0.00	11.88	11.88	0.12	Adroddiad Terfynol
OEDOLION, IECHYD A LLESANT									
Ar draws yr adran									
AE-TAL-06/2023/001	Defnydd o Arian Parod	15.00	0.00	15.00	0.86	16.14	17.00	-2.00	Adroddiad Terfynol
GCC-02/2023/001	Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid	8.00	0.00	8.00	0.64	5.30	5.93	2.07	Gwaith Maes ar y gweill
GDAPR-GC05/2023/001	Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff	15.00	0.00	15.00	0.00	14.03	14.03	0.97	Gwaith Maes ar y gweill
Busnes									
5-GOF-BUS/2023/001	Tîm Trawsffurfio	20.00	-20.00	0.00					Wedi ei ganslo
Preswyl a Dydd									
5-GOF-CART1344/2023	Plas Gwilym	12.00	0.00	12.00	0.20	11.88	12.08	-0.08	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1350/2023	Hafod Mawddach	12.00	0.00	12.00	0.27	12.69	12.96	-0.96	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1355/2023	Bryn Blodau	12.00	0.00	12.00	6.14	7.27	13.41	-1.41	Adroddiad Terfynol

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Ar amserlen, heb eu gosod	Cyfanswm Tybiannol	Ar ôl	Statws yr Archwiliad
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD									
Plant a Theuluoedd									
GGWAS-P06/2023/001	Asesiadau Statudol (AMHP)	20.00	-20.00	0.00	0.00	2.73	2.73	-2.73	Wedi ei ganslo
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL									
Ar draws yr adran									
PZ02/2023/001	Clefyd Coed Ynn	12.00	0.00	12.00	0.00	9.20	9.20	2.80	Gwaith Maes ar y gweill
Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol									
PZ01/2023/001	Trefniadau Ar Ddyletswydd - Priffyrdd	15.00	-15.00	0.00					Wedi ei ganslo
Gwaith Bwrdeistrefol									
PBW-07/2023/001	Trefniadau Gwaith Glanhau Stryd	15.00	-15.00	0.00					Wedi ei ganslo
Rheoli Gwastraff a Strydoedd									
PBW-05/2023/001	Incwm Masnachol	10.00	0.00	10.00					Wedi ei gynllunio
TAI AC EIDDO									
Digartrefedd a Tai Cefnogol									
GDAPR-SP01/2023/001	Grant Cymorth Tai	10.00	0.00	10.00	7.08	2.91	9.99	0.01	Adroddiad Terfynol
Tai a Llesiant									
T-TAI-G10/2023/001	Grantiau i Brynwyr Tro Cyntaf	15.00	0.00	15.00	0.84	17.88	18.72	-3.72	Adroddiad Terfynol
Tir ac Eiddo'r Cyngor									
BA-EID-04/2023/001	Manddaliadau	15.00	5.00	20.00	0.00	16.97	16.97	3.03	Gwaith Maes ar y gweill
TÎM ARWEINYDDIAETH CORFFORAETHOL									
Gwasanaethau Cyfreithiol									
BB-YSG-16/2023/001	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	8.00	0.00	8.00	5.57	4.34	9.91	-1.91	Adroddiad Terfynol
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD									
Ar draws yr adran									
PYMG-CON/2023/001	Trefniadau Rheoli Prosiectau	8.00	0.00	8.00	0.00	5.88	5.88	2.12	Gwaith Maes ar y gweill
PYMG-CON/2023/002	Gwaith Mewndirol ac Arfordirol - Strategaeth Llifogydd a Rheoli Risg	10.00	-10.00	0.00	0.00	2.77	2.77		Wedi ei ganslo

Eitem 11

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	09 CHWFROR 2023
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 25 IONAWR 2023
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mai 2022 hyd 25 Ionawr 2023.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun 2022-23 yn y cyfnod hyd at 25 Ionawr 2023:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	24

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 25 Ionawr 2023, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2021-22	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 1
Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2021-22	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 2
Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal (Rhan 2)	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Uchel	Atodiad 3
Taliadau Ychwanegol i Weithwyr Gofal (rhan 1)	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Uchel	Atodiad 4
<i>Ransomware</i>	Cyllid	Technoleg Gwybodaeth	Digonol	Atodiad 5
Ad-daliadau Treth Cyngor	Cyllid	Refeniw	Digonol	Atodiad 6
Diogelwch Taccis	Amgylchedd	Gwarchod y Cyhoedd	Cyfyngedig	Atodiad 7
Taliadau Cymorth Cyntaf	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 8
Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 9
Cynllun Ffoaduriaid Wcrain	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 10
Cronfa'r Degwm	Economi a Chymuned	Adfywio Cymunedol	Uchel	Atodiad 11

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	Economi a Chymuned	Amgueddfeydd ac Orielau	Uchel	Atodiad 12
Cynllun Rheoli Traethau	Economi a Chymuned	Rhaglenni Datblygu Economaidd	Digonol	Atodiad 13
Cronfeydd Answyddogol Ysgolion (Rhan 2)	Addysg	Adnoddau	Cyfyngedig	Atodiad 14
Grant Addysg Ôl 16	Addysg	Adnoddau	Uchel	Atodiad 15
Cartref Gwilym Plas	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	Cyfyngedig	Atodiad 16
Cartref Mawddach Hafod	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	Cyfyngedig	Atodiad 17
Cartref Blodau Bryn	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	Cyfyngedig	Atodiad 18
Defnydd o Arian Parod	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Ar draws yr Adran	Digonol	Atodiad 19
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol	Cyfreithiol	Uchel	Atodiad 20
Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar Aelodau	Cefnogaeth Corfforaethol	Democratiaeth	Digonol	Atodiad 21
Hyfforddi Aelodau	Cefnogaeth Corfforaethol	Democratiaeth	Digonol	Atodiad 22
Grant Cymorth Tai	Tai ac Eiddo	Digartrefedd a Tai Cefnogol	Digonol	Atodiad 23

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Grantiau i Brynwyr Tro Gyntaf	Tai ac Eiddo	Tai a Llesiant	Digonol	Atodiad 24

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 25 Ionawr 2023:

- Cyngori ac Ymgynghori a Chefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd (*Corfforaethol*)
- Cefnogi Adrannau Gwasanaethau yn dilyn y pandemig Covid-19 (*Corfforaethol*)
- Diogelwch Seicolegol (*Corfforaethol*)
- Gwaith Atal Twyll – Fenter Twyll Genedlaethol (*Corfforaethol*)
- Trefniadau Recriwtio a Dargadw (*Corfforaethol*)
- Cinio am ddim (*Addysg*)
- Canolfan Fusnes Ysgolion (*Addysg*)
- Balansau Wrthgefn Ysgolion (*Addysg*)
- Ysgolion Cyffredinol (*Addysg*)
- Cynllunio – Trefniadau Cyfathrebu (*Amgylchedd*)
- Manddaliadau (*Tai ac Eiddo*)
- Diogelu Data (*Cyllid*)
- Taliadau Cymorth Costau Byw (*Cyllid*)
- Neuadd Dwyfor (*Economi a Chymuned*)

- Trefniadau Recriwtio a Dargadw (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Trefniadau Rheoli Prosiect (*Ymgynghoriaeth Gwynedd*)
- Incwm Masnachol (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)
- Clefyd Coed Ynn (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mai 2022 hyd 25 Ionawr 2023, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

DATGANIAD CYFRIFYDDU HARBYRAU 2021-22**1. Cefndir**

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wunedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn 2021/22, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
HIGH	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.
- 4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu dderbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.
- 4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth briodol.
- 4.4 Cefnogir ffigur asedau sefydlog ar y datganiadau cyfrifyddu gan gofrestr asedau.

**CYFRIFON PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD
(CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)**

1. Cefndir

1.1 Mae'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd yn gyd-bwyllgor a sefydlwyd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Gan mai Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i'r cyd-bwyllgor hwn, Cyngor Gwynedd sydd felly â'r cyfrifoldeb am gwblhau'r datganiad ariannol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cyngorau Gwynedd a Môn) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd bod trywydd archwilio priodol o'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a cynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod trywydd archwilio priodol ar gyfer sampl o drosglwyddiadau a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol. Yn ogystal, gwiriwyd bod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau perthnasol i'r cyfnod dan sylw, a bod TAW wedi ei drin yn briodol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad. Sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth priodol.

TALIADAU BONWS I WEITHWYR GOFAL

1. Cefndir

1.1 Ar 17 Mawrth 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu taliad bonws i staff y GIG a staff gofal cymdeithasol i gydnabod eu cyfraniad eithriadol yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r taliad yn daliad un tro yn cyfateb i £735 y pen, gyda didyniadau ar gyfer treth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn. Ar ôl didyniadau bydd y rhan fwyaf o weithwyr yn derbyn oddeutu £500. Daw'r bonws ar ben y taliad arbennig o £500 i weithwyr cartrefi gofal a gweithwyr gofal cartref a gyflwynwyd ym mis Mai 2020 i gydnabod eu gwaith yn ystod ton gyntaf y pandemig. Bydd y bonws hwn yn cael ei roi i grŵp ehangach o weithwyr gofal cymdeithasol, mynegir yn y canllawiau 'Cynllun cydnabyddiaeth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol' bod y swyddi cymwys Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys: "Holl staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol gan gynnwys; Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, penaethiaid gwasanaeth a'r holl staff o dan y rheolwyr hyn gan gynnwys staff cymorth, gweithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol."

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu taliadau bonws i weithwyr Gofal. Er mwyn cyflawni hyn, adolygwyd y trefniadau ar gyfer adnabod, cyfathrebu a dilysu taliadau, gwirio sampl o daliadau a wnaed i sicrhau eu bod yn gymwys, yn gywir ac amserol, yn ogystal ag adolygu trefniadau ar gyfer y broses apêl, adrodd at Lywodraeth Cymru ac ad-hawlio taliadau.

2.2 Cynhaliwyd yr archwiliad yma mewn dau rhan, rhan cyntaf (cyhoeddwyd adroddiad Chwefror 2022) yn edrych ar yr holl weithrediad o ryddhau'r canllawiau a'r ffurflenni cais i'r holl ddarpar ymgeiswyr, i dalu ymgeiswyr a chyflwyno cais ad-hawlio am arian i LC. Mae rhan 2 o'r archwiliad wedi cael ei gynnal ar ôl Mawrth 2022 i sicrhau bod y cais ad-hawlio arian terfynol i LC wedi cael ei gyflwyno yn gyflawn yn dilyn gwiriadau i adnabod taliadau dyblyg, a bod unrhyw faterion sydd yn sefyll megis anfonebu taliadau dyblyg wedi cael eu cynnal yn amserol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a phrosesu ceisiadau am daliadau bonws i weithwyr gofal. Darganfuwyd bod trefniadau priodol ar gyfer dosbarthu cyfarwyddiadau i holl weithwyr/rheolwyr, darparwyr allanol ac unigolion cymwysedig.
- 4.2 Gwelwyd bod yr holl ceisiadau wedi cael eu gweithredu'n gywir ac amserol ar gyfer sampl o ddarparwyr allanol a wiriwyd.
- 4.3 O'r sampl a wiriwyd gwelwyd bod taliadau wedi cael eu gweithredu ar sail derbyn cadarnhad gan y rheolwr llinell bod eu swyddogion yn deilwng i'r taliad drwy gofnodi a chyflwyno taenlen i'r swyddog cefnogol i'w gweithredu. Yn ogystal, gwiriwyd bod ffurflen gais gefnogol wedi cael ei chwblhau gan y swyddogion yma drwy holi y rheolwyr llinell am gopi o'r ffurflenni. Derbyniwyd 9/12 o'r ffurflenni hyn gyda 3 o reolwyr heb ymateb i'r cais.
- 4.4 Gwelwyd mai ond un apêl a dderbyniwyd yn ystod y gweithrediad taliadau bonws ac ymddengys bod y cais wedi cael ei drin yn briodol, yr ymgeisydd wedi derbyn ymateb a hynny o fewn amserlen briodol.
- 4.5 Dengys o sampl o daliadau bonws a wiriwyd bod y taliadau yn drethadwy ac wedi cael eu trin yn gywir yn y system gyflogau.
- 4.6 Cynhaliwyd gwiriadau am daliadau dyblyg wrth weithredu ar geisiadau a dderbyniwyd gan y Cyngor. O ran adnabod dyblygiadau gyda chynghorau eraill a'r Bwrdd Iechyd, adroddwyd bod y data wedi cael ei lwytho i system "Emyr" gan Lywodraeth Cymru, ac adnabuwyd cryn dipyn o ddyblygiadau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn rai Iechyd.
- 4.7 Cadarnhawyd bod cais addasedig am ad-daliad wedi cael ei gyflwyno i LC ym Mawrth 2022 yn dangos y ffigyrau terfynol yn dilyn cais hwyr gan un o'r darparwyr allanol am daliadau NI a Phensiwn ychwanegol. Cadarnhawyd bod y cais terfynol wedi cynnwys addasiadau taliadau dyblyg a'r elfen gweinyddiaeth.
- 4.8 Gwelwyd bod y taliadau wedi cael eu cysoni yn ôl i'r cyfriflyfr ac ymddengys bod y cais terfynol wedi'i gyflwyno'n gywir ac yn gyfan h.y. yn cynnwys yr holl cyfansymiau/costau sydd wedi cael eu talu allan i'r ymgeisydd yn ôl cysoniad.
- 4.9 O'r gwiriadau taliadau dyblyg, adnabuwyd ac anfonebwyd 9 o ddyledion i'r ymgeisydd/darparwyr allanol. Gwelwyd bod 4/9 o'r anfonebau wedi cael eu talu yn llawn gyda'r gweddill yn parhau gyda balans yn sefyll ar y system dyledwyr y Cyngor (ar 20/06/2022).

TALIADAU YCHWANEGOL I WEITHWYR GOFAL

1. Cefndir

- 1.1 Ar y 10fed o Chwefror 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth mewn datganiad ysgrifenedig y bydd taliad ychwanegol i staff gofal cymdeithasol er mwyn adlewyrchu cyflog byw gwirioneddol. Cyhoeddwyd bod y taliad yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal ac ym maes gofal cartref, yn y gwasanaethau oedolion a phlant a hefyd i Gynorthwyr Personol ariannir drwy Daliad Uniongyrchol. Gwneir y taliad i staff gofal cymdeithasol a oedd yn cael eu cyflogi mewn rôl cymwys ar 31 Mawrth 2022 a'r rhai a ddechreuodd mewn rôl cymwys rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022.
- 1.2 Telir swm gros o £1,498 sydd yn golygu y bydd gweithwyr gofal cymdeithasol ar y gyfradd dreth sylfaenol yn derbyn oddeutu £1,000 yn eu pecyn cyflog ar ôl didyniadau. Mae'r taliad ar gael mewn un taliad neu mewn rhandaliadau misol ac yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol ar ran Lywodraeth Cymru.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu taliadau ychwanegol i weithwyr gofal. Er mwyn cyflawni hyn, 'roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau gan sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer eu dilysu cyn eu talu a'u bod wedi'u gweinyddu yn unol â chyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Adroddir ar ganlyniad yr archwiliad mewn dau rhan; Rhan 1 yn dilyn dilysu a thalu ceisiadau i weithwyr gofal hyd at mis Awst 2022 a bydd rhan 2 yn adrodd ar y drefn ad-hawlio arian yn ôl gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2022 er mwyn sicrhau cywirdeb a chyflawnder y gwaith, gan gynnwys adnabod ac ad-ennill unrhyw ceisiadau dyblyg ble'n berthnasol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad – RHAN 1

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	0
ISEL	1

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwelwyd bod cyfarwyddiadau wedi eu derbyn gan Lywodraeth Cymru a bod y Cyngor wedi eu dilyn wrth weinyddu'r taliadau ychwanegol i weithwyr Gofal ac yn unol a'r amserlen.
- 5.2 Gwelwyd bod ffurflenni cais wedi cael eu dosbarthu i ddarparwyr allanol ar gyfer adnabod eu gweithwyr sydd yn cymwys i'r taliad. Cymharwyd sampl yn ôl i'r cyfriflyfr a gwelwyd bod anghysondebau mewn rhai o'r ceisiadau gyda'r taliadau. Yn ogystal, ymddengys bod taliadau dyblyg a chais heb rif YG wedi cael ei gyflwyno i'w dalu. Cyflwynwyd taenlen o eithriadau i'r Swyddog Categori a Ddatblygu i'w gwirio ac i chadarnhau eu cywirdeb. Cadarnhawyd bod taliadau dyblyg wedi cael eu adnabod, a bod camau wedi'u cymryd i'w hadennill. Ar wahân i'r eithriadau sydd wedi cael ei hadnabod a'u gweithredu, gwelwyd crynodeb o'r taliadau i ddarparwyr allanol oedd yn cyd-fynd â'r cyfriflyfr a'r ffurflenni cais.
- 5.3 Nodir y bydd y cysoniadau yn cael eu cynnal gan y Cyfrifydd Grŵp er mwyn cyflwyno'r ffigyrau ar gyfer y cais ad-hawlio arian yn ôl gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2022. Eglurodd y Swyddog Categori a Ddatblygu ei bod yn parhau i ddisgwyl am geisiadau hwyr am daliadau phensiwn a YG gan y darparwyr allanol. Eglurwyd bydd dau gais am ad-daliad yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, un ar gyfer taliadau hyd Medi 2022 ac yr ail gais ar gyfer gweddill o'r taliadau ble mae'r ymgeiswyr wedi dewis i dderbyn taliad mewn rhandaliadau, yn cynnwys yr elfen phensiynau a YG. Bydd ail rhan o'r archwiliad felly yn cael ei gynnal yn dilyn yr ail gais am ad-daliad ar ôl Hydref 2022.
- 5.4 Derbyniwyd sicrwydd gan y Swyddog Categori a Datblygu mai y rheolwyr llinell sydd yn gyfrifol am ddilysu ac adnabod swyddogion mewnol sydd yn gymwys i'r taliadau ychwanegol felly gweithredir ar y ceisiadau a dderbynnir gan y rheolwyr llinell yn unig.
- 5.5 Dadansoddwyd gwybodaeth am daliadau staff oddi ar y cyfriflyfr a chytunwyd sampl yn ôl i'r restr o daliadau staff mewnol y Swyddog Categori a Datblygu. Gwelwyd o'r teitl swydd bod rhain yn swyddi perthnasol ac yn ymddangos yn gymwysedig i'r taliad.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Swyddog Categori a Datblygu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cysoni a chyflwyno ffigyrau terfynol ar gyfer cais am ad-daliad i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau.**

MEDDALWEDD GWYSTLO (RANSOMWARE)**1. Cefndir**

- 1.1 Mae ymosodwyr meddalwedd gwystlo yn bygwth cyhoeddi neu cloi data personol dioddefwr os nad ydynt yn derbyn taliad penodol. Mae'r meddalwedd yn cloi mynediad at systemau neu yn amgryptio ffeiliau, ond nid oes sicrwydd caiff y data ei ryddhau os yw taliad yn cael ei wneud. Mae'r bygythiad i lywodraeth leol yn ddifrifol gan ystyried bod ymosodiadau dinistriol wedi eu cynnal ar Gyngor Hackney yn 2020.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn amddiffyn ei hun yn erbyn ymosodiadau meddalwedd gwystlo ac yn gallu ymateb ac adfer yn effeithiol pe byddai ymosodiad o'r fath. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio polisïau a gweithdrefnau TG, gwirio trefniadau hyfforddi staff, rheolaeth data a rheolaeth risg.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	4
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Nid oes un polisi penodol yn cwmpasu'r holl wybodaeth berthnasol am ymateb y Cyngor i ymosodiad meddalwedd gwystlo. Derbyniwyd gopïau o 3 polisi mewnol TG oedd yn berthnasol. Mae gwaith ar y gweill i gyfuno gwybodaeth a gwella'r Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad gyda chymorth allanol. Mae'n bwysig bod dogfennau perthnasol i ymateb y Cyngor mewn argyfwng yn cael eu diweddarau neu eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd 1 o'r 3 dogfen a wiriwyd heb cofnod o adolygiad ers Chwefror 2018.
- 5.2 Mae cefnogaeth digonol ar gael i'r Cyngor gan gyrff allanol mewn perthynas â pharatoi ar gyfer ac ymateb i ymosodiad meddalwedd gwystlo. Mae trefniadau priodol i sicrhau bod gwiriadau 'Penetration Testing' yn cael eu cynnal ar y Cyngor.
- 5.3 Nid oes gwiriadau yn cael eu cynnal ar drefniadau atal ymosodiad cwmnïau allanol sydd yn dal/prosesu data'r Cyngor. Cytunodd y Gwasanaeth buasai cynnal gwiriadau ar drefniadau atal ymosodiadau dalwyr/proseswyr allanol o ddata'r Cyngor yn reolaeth da er mwyn lliniaru'r risg perthnasol.
- 5.4 Mae llawer o wybodaeth a hyfforddiant priodol am ddiogelwch TG ar gael i staff. Wedi hyfforddiant diweddar ar draws y Cyngor gan gwmni 'Bob's Business', cynhaliwyd ymarferiad er mwyn asesu a gwella gwytnwch y Cyngor yn erbyn ymosodiadau 'Phising'. Gan weld y cyfraddau o staff oedd yn clicio ar linciau maleisus ffug yn ystod yr ymarferiad yn disgyn, o bosib oherwydd hyfforddiant, buasai'n fuddiol i fwy o staff y Cyngor gwblhau hyfforddiant diogelwch seibr.
- 5.5 Mae pwynt D8 yn y gofrestr risg gorfforaethol yn amlygu'r risg o ymosodiad seibr yn glir ac yn nodi'r camau sydd mewn lle er mwyn lliniaru'r risg.
- 5.6 Holiwyd y Pennaeth Cynorthwyol TG a'r Rheolwr Cydlynw Risg ac Yswiriant ynglŷn â threfniadau yswiriant y Cyngor ar gyfer ymosodiad seibr. Nid oes yswiriant o'r fath gan y Cyngor ar amser yr archwiliad. Mynegodd y Pennaeth Cynorthwyol TG ei fod yn rhywbeth sydd wedi ei ystyried yn y gorffennol ond efallai heb dderbyn ystyriaeth digonol. Cytunodd dylai ystyried a thrafod y gost a'r buddion o gael yswiriant o'r fath gyda swyddogion perthnasol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth a'r Peiriannydd Diogelwch wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Gweinyddwyr Systemau i wirio trefniadau atal ymosodiadau daliwyr/proseswyr allanol data'r Cyngor ac asesu eu ansawdd gyda chymorth y Peiriannydd Diogelwch.**
- **Sicrhau bod polisiau perthnasol yn cael eu hadolygu yn flynyddol neu pan fydd amgylchiadau yn newid (pa bynnag ddaw gyntaf).**
- **Sicrhau bod hyfforddiant diogelwch seibr ar gael i staff ble mae modd monitro pa staff sydd wedi ei gwblhau.**
- **Cynnal trafodaeth gyda swyddogion perthnasol i wirio anghenion y Cyngor am yswiriant ymosodiad seibr.**

AD-DALIADAU TRETH CYNGOR**1 Cefndir**

- 1.1 O fewn y flwyddyn ariannol 2021/22, casglodd y Cyngor oddeutu £93 miliwn o refeniw Treth Cyngor a gwnaethpwyd oddeutu £2.3 filiwn o ad-daliadau drwy gydol y flwyddyn.
- 1.2 Gall y gwasanaeth brosesu ad-daliad i unrhyw gyfrif ble mae credyd ar y cyfrif o ganlyniad i ordaliad gan y trethdalwr. Mae modd i'r trethdalwr wneud cais am ad-daliad Treth Cyngor neu mae'r system yn gweithredu ar hyn yn awtomatig ble caniateir h.y. pan mae cyfrif yn cael ei gau er mwyn clirio y credyd. Mae trethdalwyr yn derbyn ad-daliadau drwy BACS i'r cyfrif a daliwyd drwy debyd uniongyrchol neu drwy siec os nad yw cais am daliad drwy BACS wedi'i wneud.

2 Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu ad-daliadau Treth Cyngor. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o ad-daliadau a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu yn briodol, yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, a bod trywydd archwilio digonol i'w cefnogi.

3 Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4 Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwelwyd bod ad-daliadau Treth Cyngor yn cael eu gweithredu yn rheolaidd gyda swyddogion yn rhagweithiol pan ddaw i glirio balansau credyd a gynhyrchwyd ar y system trethi, Capita sef 'Academy Revenues'.
- 5.2 Gwelwyd bod trywydd archwilio ar y system Capita, neu dogfennaeth cefnogol ar system ffeilio DIP ar gyfer pob credyd a gynhyrchwyd ar y system, gan gynnwys trosglwyddiadau o fil i fil a throsglwyddiadau o gyfrif i gyfrif. Cadarnhawyd bod hawl prosesu trosglwyddiadau o gyfrif i gyfrif wedi cael ei gyfyngu at uwch swyddogion yn unig.
- 5.3 Cadarnhawyd nad oedd trosglwyddiadau rhwng systemau wedi digwydd h.y. o system trethi domesdig i system annomestig drwy wirio sampl o adroddiadau o drosglwyddiadau cafodd eu creu yn ystod 2021/22.
- 5.4 Cytunwyd sampl o daliadau BACS i'r rhediad BACS / adroddiadau Academy a sampl o daliadau gan gynnwys ad-daliadau siec oddi ar adroddiad ct6370a i'r cyfriflyfr a chysoniadau'r gwasanaeth, oedd yn ymddangos yn briodol. O'r ad-daliadau a wiriwyd, ni welwyd symiau yn uwch na'r 'remittance advice' a gynhyrchwyd.
- 5.5 Gwiriwyd hawliau staff ar gyfer mewnbynnu manylion taliadau BACS. Eglurwyd yr Ymgynghorydd Systemau Refeniw bod 'unrhyw aelod staff sydd â'r hawl i greu ad-daliad (ac â hawl mewnbynnu manylion banc ar gyfer debyd uniongyrchol) hefyd yn gallu creu a setio fyny ad-daliadau BACS ar y system'.
- 5.6 Cadarnhawyd bod paramedr wedi ei setio ar gyfer adnabod symiau uchel o daliadau ar y system h.y. mae'r adroddiad 'awdurdodi' wythnosol yn amlygu pob un sydd dros £1,000'. Mynegodd y Ymgynghorydd Systemau Refeniw fel un o'r pedwar swyddog sydd â hawl cymeradwyo'r adroddiad o ad-daliadau i'w dalu, bydd yn mynd drwy'r adroddiad ad-daliadau wythnosol, gan daro golwg mwy o ran enwau sydd ar y cyfrifon a'u cymharu i'r credydwyr a manylion banc sydd wedi'u sefydlu rhag unrhyw anghysondebau. Oherwydd y nifer o ad-daliadau dros £1,000 sydd yn cael eu creu bellach, nid yw'n ymarferol cynnal gwiriadau a ddilysu'r holl ad-daliadau cyn awdurdodi'r taliadau.
- 5.7 Mynegodd y Rheolwr Trethi gall drethdalwyr fod gyda'r gallu i gyflwyno dalu ei hunain drwy 'Open Banking' a phortal hunanwasanaeth yn y dyfodol, sy'n rhyddhau'r gwasanaeth o'r broses sefydlu taliadau ac yn lliniaru'r risg o brosesu ad-daliadau annilys a thwyllodrus. Am y tro, cytunwyd y Rheolwr Trethi a'r Ymgynghorydd Systemau Refeniw, wrth ystyried yr adnoddau a meddylfryd 'Ffordd Gwynedd', i ymddiried yn y staff gan dderbyn bod elfen o risg yn parhau. Mae'r Archwiliwr yn derbyn ymateb gan y Gwasanaeth Treth Cyngor ac felly nid oes cynllun gweithredu wedi'i gynllunio.

DIOGELWCH TACSIS**1. Cefndir**

1.1 Mae Gwasanaeth Trwyddedu Tacsis Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am benderfynu os yw ymgeisydd neu ddeilydd trwydded presennol yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr/gweithredwr cerbyd hurio preifat a/neu gerbyd hacni, yn ogystal â phrosesu ceisiadau am drwyddedau cerbyd.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer trwyddedu tacsis i sicrhau diogelwch defnyddwyr. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio fod sampl o geisiadau ers Mehefin 1af 2021 wedi eu prosesu yn unol â'r meini prawf a'r Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni 2014, a bod gwiriadau priodol wedi eu cynnal ar gerbydau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r Cyngor yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 O'r sampl o 28 cais, nid oedd y dystiolaeth ddisgwyliedig wedi ei dderbyn ar gyfer 50% o'r ceisiadau, gyda gwiriadau ATGC, gwiriadau CThEM a tystysgrifau gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS) ar goll. Cadarnhaodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Amgylchedd) fod y swyddogion perthnasol a'r Tîm Gweinyddol yn gyfrifol am atodi pob dogfen gyda'r ceisiadau perthnasol ar system 'Tascomi', gan ychwanegu fod y dogfennau yn debyg o fod wedi eu derbyn ond heb eu atodi. Yn ogystal, gwelwyd fod un cais newydd am drwydded wedi ei ganiatáu er fod y tystysgrif DBS yn hynach 'na 3 mis oed, gyda un cais newydd am drwydded wedi ei brosesu heb gofnod fod taliad wedi ei dderbyn. Eglurwyd bod y gwasanaeth wedi bod o dan bwysau sylweddol dros y flwyddyn diwethaf.
- 5.2 Ni welwyd dystiolaeth fod 5 gyrrwr â gyflwynodd cais newydd am drwydded wedi cwblhau cwrs Diogelu. Cadarnhawyd nad oedd hwn yn ofyniad mandadol ar hyn o bryd, ond y byddai yn y dyfodol. Mae'r gwasanaeth felly yn gofyn i weld y tystysgrifau, ond yn parhau i brosesu ceisiadau os nad oes tystysgrif yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd.
- 5.3 Detholwyd sampl o 30 cais (7.7%) ar gyfer eu gwirio yn fanwl. Ni welwyd fod y dystiolaeth disgwyliedig wedi ei dderbyn ar gyfer sawl cais, gyda dogfennau cofrestru, tystysgrifau MOT a dogfennau yswiriant ar goll. Gwelwyd fod un cais wedi ei gymeradwyo er fod y dogfennau yswiriant atodwyd gyda'r gais yn cadarnhau fod y polisi wedi dod i ben. Derbyniwyd y cais ar 5ed o Fai, 2022, gyda'r polisi wedi dod i ben ers Mehefin 14eg, 2021.
- 5.4 Oherwydd pwysau gwaith a lefelau isel o staff, ni dderbyniwyd gwybodaeth mewn perthynas â sawl gwiriad di-rybydd roedd y gwasanaeth wedi eu cynnal yn y flwyddyn diwethaf er mwyn sicrhau fod deilyddion yn gweithredu fel y disgwyl. Fodd bynnag, gwelwyd cofnodion yr ymweliad diweddaraf. Gwelwyd fod y gwasanaeth wedi ymateb a gweithredu yn brydlon i'r honiad o gerbyd anaddas yn cael ei ddefnyddio i dywys plant i'r ysgol. Gyda cadarnhad Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Amgylchedd) fod dau drwydded wedi eu hatal yn ddiweddar, un yn dilyn canlyniad bositif i brawf cyffuriau, ac yr ail oherwydd achos diogelu difrifol, yn tystio fod y gwasanaeth yn cosbi unrhyw ddeilydd trwydded sydd dim yn gweithredu yn unol â'r rheolau.

6. Camau Gweithredu

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau bod swyddogion perthnasol â'r Tîm Gweinyddol yn derbyn ac atodi'r dogfennau cyfredol perthnasol, i'r ceisiadau ar system 'Tascomi' drwy atgoffa'r staff o'r gweithdrefn, ac y Rheolwr i wirio cofnodion ar hap yn reolaidd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.
- Sicrhau bod y staff perthnasol yn derbyn y taliad llawn gyda'r dderbynneg wedi atodi i'r cais am drwydded cyn ei phrosesu drwy atgoffa'r staff o'r gweithdrefn.
- Parhau i lunio polisi newydd ynghyd â ddarparu'r hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau cysondeb yn y drefn prosesu trwyddedau yrru ar draws Wynedd.

TALIADAU CYMORTH CYNTAF**1. Cefndir**

1.1 Mae staff sydd wedi'i dynodi fel cymhorthyddion cyntaf yn derbyn lwfans o £8 y mis gan y Cyngor. Mae cyfrifoldeb arnynt i ymateb i ddigwyddiad yn y swyddfa ble fod angen cymorth cyntaf. Mae'n rhaid iddynt gadw eu tystysgrif yn gyfredol a sicrhau bod yr offer angenrheidiol ganddynt yn y gweithle.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i weinyddu taliadau cymorth cyntaf gan sicrhau mai swyddogion cymwysedig yn unig sy'n derbyn y taliadau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cymwysterau cymorth cyntaf sampl o swyddogion sydd yn derbyn taliadau, yn ogystal â gwirio trefniadau rheoli y gweithwyr yma.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mynegai Gweithdrefn Cymorth Cyntaf, "bydd pob cymhorthydd cyntaf yn mynychu cwrs cymorth cyntaf tri diwrnod ac yna cwrs adnewyddu dau ddiwrnod pob tair blynedd". Gwiriwyd sampl o 9 aelod o staff oedd yn derbyn taliadau cymorth cyntaf ar amser yr archwiliad. Roedd 8 allan o 9 aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant llawn 3 diwrnod neu gwrs adnewyddu 2 ddiwrnod yn y 3 mlynedd diwethaf. Roedd 1 aelod o staff wedi parhau i dderbyn taliadau er eu bod heb dderbyn hyfforddiant cymorth cyntaf ers 2015.

- 5.2 Mae trefn golau traffig wedi ei sefydlu o fewn y Modiwl Datblygu Staff. Mae hyn yn dangos hyfforddiant cymorth cyntaf staff gyda chylch gwyrdd, ambr neu goch wrth ei ymyl. Mae gwyrdd yn golygu hyfforddiant dilyn, ambr yn golygu bod angen ei adnewyddu yn fuan a choch yn golygu bod yr unigolyn yn hwyr yn mynychu cwrs adnewyddu. Mae'n bosib rhedeg adroddiad o'r wybodaeth yma. Mynegodd y Swyddog Cefnogol Dysgu a Datblygu buasai defnyddio'r adroddiad yma yn fuddiol i sicrhau bod hyfforddiant staff yn gyfredol ac nad oes taliadau yn cael eu gwneud i staff sydd bellach yn anghymwys.
- 5.3 Yn dilyn Covid, mae llawer o staff wedi newid eu trefn gwaith i weithio o adref yn barhaol. Os nad ydynt yn y swyddfa, nid yw'r staff ar gael i gynnig cymorth cyntaf. Mae gwaith wedi ei gynnal i sicrhau nad oes aelodau o staff yn derbyn lwfans cymorth cyntaf os ydynt yn gweithio o adref. Mae trefniadau gwaith unigolion yn gallu newid ac dylai adolygiadau achlysurol cael eu cynnal o leoliadau gwaith cymhorthyddion cyntaf.
- 5.4 Gwiriwyd sampl o bosteri a blychau cymorth cyntaf staff. Gwelwyd bod y posteri yn gyfredol ac wedi eu diweddarau i arddangos pa staff sydd ar gael fel gymhorthyddion cyntaf. Mae'r holl wybodaeth am gymhorthyddion cyntaf a'u lleoliadau hefyd ar gael ar y mewnrwyd cymorth cyntaf. Cymharwyd y wybodaeth yma yn erbyn yr hyn ar y posteri a gwelwyd bod un aelod o staff yn parhau wedi ei henwi ar y fewnrwyd oedd ddim ar y posteri bellach. Dylid sicrhau bod y fewnrwyd yn cynnig y wybodaeth mwyaf cyfredol phosib. Gwelwyd bod cynnwys y blychau cymorth cyntaf yn briodol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Arweinydd Tîm Swyddfeydd a'r Swyddog Cefnogol Dysgu a Datblygu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Rhedeg adroddiadau MoDS yn gyfnodol er mwyn gwirio pa staff sy'n gymwys am daliadau, gan derfynu taliadau staff sydd heb adnewyddu eu hyfforddiant.
- Cynnal adolygiadau achlysurol o leoliad gwaith cymhorthyddion cyntaf a therfynu taliadau staff os ydynt yn newid i weithio o adref yn barhaol.
- Sicrhau bod y mewnrwyd cymorth cyntaf yn gyfredol.

DYLETSWYDDAU ECONOMAIDD GYMDEITHASOL 2021**1. Cefndir**

- 1.1 Nôd y ddyletswydd a ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2021 yw annog gwell prosesau o wneud penderfyniadau strategol, sy'n rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i ystyried anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol..

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd gwirio pa gamau sydd wedi eu rhoi mewn lle ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd. Gwneir hyn drwy wirio pa ddata economaidd-gymdeithasol sydd wedi ei gasglu ar gyfer llywio penderfyniadau strategol, yr hyfforddiant sydd mewn lle i swyddogion ac aelodau, ac asesiadau sydd wedi eu gwneud er mwyn ystyried anghydraddoldeb. Mae'r archwiliad yma yn ail-ymweld â'r maes archwiliwyd yn ystod 2021-22, ble cytunwyd nad oedd digon o amser wedi mynd heibio er mwyn gallu ffurfio barn ar y cydymffurfiaeth â'r ddeddf.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Er mwyn cynorthwyo swyddogion i ystyried y nodweddion cydraddoldeb wrth lunio polisiau, crëwyd templed ffurflen asesiad effaith newydd ar y cyd gydag Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, sy'n adeiladu ar y templed sydd wedi bod mewn lle ers rhai blynnyddoedd. Bydd yr asesiad terfynol yng Ngwynedd yn ddogfen electroneg, a bydd digon o gymorth integredig ar gael i'r defnyddiwr wrth gwblhau yr adrannau er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb. Yn anffodus, mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu'r ffurflen newydd wedi llithro sawl tro, gyda'r oediad diweddaraf yn deillio o adnoddau TG yn ailgyfeirio at greu system pwrpasol ar gyfer ffoaduriaid Wcraïn. Felly, ar amser yr archwiliad, mae ffurflen asesiad interim yn parhau mewn lle.
- 5.2 Gwiriwyd adroddiadau a'r dogfennau atodol a gyflwynwyd i'r Cabinet ers i'r ddyletswydd ddod i rym ar y 1af o Ebrill 2021. Fel adroddwyd yn adroddiad archwilio mewnol Rhagfyr 2021, gwelwyd bod rhai o'r adroddiadau cynnar a gyflwynwyd wedi defnyddio hen dempled asesiad effaith yn hytrach na'r fersiwn interim sydd wedi ei addasu i gynnwys yr elfen economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag gwelwyd erbyn hyn bod y fersiwn interim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer penderfyniadau strategol. Mae'n ddibynnol ar y cyd-destun os yw'r penderfyniadau yn wirioneddol strategol neu beidio, ac os oes amheuaeth mae'r Cyngor o blaid ymgorffori'r ddyletswydd.
- 5.3 Dylai asesiadau effaith gael eu cefnogi gan ddata er mwyn cyfiawnhau y datganiadau. Nid yw ystadegau ar ben eu hunain yn debygol o fod yn ddigonol ac felly er mwyn dod i ddeall profiad bywyd trigolion gwahanol, ardaloedd a mudiadau perthnasol, mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu gyda mudiadau er mwyn casglu barn a phrofiadau grwpiau o unigolion efo nodweddion gwarchoddedig, a bydd y data yn rhan o'r ffurflen asesiad terfynol electroneg.
- 5.4 Mae hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion ac i Aelodau, a crëwyd teilsen penodol ar gydraddoldeb ar fewnrwyd y Cyngor sy'n cynnwys manylion am y ddyletswydd newydd. Fodd bynnag, roedd y niferoedd o Aelodau mynychwyd yn isel, ac felly mae bwriad cynnal rhagor. Addaswyd y modiwl e-ddysgu a darparwyd cwrs o'r enw 'Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb' oedd yn cynnwys rhan benodol ar y drefn asesu effaith.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau a rheolwyr o'r ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb newydd**
- **Ymgysylltu gyda mudiadau er mwyn casglu barn a phrofiadau grwpiau o unigolion efo nodweddion gwarchoddedig**
- **Defnyddio offeryn tracio cynnydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol er mwyn cynorthwyo y Cyngor i fodloni gofynion y ddyletswydd, ac i fynd y tu hwnt i'r gofynion i sicrhau newid ystyrlon yn y ffordd y gwneir penderfyniadau pwysig.**

CYNLLUN FFOADURIAID WCRÁIN**1. Cefndir**

- 1.1 Yn sgîl ymosodiad Rwsia ar Wcráin mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi sefydlu cynllun Cartrefi i Wcráin i helpu pobl i ddod i'r DU os ydynt yn ffoi rhag y rhyfel ac os nad oes ganddynt gysylltiadau teuluol yn y DU. Cychwynnodd y Cynllun ar 18 Mawrth 2022, ac erbyn hyn mae dros 200 o ffoaduriaid wedi cyrraedd Gwynedd.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i gefnogi'r cynllun Cartrefi i Wcráin. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio pa drefniadau mae'r Cyngor wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod ffoaduriaid Wcráin yn cael y cymorth priodol, gan gynnwys sicrhau bod swyddogion atebol wedi cael eu penodi, bod archwiliadau sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a bod archwiliadau diogelu yn cael eu cynnal ar y noddwyr. Yn ogystal, gwiriwyd cymorth ategol megis addysg a budd-daliadau, a'r trefniadau ariannol gan gynnwys gwirio bod y gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau ariannol yn unol â'r gofynion. Nid yw'r archwiliad yn cwmpasu y cynllun Teuluoedd o Wcráin sy'n ran o gynllun uwch-noddwr Llywodraeth Cymru.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae gofyn i awdurdodau lleol gynnal archwiliadau sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob oedolyn sy'n nodd. Mewn achosion lle mae'r pobl sy'n cyrraedd yn blant neu'n oedolion agored i niwed, bydd angen archwiliad DBS manwl gyda rhestrau gwahardd. Fe wiriwyd sampl o 84 o noddwyr a gwelwyd bod 25 gyda statws DBS Cam 1 (Cais yn cael ei dderbyn a'i ddilysu), 2 noddwr efo statws Cam 2 (gwiriadau yn erbyn Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC)) a 45 noddwr efo statws Cam 3 (gwiriadau yn erbyn y Rhestrau Gwahardd Oedolion a Phlant). Gwelwyd bod 4/84 yn parhau i ddisgwyl am DBS gyda 3 yn disgwyl i'r ffoaduriaid cyrraedd y wlad ac un wedi'i leoli ers 6ed o Hydref 2022.
- 5.2 Mae angen i eiddo noddwyr gael eu harchwilio gan y Cyngor am ddiogelwch. O'r sampl o 84 o noddwyr â wiriwyd, gwelwyd bod 60 eiddo wedi derbyn archwiliad, 18 yn disgwyl am archwiliad a 6 wedi tynnu allan o'r cynllun. Gwelwyd bod 4 eiddo yn disgwyl archwiliad ers mis Mai 2022, 3 ers mis Mehefin a 1 ers mis Medi a'r gweddill heb ffoaduriaid wedi cael eu lleoli. O'r rhestr o eiddo sydd ddim wedi derbyn archwiliad eto, gwelwyd bod rhain i gyd gyda gwiriadau DBS a chyswllt ymweliad lles wedi'u cynnal ers cael eu lleoli.
- 5.3 Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda'r Groes Goch i ddarparu taliad interim o £200 y pen ar gardiau 'pre-paid' am gostau cynhaliaeth i ffoaduriaid unwaith iddynt gyrraedd eu llety. Yn ystod yr archwiliad, nid oedd y cyfanswm o daliadau £200 yn cysoni yn ôl i'r cod gwariant Ffoaduriaid Wcráin yn y cyfriflyfr, ond cafwyd eglurhad bod mwyafrif o'r arian wedi ei dalu drwy cod gwariant yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, a bod trefniadau mewn llaw ar gyfer adnabod y taliadau a'u cywiro/ad-dalu y cod gwariant.
- 5.4 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu lle mewn ysgol i'r plant, a chynorthwyo teuluoedd i gael gwaith a/neu unrhyw fudd-daliadau maent yn gymwys i. Gwelwyd bod ymweliadau lles yn cael eu trefnu unwaith mae'r unigolyn yn cyrraedd Gwynedd a bydd swyddog cyfrifol yn holi ynglŷn ag addysg i'r plant a budd-daliadau neu gwaith yn ystod yr ymweliad.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Arweinydd Tîm Gorfodaeth (Tai) ac Arweinydd Busnes Tîm Wcrain wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Dyrannu achosion ar gyfer archwilio, cwblhau'r archwiliadau'n amserol ac uwch lwytho'r arolwg i'r system CRM cyn gynted â phosibl wedi eu cwblhau.**
- **Sicrhau bod noddwyr yn derbyn, cwblhau a chyflwyno dadleniad, a sicrhau bod noddwyr sydd heb ddadleniad wedi ei adnabod a gwneud cyswllt cyn gynted â phosibl.**

CRONFA'R DEGWM**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Cronfa'r Degwm yn deillio o Ddeddf Eglwysi Cymru 1914. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r gronfa ac yn dosbarthu llog o'r gronfa ar ffurf grantiau yn flynyddol i elusennau cofrestredig yng Ngwynedd er mwyn hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau. Mae modd i sefydliadau megis Eisteddfodau lleol, gweithgareddau celfyddydol, mudiadau addysg, hamdden a chwaraeon, cadwriaethol ac elusennau sy'n cefnogi pobl wael neu bobl anabl geisio am y grant. Mae'n bosib gwneud cais am unrhyw swm, ond bydd grantiau unigol yn dueddol i fod rhwng £100 a £3,000.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal gwiriad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm am y flwyddyn ariannol 2021/22, yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau, mae'n rhaid cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon os yw incwm blynyddol y gronfa dros £25,000. Buddsoddwyd arian y gronfa er mwyn denu llog, ac felly rhagorwyd y trothwy incwm ym mlwyddyn ariannol 2021/22.
- 4.2 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigurau.

CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**1. Cefndir**

1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a chartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog y DU. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000 drwy gyfraniad Cyngor Gwynedd, rhaid cyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennau am 2021-22, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2021-22, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfriflyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2021-22 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

CYNLLUN RHEOLI TRAETHAU**1. Cefndir**

- 1.1 Mae gan Gwynedd arfordir a thraethau sy'n denu trigolion lleol a nifer o ymwelwyr, yn enwedig dros fisoedd yr haf. O ganlyniad i natur traethau, mae diogelwch bywydau yn faes o risg uchel sydd wedi ei adnabod felly ar y gofrestr risg gorfforaethol, lle mae angen i Gyngor Gwynedd liniaru risgiau cyn gymaint a sy'n ymarferol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau addas a chymesurol mewn lle er mwyn diogelu ymwelwyr i draethau Gwynedd, drwy liniaru neu amlygu risgiau, yn ogystal â sicrhau fod prosesau mewn lle i ymateb i ddigwyddiadau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio Cynllun Rheoli Traethau Gwynedd gan sicrhau bod asesiadau risg cyflawn a chyfredol mewn lle, ac archwilio pa gamau sydd mewn lle i liniaru'r risgiau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	4
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae Cynllun Rheoli Traethau Gwynedd yn gynllun byw a baratowyd yn 2019 am gyfnod hyd at 2022.

- 5.2 Gan fod yr arfordir mor eang, mae yna ddibyniaeth ar y cyhoedd i gynorthwyo'r Gwasanaeth Morwrol drwy adrodd ar unrhyw ddiffygion a pheryglon neu unrhyw ddigwyddiadau ar arfordir a thraethau Gwynedd. Er nad yn drefn swyddogol, mae'n effeithiol er mwyn i'r Gwasanaeth Morwrol adnabod a gweithredu ar ddiffygion beryglon mor fuan â phosib. Byddai'n werth ystyried os oes modd manteisio ar hyn ymhellach er mwyn cryfhau rheolaethau a lliniaru risgiau, yn enwedig tu allan i'r tymor.
- 5.3 Yn hanesyddol, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ceisio am wob'r y Faner Las er mwyn hysbysu safon eu traethau a denu ymwelwyr. Erbyn heddiw nid yw'r Gwasanaeth yn ei flaenoriaethu. Fodd bynnag mae'r safonau a anelir tuag atynt gan y Gwasanaeth yn gyfwerth a gofynion y Faner Las. Mae'r broses o ymgeisio am statws y Faner Las yn gostus a hir wyntog i'r Cyngor ac mae'n ofynnol gan Cadwch Cymru'n Daclus (CCD) i ymgeiswyr gyflwyno asesiadau risg mewn ffurf penodol. Mae Gwynedd yn defnyddio system asesu risg mewnol a golygir bydd cydymffurfio gyda gofynion CCD yn dyblygu gwaith ac ychwanegu elfennau sydd ddim yn ychwanegu gwerth.
- 5.4 Mae argyfyngau yn anochel o bryd i'w gilydd. Mae goblygiadau hyn yn amrywio o'r angen am ddarpariaeth cymorth cyntaf sylfaenol i alw am y gwasanaethau brys. Mae'n hanfodol nad yw staff yn peryglu eu hunain ar unrhyw achlysur er pa mor anodd yw'r sefyllfa ac os oes unrhyw bwysau gan y cyhoedd.
- 5.5 Mae'r Gwasanaeth yn ceisio addasu er mwyn lleihau'r defnydd o arian parod wrth dalu i gael mynediad ac i lansio. Mae traeth Morfa Bychan yn delio gyda llawer o arian parod yn ystod y tymor a byddai'r gallu i ddefnyddio system talu PDQ/POS dibynadwy yn fwy buddiol ac effeithlon gan hefyd leihau'r risg a'r amser treulir gan staff i ddelio gydag arian parod. Y bwriad yw darparu trydan a mynediad 'Wi-Fi' yng nghanban y staff.
- 5.6 Oherwydd natur y maes mae'n anorfod bod risgiau yn parhau er gwaethaf pob ymdrech i'w lliniaru. Mae'r gwasanaeth yn ceisio goruchwyllo'r prif draethau poblogaidd yn ystod y tymor ond gyda'r nos a gweddill y flwyddyn nid yw hyn yn ymarferol nac yn bosib o ran adnoddau. Dim ond cynghori defnyddwyr ac ymwelwyr yn hytrach na eu gorfodi sy'n bosib ac o ganlyniad mae elfen o risg yn parhau yn anochel. O ganlyniad nid yw'n briodol darparu lefel sicrwydd uchel yn y maes hwn er nad yw hyn yn adlewyrchiad o drefniadau a pherfformiad y gwasanaeth.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Morwrol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Diweddarau ac addasu Cynllun Rheoli Traethau ar gyfer tu hwnt i ddiwedd 2022.**
- **Llunio trefn i gyflwyno holiadur yn targedu defnyddwyr traeth er mwyn derbyn barn ar ansawdd a materion diogelwch traethau ac adolygu trefniadau o weithredu yn brydlon ar ddiffygion a pheryglon.**
- **Ystyried os oes gwerth i Gyngor Gwynedd barhau i geisio am Statws y Faner Las.**
- **Ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o gynyddu'r defnydd o system talu PDQ gan leihau'r ddibyniaeth ar ddelio gyda arian parod.**

CRONFEYDD YSGOL (RHAN 2)**1. Cefndir**

1.1 Mae paragraff 16.22.1 o gyfansoddiad y Cyngor yn nodi:

'Lle mae Swyddog y Cyngor, yn rhinwedd ei swydd, yn gyfrifol am arian neu nwyddau sydd yn eiddo Cronfa sy'n gysylltiedig ag un o sefydliadau'r Cyngor, ac amcan y gronfa yn cyd-fynd â'r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor:

(a) Rhaid i'r Swyddog gadw'r holl arian neu nwyddau sy'n eiddo'r gronfa answyddogol ar wahân i rai'r Cyngor.

(b) Rhaid cadw cyfrifon iawn, a'u cadw ar wahân i rai'r Cyngor.

(c) Rhaid i'r corff sy'n rheoli'r gronfa benodi person cymwys yn archwiliwr, i archwilio gweithgareddau'r gronfa yn flynyddol, ac i adrodd i'r corff sy'n rheoli'r gronfa neu i'r Llywodraethwyr yn achos ysgolion neu golegau.

(ch) Rhaid i'r adroddiadau blynyddol hyn fod ar gael i'r Archwiliwyr Mewnol eu harchwilio os gofynnant amdanynt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a gweinyddu addas mewn lle ar gyfer cronfeydd ysgol. Er mwyn cyflawni hyn, detholwyd sampl o ysgolion, a chynhaliwyd archwiliad llawn ar y cyfrifon hyd at 2021-22.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	0
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Detholwyd sampl o 14 ysgol gan sicrhau trawstoriad o ysgolion uwchradd, cynradd, arbennig a dilynol. Roedd balansau'r cronfeydd yn amrywio, ond roedd swm sylweddol o arian gydag un o'r ysgolion. Ni fydd yr ysgolion yn derbyn adroddiad unigol yn dilyn yr archwiliad yma ond maent wedi eu hysbysu o'r gwendidau perthnasol i'w cronfa.
- 5.2 Roedd gan 9 o'r ysgolion bolisi cronfeydd ysgol gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r polisi cyfredol sef 'Canllawiau i Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgol 2010'. Er mai hwn yw'r polisi cyfredol, mae'n dyddio yn ôl i 2010 ac nid yw'n cwmpasu prosesau sydd fwy cyffredin heddiw, e.e. taliadau ar-lein a defnydd o gardiau banc, yn ogystal â'r drefn ynglŷn â chau cronfeydd. Adnabuwyd bod angen adolygu'r polisi yn ystod archwiliad Cronfeydd Ysgol (Rhan 1) ond nid yw hyn wedi digwydd hyd yma.
- 5.3 Wrth archwilio'r cyfrifon, darganfuwyd nad oedd gan sawl ysgol lyfr arian, sef cofnod llawn o incwm a gwariant y cyfrif. Gwelwyd achosion eraill ble roedd cofnodion o'r incwm a gwariant yn cael eu copïo o'r datganiadau banc yn hytrach nag yn cael eu cofnodi pan dderbynnir, neu pryd gwnaethpwyd y taliad. Er bod gan y mwyafrif o'r ysgolion drefniadau cysoni misol, nid oedd y trefniadau yma'n ddigonol ym mhob achos.
- 5.4 Gwelwyd bod y cronfeydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y disgyblion yn bennaf, ond darganfuwyd ambell i wariant cynhennus. Yn ogystal, gwelwyd bod rhai ysgolion yn derbyn arian parod ond nid oeddynt yn bancio'r holl arian gan eu bod yn eu defnyddio ar gyfer ad-daliadau i staff am adnoddau.
- 5.5 Mae sawl ysgol eisoes wedi, neu yn dymuno symud i ffwrdd o ddefnyddio sieciau drwy fabwysiadu bancio ar-lein neu gardiau banc. Ymddengys bod gan yr ysgolion drefniadau priodol mewn lle ar gyfer hyn ond am un lle nid oedd unrhyw wahaniaeth dyletswyddau.
- 5.6 Nid oedd gan sawl ysgol drefn o gynnal archwiliad o'u cronfeydd, sydd i fod i gael ei gynnal gan berson cymwys ac annibynnol. Derbyniwyd tystiolaeth gan 5 ysgol yn unig eu bod yn cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig i'r Corff Lywodraethu, gyda rhai eraill heb eu harchwilio ers sawl blwyddyn.

6. Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Codi ymwybyddiaeth** Penaethiaid cynradd newydd o'r gronfa ysgol a'r trefniadau gweinyddu priodol.
- **Cynnig cymorth ychwanegol i weinyddu cofnodion cronfeydd yr ysgolion cynradd sydd eisoes yn derbyn cymorth gan y swyddogion cefnogi ysgol.**
- **Dosbarthu'r fersiwn cyfredol o'r polisi 'Canllawiau i Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgol 2010' i'r ysgolion.**

DARPARIAETH ADDYSG ÔL-16 2021-22**1. Cefndir**

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflenwi darpariaeth addysg ôl-16, sef cyllid o £3.7m ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion prif ffrwd ynghyd a hyd at £180k ar gyfer dysgu oedolion. Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £300k i Wynedd er mwyn darparu oriau dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr llawn amser. Darparwyd yr arian ychwanegol hwn sef 'Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr' i gydnabod bod dysgwyr wedi profi tarfu ar eu dysgu o ganlyniad i bandemig y coronafeirws ac angen cymorth ychwanegol yn ystod blwyddyn academiaidd 2021-22 er mwyn aros ar eu llwybr addysgol a chwblhau eu cymhwyster yn llwyddiannus.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif dyraniad 'Chweched Dosbarth A Dysgu Oedolion yn y Gymuned' ar gyfer y flwyddyn 2021-22.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb tystysgrif dyraniad 'Chweched Dosbarth A Dysgu Oedolion yn y Gymuned' ar gyfer y flwyddyn 2021-22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

CARTREF PLAS GWILYM**1. Cefndir**

- 1.1 Mae cartref Plas Gwilym wedi ei leoli ym mhentref Penygroes ac yn cynnig gofal canolradd byr neu hir dymor, yn ogystal â gofal seibiant i hyd at 27 o breswylwyr dros 55 oed.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel y ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	7
CANOLIG	5
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Nid yw cynlluniau gofal preswylwyr yn derbyn adolygiad rheolaidd. Gwelwyd nad oedd 1 cynllun wedi ei adolygu ers Awst 2021. O'r sampl o 3 cynllun gofal gwiriwyd, ni welwyd restr o eiddo'r preswylwyr. Cadarnhaodd y Rheolwr fod y cynlluniau yn y broses o gael eu ddiweddarau.
- 5.2 Nid yw pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth chwarterol fel y disgwyl. O'r sampl o 4 aelod staff, gwiriwyd eu cofnodion goruchwyliaeth a gwelwyd fod 2 wedi eu goruchwyliaeth o fewn y 3 mis diwethaf, gyda'r gweddill heb eu goruchwyliaeth ers Mehefin 2021.
- 5.3 Ni welwyd fod gan y cartref restr eiddo cyfredol.
- 5.4 Nid oedd y llyfr ymwelwyr wedi cael ei gwblhau yn briodol h.y. llofnodi'r llyfr wrth adael y cartref a chadarnhau amser gadael.

- 5.5 Nid yw pob prawf tân yn cael ei gynnal fel y disgwyl.
- 5.6 Nid yw pob asesiad risg yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gwelwyd tystiolaeth fod rhai asesiadau risg generig ac asesiadau'r preswylwyr heb eu hadolygu ers Mai 2021.
- 5.7 Cyn yr ymweliad, cafwyd gwybod na all y cartref ddod o hyd i £160 o arian poced un o'r preswylwyr, a drwgdybiwyd ei fod wedi cael ei ddwyn. Gwelwyd nad oedd arian poced wedi ei wirio ers Ebrill 2022 cyn adnabod yr anghysondeb ym mis Awst.
- 5.8 Detholwyd sampl o 10 aelod staff y cartref ar gyfer gwirio eu cofnodion hyfforddiant. O'r 10, 7 yn unig sydd ag hyfforddiant 'Symud a Thrin' cyfredol, gydag ond 3 wedi cwblhau hyfforddiant 'Cymorth Cyntaf' yn y 3 mlynedd diwethaf. Gwelwyd mai 3 yn unig sydd gyda hyfforddiant 'Diogelu' cyfredol, ac 1 yn unig sydd wedi cwblhau modiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor.
- 5.9 Ni welwyd unrhyw dystiolaeth fod staff y cartref wedi darllen a mabwysiadu'r Polisi Diogelu Oedolion Bregus. Cadarnhaodd y Rheolwr nad oedd yn cadw cofnod o hyn.
- 5.10 O'r 10 aelod staff ble gwiriwyd eu cofnodion hyfforddiant, gwelwyd fod 5 yn parhau i ddarparu meddyginiaeth er nad ydynt wedi cwblhau prawf cymhwysedd yn y flwyddyn diwethaf.
- 5.11 Nid yw niferoedd o feddyginiaeth sy'n bresennol yn y cartref yn cytuno gyda cyfanswm y gwiriadau stoc ar bob achlysur.
- 5.12 Gwelwyd nad oedd y cartref wedi gweithredu ar pob maes gwella yn dilyn yr ymweliad diweddaraf gan AGC. Cadarnhaodd y Rheolwr fod prinder staff wedi golygu fod rhai tasgau, megis adolygu cynlluniau gofal yn parhau heb eu gweithredu.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Adolygir cynlluniau gofal yn amserol, gan gynnwys nodiadau dyddiol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth pob 3 mis.**
- **Sicrhau fod rhestr eiddo'r cartref yn gyfredol ac yn derbyn adolygiad blynyddol.**
- **Sicrhau fod arian poced preswylwyr yn cael ei wirio o leiaf pob 3 mis a'i gadw dan glo ar pob achlysur, gan ystyried cyfyngu mynediad.**
- **Sicrhau fod rhestrau o eiddo preswylwyr yn cael eu cadw yn eu cynlluniau gofal.**
- **Atgoffa staff fod angen i pob ymwelydd lenwi'r manylion yn y llyfr ymwelwyr.**
- **Sicrhau fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol.**
- **Sicrhau fod asesiadau risg, preswylwyr ac generig, yn derbyn adolygiad blynyddol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff y cartref yn cwblhau hyfforddiant Symud Thrin, Cymorth Cyntaf, ac Diogelu, yn ogystal â modiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor.**
- **Pob aelod staff i ddarllen polisi Diogelu Oedolion Bregus ac arwyddo i ddatgan hynny.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.**
- **Atgoffa staff i fod yn drylwyr wrth gynnal gwiriadau stoc meddyginiaeth, gan adrodd unrhyw anghysondebau yn syth i'r Rheolwr.**

CARTREF HAFOD MAWDDACH**1. Cefndir**

1.1 Mae Cartref Hafod Mawddach yn cynnig gofal parhaol a thymor byr i hyd at 23 o breswylwyr sydd yn ei chael yn anodd byw yn annibynnol o fewn y gymuned ac sydd wedi eu hasesu fel angen cymorth. Mae cynlluniau ar y gweill i agor Uned Dementia newydd o fewn y cartref yn y dyfodol agos bydd yn cynnig gofal i hyd at 8 preswilydd ychwanegol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau, derbyn incwm, iechyd a diogelwch, monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	5
CANOLIG	6
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Nid yw Cynllun Gofal pob preswilydd yn derbyn adolygiad misol fel y disgwyl.
- 5.2 Nid yw pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth pob 3 mis fel y disgwyl. O'r 4 cofnodion goruchwyliaeth gwiriwyd, 1 yn unig sydd wedi eu goruchwyllo o fewn y 3 mis diwethaf, gyda'r 3 aelod staff arall heb eu goruchwyllo ers 2021.
- 5.3 Nid yw'r taflenni amser a chyflwynwyd i'r Gwasanaeth Cyflogau wedi eu cwblhau fel y disgwyl ar pob achlysur. Nid oedd yr oriau a hawlir ar y daflen amser yn cytuno gyda'r 'rota' gwaith.

- 5.4 Nid yw cofrestr eiddo'r cartref wedi ei adolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf fel y disgwyl.
- 5.5 Gwelwyd nad oedd profion tân yn cael eu cynnal ar y llwybrau dianc nac y diffoddwyr tân yn reolaidd, ble mae disgwyl iddynt cael eu cynnal yn wythnosol.
- 5.6 Nid yw asesiadau risg generig y cartref nac asesiadau risg y preswylwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol.
- 5.7 Nid yw pob aelod staff wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu, gyda sawl gweithiwr yn parhau heb gwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol.
- 5.8 Disgwylir i brofion cymhwysedd meddyginiaeth cael eu cynnal yn flynyddol. O'r sampl o 10 aelod staff ddetholwyd, 6 yn unig sydd yn darparu meddyginiaeth. Er fod y 6 wedi cwblhau hyfforddiant llawn meddyginiaeth o fewn y 3 mlynedd diwethaf, 1 yn unig sydd wedi cwblhau prawf cymhwysedd yn y flwyddyn diwethaf.
- 5.9 Nid oedd llofnod staff ar wiriadau stoc meddyginiaeth ar pob achlysur.
- 5.10 Gwelwyd bod cyfnodau ble nad oedd tymheredd yr ystafell meddyginiaeth nac yr oergell wedi eu cofnodi, ble mae disgwyl eu cynnal yn ddyddiol.
- 5.11 Darganfyddwyd yn ystod yr ymweliad nad ydi'r Clerc yn cynnwys y Rheolwr yn yr e-byst i'r gwasanaeth Taliadau er mwyn sicrhau cywirdeb a chymeradwyo gwariant.

6. Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau fod cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n fisol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth pob 3 mis.**
- **Sicrhau fod rhestr eiddo'r cartref yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.**
- **Atgoffa aelodau staff o'r angen i lofnodi taflenni amser ar phob achlysur er mwyn cadarnhau cywirdeb, ac unrhyw oriau ychwanegol yn cael eu cofnodi ar y 'rota' er mwyn cysondeb.**
- **Atgoffa staff fod angen i phob ymwelydd i'r cartref lenwi'r manylion perthnasol yn y llyfr ymwelwyr, ac y staff i gynnal unrhyw wiriadau ychwanegol.**
- **Sicrhau fod profion tân ar y llwybrau dianc ac ddiffoddwyr tân yn cael eu cynnal yn amserol.**
- **Sicrhau fod asesiadau risg, preswylwyr ac generig, yn derbyn adolygiad blynyddol.**
- **Sicrhau fod staff yn cwblhau'r modiwlau hyfforddiant e-ddysgu mandadol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.**
- **Cofnodi tymheredd yr ystafell feddyginiaeth ac yr oergell yn ddyddiol.**
- **Sicrhau fod y Rheolwr yn cael ei chynnwys mewn pob e-bost i'r gwasanaeth Taliadau ble gofynnir i anfoneb cael ei dalu.**

CARTREF BRYN BLODAU**1. Cefndir**

1.1 Mae Cartref Bryn Blodau yn cynnig gofal i hyd at 41 o oedolion. Mae hyn yn cynnwys Uned Dementia gydag 8 gwely, yn ogystal â chyfleusterau gofal canolraddol, sy'n darparu gofal dros dro ac adsefydlu. Nodir yn ystod yr archwiliad nad oedd y cartref yn gweithredu i gapasiti llawn, gyda 9 gwely gwag. Daeth yn amlwg bod prinder staff wedi arwain at lawer o'r diffygion adnabwyd yn yr archwiliad.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau, derbyn incwm, iechyd a diogelwch, monitro perfformiad, ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	5
CANOLIG	5
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Nid yw Cynllun Gofal pob preswlydd yn derbyn adolygiad misol fel y disgwyl.

5.2 Nid yw pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth chwarterol fel y disgwyl.

5.3 Gwelwyd nad oedd profion wedi eu cynnal ar y larwm tân, goleuadau argyfwng, llwybrau dianc nac y diffoddwyr tân yn reolaidd.

- 5.4 Nid yw asesiadau risg pob preswlydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Gwiriwyd sampl o 3 asesiad risg, a gwelwyd dim ond 1 sydd wedi eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf gyda'r gweddill yn parhau heb eu hadolygu ers Awst 2021.
- 5.5 Nid yw pob aelod staff gyda hyfforddiant cyfredol.
- 5.6 Disgwylir i brofion cymhwysedd meddyginiaeth cael eu cynnal yn flynyddol. O'r sampl o 8 aelod staff detholwyd, 5 yn unig sydd yn darparu meddyginiaeth. O'r rhain, 3 yn unig sydd wedi cwblhau prawf cymhwysedd yn y flwyddyn diwethaf.
- 5.7 Nid yw niferoedd o feddyginiaeth sy'n bresennol yn y cartref yn cytuno gyda cyfanswm y gwiriadau stoc ar bob achlysur.
- 5.8 Gwelwyd fod sawl aelod staff yn parhau heb fabwysiadu'r Polisi Meddyginiaeth.
- 5.9 Ni welwyd unrhyw dystiolaeth fod staff y cartref wedi mabwysiadu'r Polisi Diogelu Oedolion Bregus, nac fod copi o'r polisi yn y cartref.
- 5.10 Nid yw'r cartref yn cadw cofnod o'r holl oriau mae staff yn ei hawlio ar eu taflenni amser.

5 Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Staff yn cael eu atgoffa bod angen cwblhau adolygiad misol yn eu cynlluniau gofal. Bydd hyn pob 3 mis yn y cynlluniau gofal newydd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd gan y Rheolwr Cynorthwyol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth pob 3 mis.**
- **Trafod gyda staff bod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol, gan newid y diwrnod mae'r profion yn cael eu cynnal fel i beidio disgyn ar wyl banc. Profion tân yn cael eu monitor gan y tîm rheoli yn rheolaidd.**
- **Asesiadau risg preswylwyr yn derbyn adolygiad blynyddol ac yn cael eu diweddarau fel ran o'r cynlluniau gofal newydd.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff gyda hyfforddiant Symud a Thrin, Cymorth Cyntaf, ac Diogelu cyfredol, yn ogystal â chwblhau modiwlau e-ddysgu mandadol.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.**
- **Atgoffa staff i fod yn drylwyr wrth gynnal gwiriadau stoc meddyginiaeth, gan adrodd unrhyw anghysondebau yn syth i'r Rheolwr. Gwiriadau stoc wythnosol yn cael eu cynnal ac archwiliadau misol yn cael eu cynnal gan reolwyr.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn darllen y polisi Diogelu Oedolion Bregus, ac y Polisi Meddyginiaeth gan arwyddo i ddatgan hynny.**
- **Symud i gyflwyno taflenni amser misol sydd i'w gwirio yn wythnosol yn fanwl yn erbyn y rota waith gyda unrhyw anghysondebau yn cael eu hymchwilio.**
- **Sicrhau fod y Rheolwr yn cael ei chynnwys mewn pob e-bost i'r Gwasanaeth Taliadau ble gofynnir i anfoneb cael ei dalu**

DEFNYDD ARIAN PAROD**1. Cefndir**

- 1.1 Yn sgîl y pandemig sefydlwyd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd drefn newydd i ddisodli'r hen gyfrifon 'Imprest' oedd mewn defnydd ar gyfer dosbarthu arian parod i'r llinell flaen. Bellach, mae'r swyddogion cyfrifol yn ddefnyddio cerdyn credyd Barclaycard i dalu'n uniongyrchol am nwyddau. Lle nad oes posib osgoi defnyddio arian parod fydd rhai swyddogion gyda'r hawl i godi arian parod o beiriannau 'twll yn wal' gyda cardiau credyd penodol. Fel rhan o gytundeb defnydd cardiau credyd y Cyngor, mae'r Adran Gyllid yn caniatáu'r unigolion sy'n gwneud cais am gerdyn i nodi os ydynt angen y cyfleuster codi arian parod gyda cyfiawnhad pam eu bod angen y cyfleuster hyn.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu defnydd arian parod drwy ddefnyddio cardiau credyd y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o gardiau credyd sydd â'r hawl i godi arian parod, ac archwilio'r trefniadau tu ôl i'r gweithdrefnau a sicrhau eu bod yn cydlynu â'r polisiau a chyfansoddiad y Cyngor. Yn ogystal, roedd yr archwiliad yn gwirio pa reolaethau monitro o'r defnydd cardiau credyd ac arian parod sydd mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwelwyd bod system Barclaycard Spend Management (BSM) yn adnabod trafodion codi arian parod a bod canran uchel o'r trafodion gyda derbynneb o dwll yn y wal wedi'i atodi er mwyn i'r gweinyddwr allu codio a chymeradwyo'r trafodyn ar y system.
- 5.2 Gwelwyd bod rheoliadau cardiau credyd yn cydymffurfio ag adran 16 o'r cyfansoddiad drwy ofyn am anfoneb/derbynneb ar gyfer dilysu gwariant ac adennill TAW. Fodd bynnag, mynegir adran 2.6 o'r rheoliadau cerdyn credyd '*Dylid defnyddio'r cerdyn ar wariant Cyngor Gwynedd yn unig,*' ond mae adran 16.20.33 o'r cyfansoddiad yn nodir '*Ni chaniateir unrhyw brynu preifat trwy ddefnyddio cerdyn credyd neu gerdyn talu o'r fath.*' Nid yw'r rheolaethau yn cyfeirio at ddefnydd arian parod a chyfrifoldebau hynny.
- 5.3 Mae swyddogion sydd yn cymeradwyo drwy'r system BSM yn gweithredu ar wahân i'r sawl un sydd yn rheoli'r arian parod, ac yn cymeradwyo gwariant cyn belled â bod derbynneb codi arian o dwll yn wal wedi'i atodi i'r BSM. Mae dilysu defnydd yr arian parod yn gyfrifoldeb y swyddogion sydd yn rheoli a gweinyddu'r arian. Er ni welwyd cyfarwyddiadau i gefnogi hyn yn y rheoliadau cardiau credyd.
- 5.4 Allan o'r 8 tîm o fewn adran Oedolion, gwelwyd ond 1 sydd wedi codi arian ym mlwyddyn ariannol 22/23 a gwelwyd bod derbynebau TAW i gefnogi'r gwariant. Allan o'r 10 tîm yn adran Plant, gwelwyd bod 7 wedi codi arian parod gyda 5 o'r timau heb gyflwyno derbynebau ac 1 yn unig sydd wedi cofnodi yr elfen TAW.
- 5.5 Nid oedd tystiolaeth bod yr elfen TAW o'r wariant arian parod wedi cael eu hadnabod ar gyfer eu adhawlio.
- 5.6 Mynegodd yr Uwch Dechnegydd Rheolaeth nad yw'n cynnal adolygiadau ar wariant cardiau credyd na ddefnydd y cardiau. Nid yw'n adnabod rhai sydd heb defnydd ar ôl cyfnod penodol a'r angen i gadw'r hawl codi arian parod all arwain at gamddefnydd o gardiau dylai bod wedi cael eu canslo.

6. Camau Gweithredu

Mae'r adran Gyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Newid pwynt 2.6 o'r rheoliadau cardiau credyd i:-** *Yn unol ag adran 16.20.33 o'r Cyfansoddiad, dylid defnyddio'r cerdyn ar wariant Cyngor Gwynedd yn unig. Os defnyddir y cerdyn i wneud pryniannau personol mewn camgymeriad, yna mae'n rhaid adrodd hyn i'ch Rheolwr Llinell a hefyd i DesgBarclaycard@gwynedd.llyw.cymru i wneud trefniadau i ad-dalu'r Cyngor cyn gynted â phosib.*
- **Ychwanegu pwynt 4 newydd i'r Rheoliadau Cardiau Credyd, yn benodol ar gyfer y rhai sydd â hawl i godi arian parod.**
- **Cyfrifwyr yr adran Gyllid i sicrhau eu bod yn darparu canllawiau a sefydlu rheolaethau arian parod i'w gwasanaethau, monitro a chadw rheolaeth dosbarthiad arian parod.**
- **Monitro defnydd o gardiau unwaith y flwyddyn.**

DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (2021)**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (2021) yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad llywodraeth leol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Gyngorau a Chynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru barhau i adolygu, drwy hunanasesu, i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau y maent yn gweithredu eu swyddogaethau yn effeithiol ac yn defnyddio'u hadnoddau yn economaidd, yn effeithiol ac effeithlon.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021) sy'n cyflwyno newidiadau a grymoedd llywodraethiant llywodraeth leol yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio hunanasesiad a'r rhaglen waith, yn ogystal a gwirio adroddiadau a chofnodion pwyllgorau perthnasol er mwyn gwirio cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r Ddeddf.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	0
ISEL	2

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae naw prif ran i'r Ddeddf sy'n berthnasol i Brif Gyngorau, Cyngorau Tref a Chymuned ac Awdurdodau eraill. Gwelwyd ar y cyfan bod y Cyngor yn cydymffurfio a'r Ddeddf yn unol â'r amserlen, a bod rhaglen waith yn cael ei diweddarau yn gyson.

- 5.2 Gwelwyd bod y Rhaglen Waith gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (2021) wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref 2022 a bod y mwyafrif o'r camau gweithredu yn deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf wedi cael eu cwblhau a'u cyflawni. Mae'r Rhaglen Waith yn rhoi trosolwg a sicrwydd ar y camau gweithredu a gwelwyd bod gwaith cyson yn cael ei baratoi er mwyn sicrhau bod strategaethau, cynlluniau a chanllawiau yn cael eu paratoi yn unol â'r amserlen.
- 5.3 Gwelwyd bod y Cyngor Llawn wedi mabwysiadu newidiadau ar y Cyfansoddiad, ond ni welwyd bod yr addasiadau yma wedi cael eu diweddarau ar dudalen y Cyfansoddiad sydd ar wefan y Cyngor.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddarau ar wefan y Cyngor yn sgil y newidiadau sydd wedi eu cymeradwyo.**
- **Sicrhau bod y Cynllun Deisebau, Strategaeth Cyfranogiad a'r Canllawiau Cyfansoddiad yn cael eu paratoi yn unol â'r amserlen.**

DYCHWELYD CYFARPAR AELODAU**1. Cefndir**

- 1.1 Yn dilyn etholiad Mai 2022, daeth cyfnod nifer o Aelodau Gwynedd fel cynrychiolwyr eu hetholaeth i ben. Fel unrhyw 'weithiwr' i'r Cyngor, mae disgwyl i Aelodau ddychwelyd unrhyw gyfarpar sydd yn eu meddiant sy'n eiddo i'r Cyngor.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn rheoli asedau'r Cyngor sydd yng ngofal Aelodau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod cofnod o pa asedau oedd gan yr aelodau a beth yw'r trefniadau mewn lle i sicrhau bod rhain yn dod yn ôl i eiddo'r Cyngor pan oedd aelodau'n gadael.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae gan y rhan fwyaf o gyn-Aelodau docynnau parcio, cardiau adnabod ac asedau TG sy'n eiddo i'r Cyngor. Ni welwyd cofnod na thystiolaeth bod pob tocyn parcio a cherdyn adnabod wedi eu dychwelyd, felly ni ellir sicrhau bod rheolaethau priodol mewn lle i atal risg o'u camddefnydd. Fodd bynnag, mae rheolaethau effeithiol i sicrhau nad yw cardiau adnabod cyn-Aelodau yn gallu agor drysau wedi iddynt adael cyflogaeth y Cyngor. Gwiriwyd sampl o 10 cyn-Aelod a gwelwyd bod cardiau adnabod y 10 wedi eu canslo yn ôl adroddiad dderbyniwyd gan y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol Technoleg Gwybodaeth.

- 5.2 Allan o 82 o asedau TG, megis tabledi, disgwylir i'w dychwelyd neu eu prynu gan gyn-Aelodau, ar amser yr archwiliad mae 8 heb eu dychwelyd nac eu trefnu i'w prynu, yn ôl y gofrestr asedau a wiriwyd. Mae trefniadau mewn llaw i sicrhau bod yr asedau TG yma yn cael eu dychwelyd maes o law.
- 5.3 Mae'r gofrestr asedau cedwir yn un cynhwysfawr ac effeithiol gan ei fod yn bosib i adnabod statws dychwelyd unrhyw ased a'r unigolyn cyfrifol am yr ased yna.
- 5.4 Mae rheolaethau effeithiol i sicrhau nad oes gan gyn-Aelodau fynediad at systemau TG y Cyngor wedi iddynt adael. Wedi i'w cyflogaeth derfynu, bydd eu cyfrifon yn cael eu cau o fewn y system 'Active Directory' sydd yn eu rhwystro rhag cael mynediad at fewnrwyd a data y Cyngor.
- 5.5 Mae trefn o ddiogelu data effeithiol mewn lle. Mae pob ased sydd yn cael eu dychwelyd neu eu prynu yn gorfod cael eu cyflwyno i'r Gwasanaeth TG i gael eu glanhau o unrhyw ddata sydd arnynt. Mae'r asedau clir yma wedyn yn cael eu cadw gyda'r Gwasanaeth TG os ydynt yn cael eu dychwelyd ac yn cael eu rhoi i'r cyn-Aelodau os ydynt wedi eu prynu.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod cardiau adnabod a thocynnau parcio cyn-Aelodau yn cael eu dychwelyd a bod cofnod priodol o hyn.**

HYFFORDDI AELODAU

1. Cefndir

- 1.1 Mae Adran 7 o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn nodi bod angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd rhesymol i'w haelodau, yn ogystal â rhoi'r cyfle i'w haelodau dderbyn adolygiad blynyddol o'u anghenion hyfforddi a datblygu.
- 1.2 Mae 'Fframwaith Datblygu Cynghorwyr Cymru' (Mai 2015) yn amlinellu'r medrau a'r wybodaeth angenrheidiol i aelodau awdurdodau lleol Cymru i gyflawni eu dyletswyddau. Fe luniwyd y fframwaith fel rhan o raglen ddatblygu broffesiynol parhaus ar gyfer aelodau, sydd yn cyd-fynd â Siarter Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle er mwyn cyflawni anghenion hyfforddiant aelodau newydd Cyngor Gwynedd yn dilyn etholiad Mai 2022. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu asesu'r drefn o adnabod a darparu hyfforddiant i aelodau newydd yn unol a'u hanghenion, yn ogystal â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad isod:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Cynhaliwyd 2 sesiwn anwytho i Aelodau yn dilyn etholiadau mis Mai 2022. Gwiriwyd cynnwys y sesiynau a gwelwyd eu bod yn cynnwys gwybodaeth elfennol bwysig i'r Aelodau yn ogystal â gweithrediadau megis arwyddo cytundebau a derbyn dyfeisiadau TG. Fodd bynnag, nid oes cofnod o'r presenoldeb ar gyfer y sesiynau.
- 5.2 Sefydlwyd mewnrwyd aelodau er mwyn canoli'r holl wybodaeth sydd angen ar aelodau. Mae'n syml i'w defnyddio ac yn gynhwysfawr. Gwelir yma wybodaeth am ddisgrifiadau rôl gwahanol a gwybodaeth am y rhaglen hyfforddiant a digwyddiadau sydd i ddod yn y dyfodol agos. Mae'r rhaglen hyfforddi wedi ei selio ar fframwaith anwytho CLILC. Fodd bynnag, darganfuwyd nad oedd unrhyw wybodaeth am rolau o fewn y "deilsen" "Disgrifiad Rolau".
- 5.3 Mae trefniadau effeithiol i dderbyn adborth am hyfforddiant penodol trwy'r Modiwl Datblygu Staff (MoDS). Mae adborth am y rhaglen hyfforddi aelodau yn gyffredinol yn cael ei roi ger bron y Pwyllgor Gwasanaeth Democratiaeth. Fodd bynnag, nid oes trefn mewn lle i adnabod gofynion mwy manwl aelodau. Os oes diffyg penodol gan un aelod, nid oes plattform wedi ei sefydlu ar hyn o bryd iddynt gyflwyno'r broblem neu eu hangen am hyfforddiant. Trafodwyd hyn gyda'r swyddogion perthnasol a cytunwyd dylid sefydlu trefn sydd yn ei gwneud yn haws a chynt i aelodau fynegi eu anghenion hyfforddiant unigol. Mae cynlluniau mewn llaw i ddefnyddio holiaduron cyfnodol i wirio gofynion aelodau, er mwyn holi os oes unrhyw ofyn am hyfforddiant ganddynt ac i hyrwyddo'r ffaith bod y Swyddog Datblygu Aelodau ar gael os oes gan unrhyw aelod gais neu gwestiwn am hyfforddiant.
- 5.4 Cyflwynodd Cyngor Gwynedd gais i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) er mwyn ennill Breinlen, neu'r 'Siarter Aelodau', ac fe'i adnewyddwyd yn 2018. Mae gofyn i awdurdodau adnewyddu pob 3 mlynedd ar sail hunan-asesiad, ac mae ystyriaeth wedi ei roi er mwyn cyflwyno cais yn ystod 2022/23.

6. Camau Gweithredu

Mae Swyddog Datblygu Aelodau a'r Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod "Disgrifiad Rolau" yn weithredol ar Fewnrwyd Aelodau.**
- **Sicrhau bod modd gwirio a chefnogi unrhyw anghenion hyfforddiant unigol Aelodau yn rheolaidd.**
- **Cyflwyno cais i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn adnewyddu'r Freinlen.**

GRANT CYMORTH TAI**1. Cefndir**

1.1 Dyrannwyd hyd at £6.8 miliwn o grant i Gyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021-22 fel rhan o gynllun Cymorth Tai. Mae'r cynllun yn comisiynu ac ariannu nifer o ddarparwyr i gynnig cymorth i unigolion bregus i gadw eu tenantiaeth ac osgoi digartrefedd, gyda'r nod o alluogi'r unigolion i fyw yn annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogol yn gysylltiedig â thai. Gall y gwasanaeth gael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn neu mewn hostel, cartrefi gwarchodol, neu unrhyw dŷ lle ceir cefnogaeth. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth i amrediad eang o bobl, megis pobl hŷn, pobl gyda phroblemau trais domestig, pobl mewn perygl o fod yn ddigartref, problemau iechyd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau yn ogystal ag anabledd dysgu.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio grant Cymorth Tai ar gyfer 2021-22, drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb ffigurau ariannol ar dystysgrif archwilio grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigurau.

5.2 Mae'r tystysgrif archwilio yn gofyn i'r Archwiliwr Mewnol gadarnhau bod y gwariant yn briodol, ac yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y grant, yn unol â gofynion y llythyr cynnig. Gan bod y grant yn ariannu taliadau i amryw o ddarparwyr gwasanaeth allanol, mae'r Cyngor fel rheol yn cynnal ymweliadau monitro er mwyn sicrhau priodoldeb y gwasanaeth a'r taliadau â wneir, ond oherwydd prinder staffio, ni gynhaliwyd y gwaith monitro yma yn ystod 2021-22. Fodd bynnag, ar amser yr archwiliad, mae trefniadau monitro bellach wedi ailgychwyn.

6. **Camau Gweithredu**

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Ail-ddechrau ymweliadau monitro er mwyn sicrhau priodoldeb gwasanaeth darparwyr allanol**

GRANTIAU PRYNWYR TRO CYNTAF

1 Cefndir

1.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2019-24 yng Ngorffennaf 2019, gyda'r weledigaeth o: "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". Adnabuwyd pum amcan sydd angen eu cyfarch i gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

1.2 Lluniwyd Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 - 2026/27 i geisio ymateb i'r amcanion yma a gafodd ei fabwysiadu yn Rhagfyr 2020. Un o gynlluniau'r cynllun yw Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf, sef, "Grantiau ar gyfer helpu prynwyr tro cyntaf i adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol."

2 Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gwirio ceisiadau gan brynwyr tai tro cyntaf am gymorth ariannol, yn ogystal a dyroddi'r grantiau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r rheolaethau mewnol sydd mewn lle drwy wirio sampl o geisiadau ynghyd â'r dogfennau / tystiolaeth berthnasol er mwyn sicrhau bod y grantiau a weinyddir wedi cael eu prosesu yn briodol.

3 Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4 Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	1

5 Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Derbyniodd y cynllun grantiau prynwyr tro cyntaf llawer o gyhoeddusrwydd ym Mehefin 2021, ond fe addaswyd y meini prawf yn ddiweddarach yn y flwyddyn h.y.

- Cynyddwyd ffigyrau'r 'Canllaw Cost Derbyniol' sef yr uchafswm pris eiddo a ganiateir (fesul band treth Cyngor a maint y teulu).
- Gwaredu'r uchafswm nifer lloffttydd a ganiateir yn yr eiddo.
- Lleihau'r nifer o fisoedd mae angen i'r eiddo fod yn wag o 12 mis i 6 mis.

Ni chafodd yr addasiadau yma gyhoeddusrwydd ar y pryd.

5.2 Mae'r meini prawf yn nodi bod rhaid i un neu ddau o'r ymgeiswyr fod wedi byw am o leiaf y 5 mlynedd flaenorol yn ardal Cyngor Cymuned (neu ardal gyfochrog) yr eiddo a brynwyd o'r newydd. Gwiriwyd y dystiolaeth oedd wedi ei ddarparu a gwelwyd nad oedd digon o dystiolaeth wedi ei dderbyn yn y ddau achos isod:

1. Eiddo 1 - dyddiad prynu'r eiddo 10/08/22 - datganiadau banc wedi eu derbyn ar gyfer Awst 2018 i Awst 2022 - 4 mlynedd yn unig.
2. Eiddo 2 - dyddiad prynu'r eiddo 03/05/22 - datganiadau banc wedi eu derbyn ar gyfer Tachwedd 2017 i Mai 2022 - 4.5 mlynedd yn unig.

5.3 Gwiriwyd sampl o anfonebau a thystysgrifau gwaith adnewyddu lle'n berthnasol. Gwelwyd un achos lle nad oedd tystysgrif wedi ei dderbyn ar gyfer gwaith gosod ffenestri a drysau.

5.4 Unwaith mae'r grant yn cael ei gymeradwyo, gofynnir i'r ymgeiswyr arwyddo a dychwelyd y cytundeb i'r gwasanaeth. Yna mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn gwneud cais i'r Gofrestrfa Tir i gofrestru cyfyngiad cyfreithiol yn erbyn yr eiddo. Mae trafferthion wedi bod gyda'r broses yma ond mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol nawr wedi cytuno ar y ffordd ymlaen yn ffurfiol gyda'r Gofrestra Tir lle gall ceisiadau am gyfyngiadau mewn perthynas â chytundebau grant fod ar gyfer cyfyngiadau ffurf safonol.

6 Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Cwblhau'r ffurflen bwrpasol ar gyfer y Swyddog Cyfathrebu Cynlluniau Tai Dros Dro yn manylu ar beth sydd angen ei hysbysebu a phryd.
- Sicrhau bod misoedd yn cael eu gwirio yn hytrach nag y blynyddoedd yn unig wrth wirio'r dystiolaeth bod ymgeiswyr wedi byw am o leiaf y 5 mlynedd flaenorol yn ardal Cyngor Cymuned (neu ardal gyfochrog) yr eiddo a brynwyd o'r newydd.
- Sicrhau fod tystysgrifau yn cael eu darparu cyn gwneud unrhyw daliadau.
- Cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr cymwys am y grant prynwyr tro cyntaf (gan gynnwys y rheini sydd eisoes wedi derbyn taliadau grant) yn arwyddo cytundeb a'r ffurflen gyfreithiol bwrpasol fel bod modd cofrestru cyfyngiad cyfreithiol yn erbyn yr eiddo gyda'r Gofrestra Tir.